



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru
(Y Cofnod Swyddogol)**

**The National Assembly for Wales
(The Official Record)**

Dydd Mawrth 9 Tachwedd 1999

Tuesday 9 November 1999

Cynnwys Contents

2	Cwestiynau i'r Prif Ysgrifennydd <i>Questions to the First Secretary</i>
14	Pwynt o Drefn <i>Point of Order</i>
20	Datganiad Busnes <i>Business Statement</i>
21	Y Ddeddf Iechyd 1999 <i>The Health Act 1999</i>
59	Diwygio Rheolau Sefydlog <i>Revision to Standing Orders</i>
65	Dadl Fer: Mynediad at Wybodaeth yn y Cynulliad a Llywodraeth Leol <i>Short Debate: Access to Information in the Assembly and Local Government</i>

Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynddi yn y Siambr.
Yn y golofn dde, cynhwyswyd cyfieithiad o'r areithiau hynny.

In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were spoken in the Chamber. In the right-hand column, a translation of those speeches has been included.

*Cyfarfu'r Cynulliad am 2 p.m. gyda'r Llywydd yn y Gadair.
The Assembly met at 2 p.m. with the Presiding Officer in the Chair.*

Cwestiynau i'r Prif Ysgrifennydd Questions to the First Secretary

Cwngos Quangos

Q1 Jenny Randerson: On how many UK quangos are there representatives for Wales rather than the National Assembly for Wales and which, therefore, are not subject to the formal Assembly nomination process? (OAQ1878VB)

The First Secretary: There are 35 UK bodies that have a member appointed to represent Welsh interests and where the Assembly has a role in the appointment process. There are many other appointments on which the Assembly is consulted, and members from Wales can be, and often are, appointed because of their expertise and knowledge of Welsh interests. We have inherited a mixed bag of arrangements and, over time, I hope that we can achieve some consistency through a series of bilateral discussions. I am keen for the Assembly to be seen as a constructive partner whose contributions add value to the quality of public service in the UK generally as the best way of securing Welsh representation on these bodies.

Jenny Randerson: As the First Secretary knows, this issue has been discussed in the case of the Strategic Rail Authority, on which Peter Law will be consulted by the Secretary of State for the Environment, Transport and the Regions. In view of the SRA's significance to everyone in Wales, does the First Secretary not agree that this appointment should be the subject of Assembly consultation through the processes that he has outlined for Assembly appointments and for Wales-based Assembly sponsored public bodies, rather than Cabinet-only consultation? Does the First Secretary also agree that it is unacceptable that so many organisations—he referred to 35—that have a decisive influence over many areas of Welsh life should continue to appoint

C1 Jenny Randerson: Ar ba nifer o gwngos y DU y ceir cynrychiolwyr o Gymru yn hytrach nag o Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac sydd felly heb ddilyn proses enwebu ffurfiol y Cynulliad? (OAQ1878VB)

Y Prif Ysgrifennydd: Mae 35 o gyrff y DU ag arnynt aelod a benodwyd i gynrychioli buddiannau Cymru a lle y mae gan y Cynulliad ran yn y broses benodi. Ceir llawer o benodiadau eraill yr ymgynghorir â'r Cynulliad yn eu cylch, a gellir penodi aelodau o Gymru oherwydd eu harbenigedd a'u gwybodaeth am fuddiannau Cymreig, ac fe ddigwydd hynny'n aml. Yr ydym wedi etifeddu cymysgedd o drefniadau a, dros amser, gobeithiaf y gallwn sicrhau rhywfaint o gysondeb drwy gyfres o drafodaethau dwyochrog. Yr wyf yn awyddus i'r Cynulliad gael ei weld yn bartner adeiladol y mae ei gyfraniadau'n ychwanegu gwerth at ansawdd gwasanaeth cyhoeddus yn y DU yn gyffredinol fel y modd gorau i sicrhau cynrychiolaeth o Gymru ar y cyrff hyn.

Jenny Randerson: Fel y gwyr y Prif Ysgrifennydd, fe drafodwyd y mater hwn yn achos yr Awdurdod Rheilffyrdd Strategol, yr ymgynghorir â Peter Law yn ei gylch gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau. Yn wyneb pwysigrwydd yr Awdurdod Rheilffyrdd Strategol i bawb yng Nghymru, oni chytuna'r Prif Ysgrifennydd y dylai'r penodiad hwn fod yn destun ymgynghoriad â'r Cynulliad drwy'r prosesau a amlinellodd ar gyfer penodiadau'r Cynulliad ac ar gyfer cyrff cyhoeddus yng Nghymru a noddur gan y Cynulliad, yn hytrach nag ymgynghoriad â'r Cabinet yn unig? A yw'r Prif Ysgrifennydd hefyd yn cytuno ei bod yn annerbyniol bod cynifer o gyrff—fe gyfeiriodd at 35—sydd â dylanwad tyngedfennol dros lawer o feysydd

representatives for Wales without any formal or informal reference to the Assembly?

The First Secretary: It should be understood that we are sometimes involved in processes that happen quickly. We are fully involved in devolution but it will take time for Government Ministers, departments and officials to come up to speed. That is why we need a process over time to secure systems that are more sensitive to the more inclusive way we work. I would like to see that developed, which is why we have set processes in place including representatives from other parties on each of the committees involved. Those include the Advisory Committee on Borderline Substances, the Advisory Panel on Standards for the Planning Inspectorate Executive Agency, the British Potato Industry Development Council and the Environment Agency Regional Fisheries Advisory Committee. There is also the Medicines Commission and Medical Practices Committee. Some of these are specialised and some have much wider interests. We must deal with them on a case by case basis.

Over time, I would like to see our more inclusive manner of making appointments reflected in the way we make nominations to central Government bodies. I would not like to hamstring us at an early stage, before we even have an opportunity to discuss, with colleagues in Westminster and Whitehall, the best way to achieve that. Over time, Jenny, I would agree with that objective.

Dafydd Wigley: Tra'n derbyn bod y cwangos yn amrywio o ran eu cyfrifoldebau a'u natur, onid rhan o'r rheswm dros sefydlu'r Cynulliad oedd dileu neu leihau nifer sylweddol o'r cwangos, neu o leiaf eu gwneud yn fwy atebol i bobl Cymru? Credaf mai 'coelcerth o gwangos' oedd y term ar y pryd. Onid oes perygl bob amser fod y bobl sydd yn gwasanaethu ar gwangos yn deyrngar i'r rhai a'u penododd? I ategu'r hyn a ddywedodd Jenny Randerson, onid oes dadl y dylai pob aelod o Gymru sydd ar gwango Prydeinig fod yn agored i ryw ffurf o gadarnhad gan y Cynulliad? Yn bwysicach efallai, oni ddylai fod gan Bwyllgorau'r

ym mywyd Cymru yn parhau i benodi cynrychiolwyr o Gymru heb ymgynghori'n ffurfiol neu'n anffurfiol â'r Cynulliad?

Y Prif Ysgrifennydd: Dylid deall ein bod weithiau'n rhan o brosesau sydd yn digwydd yn gyflym. Yr ydym ni ynghlwm wrth ddatganoli ond fe gymer amser i Weinidogion y Llywodraeth, yr adrannau a'r swyddogion ymgynefino. Dyna pam y mae arnom angen proses dros amser i sicrhau systemau sydd yn fwy sensitif i'r dull gweithio mwy cynhwysol sydd gennym. Hoffwn weld datblygu hynny a dyna pam yr ydym wedi sefydlu prosesau sydd yn cynnwys cynrychiolwyr o bleidiau eraill ar bob un o'r pwyllgorau dan sylw. Ymhlith y rhai hynny y mae'r Pwyllgor Ymgynghorol ar Sylweddau Ffiniol, y Panel Ymgynghorol ar Safonau ar gyfer Asiantaeth Weithredol yr Arolygwyr Cynllunio, Cyngor Datblygu Diwydiant Tatws Prydain a Phwyllgor Ymgynghorol Pysgodfeydd Rhanbarthol Asiantaeth yr Amgylchedd. Hefyd ceir y Comisiwn Meddyginiaethau a'r Pwyllgor Arferion Meddygol. Mae rhai o'r rhain yn arbenigol ac mae gan rai ohonynt ddiddordebau ehangach. Mae'n rhaid inni ymdrin â hwy fesul un.

Dros amser, hoffwn weld ein dull mwy cynhwysol o benodi yn cael ei adlewyrchu yn y modd yr ydym yn gwneud enwebiadau i gyrff y Llywodraeth ganol. Nid wyf am ein llyffetheirio ar y dechrau, cyn inni hyd yn oed gael cyfle i drafod y ffordd orau i gyflawni hynny, gyda'n cydweithwyr yn San Steffan a Whitehall. Cytunaf y dylid ceisio'r amcan hwnnw dros amser, Jenny.

Dafydd Wigley: While accepting that the responsibilities and nature of quangos vary, was not the Assembly established, in part, to abolish or reduce a substantial number of the quangos, or at least to make them more accountable to the people of Wales? I believe that the phrase at the time was 'a bonfire of quangos'. Is there not always a risk that the people who serve on quangos are loyal to those who appointed them? To support what Jenny Randerson said, is there not an argument that every member from Wales on a British quango should be open to some form of ratification from the Assembly? More importantly, perhaps, should not the

Cynulliad yr hawl i alw ar yr aelodau o Gymru i ateb i'r pwyllgorau ac i esbonio pa gamau y maent yn eu cymryd, os yw hynny'n briodol ac yn berthnasol i waith y Pwyllgorau?

Y Prif Ysgrifennydd: Fel arfer y mae'n beth newydd i'r rhai o Gymru sydd yn aelodau o'r sefydliadau hyn i weld pobl yn ymddiddori yn eu gwaith. Yr wyf yn sicr y byddai llawer ohonynt yn hapus i gyfarfod â ni. Cefais gyfarfod, er enghraifft, gyda'r Arglwydd Warner sydd yn cadeirio Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid Cymru a Lloegr i ystyried y modd y mae ei waith yn cyd-fynd â'r hyn y mae arnom ni eisiau ei wneud. Ymhen amser, bydd cyfle i'r rhai sydd yn cadeirio'r sefydliadau, y byrddau neu'r cwangos hyn gael cysylltiad mwy eang â'r Cynulliad. Bydd hyn yn cymryd tipyn o amser.

Os ystyriwn y rhestr o gwangos, maent yn ymddangos yn wahanol iawn i'w gilydd. Mae rhai ohonynt yn arbenigo ac mae gan eraill faes ehangach. Yr wyf yn gefnogol i'r syniad o ystyried hyn a cheisio dod o hyd i ffyrdd o weithredu sydd yn deg ac yn canolbwyntio ar y cyfraniad y gall pobl ei wneud dros Gymru. Rhaid inni fynd drwy'r broses o ehangu'r ddadl er mwyn sicrhau nad ydym yn gwasgu rhai pethau yn rhy dynn.

Assembly Committees have the right to call the members from Wales to answer to the committees and to explain what steps they are taking, if that is appropriate and relevant to the work of the Committees?

The First Secretary: Usually it is a novelty for those from Wales who are members of one of these organisations to see people taking an interest in their work. I am certain that many of them would be happy to meet us. I had a meeting, for example, with Lord Warner who chairs the Youth Justice Board for England and Wales to consider how its work fits in with what we wish to do. In time, there will be an opportunity for those who chair these organisations, boards or quangos to have a broader link with the Assembly. This will take some time.

If we consider the list of quangos, they appear to be very different from one another. Some of them specialise and others have a broader remit. I support the idea of considering this and trying to find ways of working which are fair and which concentrate on the contribution people can make for Wales. We must go through the process of broadening the debate to ensure that we are not squeezing some things too tightly.

Rhyddid Gwybodaeth yng Ngwaith y Cynulliad Freedom of Information in Assembly Operations

Q2 Alison Halford: Will the First Secretary make a statement on what specific steps have been taken to ensure freedom of information in the Assembly's operations? (OAQ1853VB)

The First Secretary: Freedom of information has been built into the Assembly's operations from the outset. Section 70 of the Government of Wales Act 1998 contains requirements on openness. Standing Orders Nos. 8 and 17 elaborate on this. One of the Assembly's first acts was to adopt the Code of Practice on Public Access to Information which anticipated the contents of the Freedom of Information Bill. It will take time for people to adjust from being involved in a Government department to working in an open and inclusive and accountable body. I pay tribute to the way

C2 Alison Halford: A wnaiff y Prif Ysgrifennydd ddatganiad ar y camau penodol a gymerwyd i sicrhau rhyddid gwybodaeth yng ngwaith y Cynulliad? (OAQ1853VB)

Y Prif Ysgrifennydd: Mae rhyddid gwybodaeth wedi ei gorffori yng ngwaith y Cynulliad o'r dechrau. Ceir gofynion ynghylch bod yn agored yn Adran 70 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998. Mae Rheolau Sefydlog Rhifau 8 a 17 yn ymhelaethu ar hynny. Un o weithredoedd cyntaf y Cynulliad oedd mabwysiadu'r Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth a achubodd y blaen ar gynnwys y Mesur Rhyddid Gwybodaeth. Fe gymer amser i bobl newid o fod yn gysylltiedig ag adran o'r Llywodraeth i weithio mewn corff agored a chynhwysol ac atebol. Talaf

our officials are working on these adjustments. The Cabinet puts in a lot of effort to try to find ways of making information as accessible and open as possible.

David Davies: Will the First Secretary tell us why, if he believes in freedom of information, he last week prevented Assembly Members from entering a room in which a briefing was being given to the press? Would it not be more consistent, if he believes in freedom of information, to allow Members of this Chamber to have access to the same information that he gives to journalists?

The Presiding Officer: Order. Before the First Secretary replies, may I indicate that this does not arise from the question and, as I have already had notice from the Conservative Group of a point of order on this issue, I would prefer to deal with this matter under that point of order.

The First Secretary: As that comment will be available to broadcasters and the press, I should make the point that I have written to the leader of the Conservative Group about the disgraceful behaviour that took place last week. This occurred when a perfectly appropriate briefing was being given to the press and media on matters of information which the appropriate member of the Cabinet ensured were available to Assembly Members. David must explain why he wants to deny information to the press and the media.

2:09 p.m.

Jocelyn Davies: My supplementary question also refers to freedom of information. Following my request on 22 October, will you make any documents that you have relating to the third Transfer of Functions Order available to me without further delay or am I to continue to be denied them until a few days before our debate?

The First Secretary: I am unsure as to what you mean by denial. I am not aware of a request for information. The Transfer of

deyrnged i'r modd y mae'n swyddogion yn gweithio ar y newidiadau hyn. Bydd y Cabinet yn ymdrechu'n galed i geisio canfod ffyrdd i sicrhau bod gwybodaeth mor agored a hawdd mynd ati ag y bo modd.

David Davies: A yw'r Prif Ysgrifennydd yn fodlon dweud wrthym, os yw'n credu mewn rhyddid gwybodaeth, pam yr ataliodd Aelodau o'r Cynulliad rhag mynd i ystafell lle'r oedd cyfarfod briffio i'r wasg yr wythnos diwethaf? Oni fyddai'n fwy cyson, os yw'n credu mewn rhyddid gwybodaeth, i ganiatáu i Aelodau o'r Siambr hon gael yr un wybodaeth ag y mae'n ei rhoi i newyddiadurwyr?

Y Llywydd: Trefn. Cyn i'r Prif Ysgrifennydd ymateb, a gaf nodi nad yw hyn yn codi o'r cwestiwn a chan fy mod eisoes wedi cael rhybudd gan y Grŵp Ceidwadol am bwynt o drefn ar y mater hwn, byddai'n well gennyf ymdrin â'r mater hwn o dan y pwynt hwnnw o drefn.

Y Prif Ysgrifennydd: Gan y bydd y sylw hwnnw ar gael i ddarlledwyr ac i'r wasg, fe ddylwn nodi fy mod wedi ysgrifennu at arweinydd y Grŵp Ceidwadol ynghylch yr ymddygiad gwarthus a ddigwyddodd yr wythnos diwethaf. Fe ddigwyddodd hynny pan oedd y wasg a'r cyfryngau'n cael eu briffio mewn modd cwbl briodol ar faterion o wybodaeth yr oedd yr aelod priodol o'r Cabinet wedi sicrhau eu bod ar gael i Aelodau'r Cynulliad. Rhaid i David egluro pam y mae am wrthod gwybodaeth i'r wasg a'r cyfryngau.

Jocelyn Davies: Mae'r cwestiwn atodol sydd gennyf yn cyfeirio at ryddid gwybodaeth hefyd. Ar ôl y cais a gyflwynais ar 22 Hydref, a fyddwch gystal â sicrhau y bydd unrhyw ddogfennau sydd gennych sydd yn ymwneud â'r trydydd Gorchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau ar gael i mi heb oedi pellach ynteu a ydynt i gael eu gwrthod i mi hyd ychydig ddyddiau cyn ein dadl?

Y Prif Ysgrifennydd: Nid wyf yn sicr beth a olygwch wrth wrthod. Nid wyf yn ymwybodol o gais am wybodaeth. Mae'r

Functions Orders are complex documents which transfer powers contained in laws built up at primary and secondary level over decades, if not centuries. We have tried on every occasion to make information as widely available as possible. I do not understand the delphic nature of your reference but I am happy to try to provide the information you require.

Gorchmynion Trosglwyddo Swyddogaethau yn ddogfennau cymhleth sydd yn trosglwyddo pwerau a geir mewn deddfau a gyfansoddwyd ar lefel sylfaenol neu eilaidd dros ddegawdau, os nad canrifoedd. Yr ydym wedi ceisio sicrhau darpariaeth gwybodaeth mor eang â phosib ar bob achlysur. Nid wyf yn deall natur oraclaidd yr hyn y cyfeiriasoch ato ond byddaf yn falch o geisio darparu'r wybodaeth y mae arnoch ei hangen.

Deunydd y Cynulliad mewn Braille Assembly Material in Braille

C3 David Lloyd: Pa sylwadau y mae'r Prif Ysgrifennydd wedi'u cael oddi wrth gymdeithasau pobl anabl ynghylch pa ddeunydd a gynhyrchir gan y Cynulliad a ddylai fod ar gael ar ffurf tâp neu braille?

Q3 David Lloyd: What representations has the First Secretary received from disability organisations regarding what material produced by the Assembly should be made available on tape or in braille?

Y Prif Ysgrifennydd: Mae Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Deillion a Chyngor Cymru i'r Deillion wedi gofyn am ddeunydd ar dâp sain ac mewn braille. Ein polisi ni yw bod y dogfennau allweddol a ddosberthir yn gyffredinol i bobl yng Nghymru yn cael eu darparu mewn braille ac ar dâp. Yr ydym ar hyn o bryd yn edrych ar ffyrdd o ddatblygu'r polisi hwn, ac y mae'r sefydliadau y cyfeiriais atynt yn rhoi cyngor inni ar y ffordd orau o wneud hyn.

The First Secretary: The Royal National Institute for the Blind and the Wales Council for the Blind have requested that material be made available on audio tape and in braille. Our policy is that the key documents that are distributed generally to people in Wales are provided in braille and in audio form. We are at present looking at ways of developing this policy, and the organisations to which I have referred are advising us on the best way of doing this.

David Lloyd: A yw hynny'n golygu eich bod wedi derbyn sylwadau gan y sefydliadau hynny? A ydych hefyd yn cytuno bod angen strategaeth wybodaeth sydd ar gael yn hawdd i bawb sydd yn anabl, ac mai'r ffordd orau o sicrhau hynny yw drwy'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal?

David Lloyd: Does that mean that you have received representations from those institutions? Do you also agree that an information strategy is required which would be easily accessible to all disabled people, and that the best way to secure this is through the Equal Opportunities Committee?

Y Prif Ysgrifennydd: Mae mwy nag un ffordd o wneud pethau, fel y trafodais gyda Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Deillion pan oeddwn yn agor eu swyddfeydd fis diwethaf. Mae braille neu dâp yn ateb i rai pobl. I eraill, mae'r modd y mae pethau yn cael eu gosod ar y dudalen yn bwysig iawn. Mae'n hanfodol, felly, dderbyn gwybodaeth gan y rhai sydd yn arbenigo yn y maes hwn er mwyn sicrhau bod pob person anabl yn derbyn y math o fynediad sydd yn addas ar gyfer eu problemau nhw. Mae Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Deillion a Chyngor Cymru i'r Deillion wedi rhoi eu sylwadau, ac yr ydym yn cymryd eu cyngor ynglŷn â'r

The First Secretary: There are more ways than one of doing things, as I discussed with the RNIB when I opened their offices last month. For some people, braille or audio is an answer. For others, the way in which things are set out on the page is very important. It is crucial, therefore, to receive advice from experts in this field to ensure that all disabled people receive the kind of access that is appropriate to their problems. The RNIB and the Wales Council for the Blind have submitted their comments and we are taking their advice on the best method of developing our service to these people.

ffordd orau o ddatblygu ein gwasanaeth i'r bobl hyn.

Kirsty Williams: Do the major documents to which you referred in your answer to Dai Lloyd include material relating to school governorship and the ability of partially sighted or blind people to fulfil their role as school governors? Are you also aware of an answer to a question I previously asked the Secretary for Education and Children? The answer stated that this is essentially a matter for the individual governor, school or local authority. Would you agree that by denying access to such information we are denying partially sighted or blind people their role in society?

The First Secretary: You should be careful in using words such as denial. If a document is produced by the Assembly for wide distribution, it would be our responsibility to make it available and accessible to blind or partially sighted people unless it is the responsibility of the local authority or the governing body. As I indicated, we are looking at a way of extending and developing the availability of services. It is possible to have good intentions and not make the right services available, as I mentioned earlier with the formatting of pages. Some people need a certain page layout, others need audio and braille. Modern technology's purpose is to make the system as flexible as possible. The RNIB's headquarters is making considerable use of new technology to expand the range of ways in which information can be made available. I am happy to consider any specific issues that arise. We must be clear about the Assembly's responsibilities.

Karen Sinclair: Can the First Secretary ensure that when the Assembly considers the dissemination of information for people with sensory impairment, consideration is given to producing videos in British sign language and materials in braille?

The First Secretary: As I indicated, we are taking advice from the Royal National Institute for the Blind and the Wales Council for the Blind to try to ensure that we provide

Kirsty Williams: A yw'r dogfennau pwysig yr oeddech yn cyfeirio atynt yn eich ateb i Dai Lloyd yn cynnwys deunydd sydd yn ymwneud â llywodraethu ysgolion a gallu pobl ddall neu rannol ddall i gyflawni eu swyddogaeth fel llywodraethwyr ysgol? A ydych hefyd yn ymwybodol o ateb i gwestiwn a ofynnais cyn hyn i'r Ysgrifennydd Addysg a Phlant? Dywedwyd yn yr ateb fod hyn yn y bôn yn fater i'r llywodraethwr, yr ysgol neu'r awdurdod lleol unigol. A gytunwch ein bod yn gwrthod eu rôl mewn cymdeithas i bobl ddall neu rannol ddall drwy wrthod caniatáu iddynt weld gwybodaeth o'r fath?

Y Prif Ysgrifennydd: Dylech fod yn ofalus wrth ddefnyddio geiriau fel gwrthod. Os cynhyrchir dogfen gan y Cynulliad i'w dosbarthu'n eang, ein cyfrifoldeb ni fyddai sicrhau ei bod ar gael yn hawdd i bobl ddall neu rannol ddall oni bai mai cyfrifoldeb yr awdurdod lleol neu'r corff llywodraethol yw hynny. Fel y nodais, yr ydym yn ystyried ffordd o ymestyn a datblygu argaeledd gwasanaethau. Gellir meddu ar fwriadau da ac eto methu â sicrhau bod y gwasanaethau priodol ar gael, fel y nodais gynau wrth sôn am fformadu tudalennau. Mae ar rai pobl angen gosodiad tudalen penodol, ac mae ar eraill angen ffurf glywedol a braille. Diben y dechnoleg fodern yw gwneud y system mor hyblyg ag y bo modd. Mae pencadlys Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Deillion yn defnyddio'r dechnoleg newydd yn helaeth er mwyn ehangu'r dulliau o ddarparu gwybodaeth. Byddaf yn falch o ystyried unrhyw faterion penodol sydd yn codi. Rhaid inni ddeall yn iawn beth yw cyfrifoldebau'r Cynulliad.

Karen Sinclair: A oes modd i'r Prif Ysgrifennydd sicrhau y bydd y Cynulliad, wrth ystyried lledaenu gwybodaeth i rai â nam ar eu synhwyrâu, yn rhoi ystyriaeth i gynhyrchu tapiau fideo yn iaith arwyddion Prydain a deunyddiau mewn braille?

Y Prif Ysgrifennydd: Fel y nodais, yr ydym yn derbyn cyngor oddi wrth Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Deillion a Chyngor Cymru i'r Deillion er mwyn ceisio sicrhau

information and documents in the best way possible for people with different types of visual handicap. I will be happy to consider that point in consultation with those two bodies.

ein bod yn darparu gwybodaeth a dogfennau yn y dull gorau posibl i rai â gwahanol fathau o anfantais golwg. Byddaf yn falch o ystyried y pwynt hwnnw wrth ymgynghori â'r ddau gorff hynny.

Cefn Gwlad Cymru (Dieithrwch Cymdeithasol) Rural Wales (Social Exclusion)

Q4 Nick Bourne: What action does the First Secretary propose in relation to protecting the incomes and way of life of people in rural Wales to prevent social exclusion? (OAQ1854VB)

C4 Nick Bourne: Pa gamau y mae'r Prif Ysgrifennydd yn cynnig eu cymryd i ddiogelu incwm a ffordd o fyw pobl cefn gwlad Cymru i rwystro dieithrwch cymdeithasol? (OAQ1854VB)

The First Secretary: Tackling social exclusion, reducing poverty and renewing the economy are the key to our approach to every part of Wales. The rural development plan for Wales, which is being prepared for consideration by the European Commission, will provide an integrated framework for promoting sustainable economic prosperity. The statement on rural Wales prepared by the Rural Partnership for Wales provides a foundation on which the Assembly can develop distinctive policies and programmes for rural areas to reduce inequality and to widen opportunities.

Y Prif Ysgrifennydd: Ymdrin â dieithrwch cymdeithasol, lleihau tlodi ac adnewyddu'r economi yw'r allwedd i'n dull gweithredu ym mhob rhan o Gymru. Bydd y cynllun datblygu gwledig i Gymru, sydd yn cael ei baratoi i'w ystyried gan y Comisiwn Ewropeaidd, yn darparu fframwaith integredig i hybu ffyniant economaidd cynaliadwy. Mae'r datganiad ar gefn gwlad Cymru a baratowyd gan y Bartneriaeth Wledig dros Gymru yn sylfaen lle y gall y Cynulliad ddatblygu polisiau a rhaglenni arbennig ar gyfer ardaloedd gwledig er mwyn lleihau anghydraddoldeb ac ehangu cyfleoedd.

Nick Bourne: Would the First Secretary not agree—based on figures given to me last week in answer to a written question to Christine Gwyther—that the average farm income has more than halved since Labour came to power and that much more should be done to re-establish decent farming income by such measures as lifting the beef on the bone ban immediately? Would he not also agree that his being present to speak at the Countryside Alliance rally tomorrow, when the other three party leaders are to speak, might provide some reassurance? If he feels unable to face their wrath, will he agree to meet a delegation when they arrive at the Assembly tomorrow?

Nick Bourne: A yw'r Prif Ysgrifennydd yn cytuno—ar sail ffigurau a roddwyd i mi yr wythnos diwethaf mewn ateb i gwestiwn ysgrifenedig i Christine Gwyther—fod yr incwm fferm gyffredin yn llai na hanner yr hyn ydoedd pan ddaeth Llafur i rym ac y dylid gwneud llawer mwy i adfer incwm ffermio gweddus drwy fesurau fel codi'r gwaharddiad ar gig eidion ar yr asgwrn ar unwaith? A yw hefyd yn cytuno y gallai roi rhywfaint o dawelwch meddwl drwy fod yn bresennol i siarad yn rali'r Gynghrair Cefn Gwlad yfory, lle y mae'r tri arweinydd plaid arall i siarad? Os nad yw'n teimlo y gall wynebu eu dicter, a yw'n fodlon cytuno i gyfarfod â dirprwyaeth pan ddeuant i'r Cynulliad yfory?

The First Secretary: I have already agreed to meet representatives of the Countryside Alliance when they come to the Assembly tomorrow. I am disgusted that despite being told that was the case, the BBC chose to put in its news bulletin something entirely

Y Prif Ysgrifennydd: Cytunais eisoes i gyfarfod â chynrychiolwyr o'r Gynghrair Cefn Gwlad pan ddeuant i'r Cynulliad yfory. Yr wyf yn ffieiddio at y ffaith fod y BBC, er iddo gael ei hysbysu mai hynny oedd i ddigwydd, wedi dewis rhoi rhywbeth cwbl

contrary to the truth. However, I have not accepted an invitation to address the rally.

groes i'r gwir yn ei fwletin newyddion. Fodd bynnag, ni dderbyniais wahoddiad i annerch y rali.

On your third point, lifting the beef on the bone ban and many other things are steps to which we aspire in order to remove obstacles to the promotion and sale of Welsh foods. However, we will not do that—and there is cross-party agreement that it would be irresponsible to do that—until the evidence allows us to do so, and until we know that we are not putting the public's health at risk.

Ynglŷn â'ch trydydd pwynt, mae codi'r gwaharddiad ar gig eidion ar yr asgwrn a llawer o bethau eraill yn gamau y gobeithiwn eu cymryd er mwyn symud rhwystrau i hybu a gwerthu bwydydd o Gymru. Fodd bynnag, ni wnawn hynny—a cheir cytundeb trawsbleidiol mai anghyfrifol fyddai gwneud hynny—nes y bydd y dystiolaeth yn caniatáu inni wneud hynny a nes y gwyddom na fyddwn yn peryglu iechyd y cyhoedd.

Janet Davies: Does the First Secretary agree that one of the major groups in rural Wales that is being socially excluded due to low incomes and the lack of opportunities is young people? Often young talent is lost forever if people migrate to further their education or to find work in more prosperous, urban areas. What plans does he have to increase the opportunities for young rural school leavers in order to increase their participation in the local economy and community? Does he also agree that incentives should be devised to encourage graduates to return to their rural areas after completing their education as a further means of developing a sustainable rural economy?

Janet Davies: A yw'r Prif Ysgrifennydd yn cytuno mai un o'r prif grwpiau sydd yn cael ei allgáu'n gymdeithasol yng nghefn gwlad Cymru oherwydd incwm isel a diffyg cyfleoedd yw pobl ifainc? Fe gollir doniau ifainc am byth yn aml os bydd pobl yn mudo i ddilyn addysg neu i ganfod gwaith mewn ardaloedd trefol, mwy ffyniannus. Pa gamau y mae'n bwriadu eu cymryd i gynyddu'r cyfleoedd i bobl ifainc ar ôl gadael ysgolion gwledig er mwyn cynyddu eu cyfranogiad yn yr economi a'r gymuned leol? A yw hefyd yn cytuno y dylid dyfeisio mentrau i annog graddedigion i ddychwelyd i'w hardaloedd gwledig ar ôl cwblhau eu haddysg fel modd ychwanegol i ddatblygu economi gwledig cynaliadwy?

The First Secretary: That is quite an agenda and I strongly agree with many of Janet Davies's points. As she knows, I was drawn into national politics in the first place by anger over the way that young people were excluded by not being given opportunities. That was in an urban area but it is equally damaging to a young person to have no opportunity in a rural area. That is an important part of our agenda and a challenge to the whole Assembly. We have made considerable progress, for instance with the New Deal, in providing opportunities for young people and starting to stem that flow of disillusionment. The vision in 'Pathway to Prosperity', our new economic agenda for Wales, is to spread prosperity throughout Wales, particularly in west Wales and the Valleys, areas that have not fared well in the past.

Y Prif Ysgrifennydd: Mae hynny'n gryn agenda a chytunaf yn gryf â llawer o bwyntiau Janet Davies. Fel y gŵyr, fe'm denwyd i wleidyddiaeth genedlaethol yn gyntaf oherwydd dicter ynghylch y modd yr oedd pobl ifainc wedi eu dieithrio drwy beidio â chael cyfleoedd. Yr oedd hynny mewn ardal drefol ond mae'r un mor niweidiol i rywun ifanc beidio â chael cyfle mewn ardal wledig. Mae hynny'n rhan bwysig o'n hagenda ac yn her i'r Cynulliad cyfan. Gwnaethom gryn gynnydd, gyda'r Fargen Newydd er enghraifft, wrth ddarparu cyfleoedd i bobl ifainc a dechrau atal y dadrithiad hwnnw. Y weledigaeth yn 'Ffordd i Ffyniant', ein hagenda economaidd newydd i Gymru, yw lledaenu ffyniant i bob cwr o Gymru, yn enwedig i orllewin Cymru a'r Cymoedd, ardaloedd na fuont yn llewyrchus yn y gorffennol.

2:19 p.m.

That vision will continue in the national economic development strategy. An example of that is the recently financed development of Calsonic in Llanelli whereby research and development was extended further to the west. Some of the smaller developments in smaller towns and more rural areas are positive and we need to build on them as well as to encourage home-grown small companies and ventures that complement agriculture in rural areas.

Mick Bates: Does the First Secretary recognise the significant contribution of voluntary enterprises such as community transport schemes in reducing social exclusion and isolation in rural areas? In the light of the Assembly's recent decision to review voluntary sector funding, which Nick Bourne's Conservative colleagues for some reason felt compelled to oppose, what steps are taken to ensure the continuity of funding for this important enterprise?

The First Secretary: I recognise the value of schemes like community transport both for the service they provide and for people's involvement in them. Many voluntary organisations have that dual role. Credit unions, for instance, not only help people out of poverty and aid the development of a sense of community but also help people who take a leading role in them to develop new skills and take up responsibility and training. That is true in rural and urban areas. Developing talent through the type of enterprise that you mention is important. It will be seen during the coming year that funding for and partnership with the voluntary sector is increasingly built into the Assembly's approach to various policies. That will bear fruit in time.

Lorraine Barrett: Do you find it hypocritical of the Tories to support the Countryside Alliance march tomorrow when it was the Tories who destroyed much of the rural communities through the deregulation of buses and the closure of small shops because of the pressure of out-of-town retail

Parheir â'r weledigaeth honno yn y strategaeth ddatblygu economaidd genedlaethol. Un enghraifft o hynny yw'r datblygiad a ariannwyd yn ddiweddar yn Calsonic yn Llanelli oedd yn fodd i ymestyn ymchwil a datblygu ymhellach i'r gorllewin. Mae rhai o'r datblygiadau llai mewn trefi llai ac ardaloedd mwy gwledig yn gadarnhaol a dylem adeiladu ar sail y rhain yn ogystal â hybu cwmnïau a mentrau bychain cynhenid sydd yn cyfnerthu amaethyddiaeth mewn ardaloedd gwledig.

Mick Bates: A yw'r Prif Ysgrifennydd yn cydnabod cyfraniad sylweddol mentrau gwirfoddol fel cynlluniau trafndiaeth gymunedol wrth leihau dieithrwch cymdeithasol ac unigedd mewn ardaloedd gwledig? Yng ngoleuni penderfyniad diweddar y Cynulliad i adolygu'r nawdd i'r sector gwirfoddol, yr oedd cyd-aelodau Ceidwadol Nick Bourne yn teimlo rheidrwdd i'w wrthwynebu am ryw reswm, pa gamau a gymerir i sicrhau parhad yn y nawdd i'r fenter bwysig hon?

Y Prif Ysgrifennydd: Yr wyf yn cydnabod gwerth cynlluniau fel trafndiaeth gymunedol o ran y gwasanaeth y maent yn ei ddarparu ac ymrwymiad pobl iddynt. Ceir y rôl ddeuol honno mewn llawer o fudiadau gwirfoddol. Bydd undebau credyd, er enghraifft, yn helpu pobl i oresgyn tlodi ac yn cynorthwyo i ddatblygu ymdeimlad o gymuned a byddant hefyd yn helpu'r bobl sydd yn eu harwain i ddatblygu medrau newydd ac ymgymryd â chyfrifoldeb a hyfforddiant. Mae hynny'n wir mewn ardaloedd gwledig a threfol. Mae datblygu doniau drwy'r math o fenter yr ydych yn ei grybwyll yn bwysig. Fe welir yn ystod y flwyddyn sydd i ddod fod nawdd i'r sector gwirfoddol a phartneriaeth ag ef yn elfen gynyddol yn ymagwedd y Cynulliad at wahanol bolisiau. Bydd hynny'n dwyn ffrwyth ymhen amser.

Lorraine Barrett: A ydych yn ei gweld yn rhagrithiol ar ran y Torïaid eu bod yn cefnogi gorymdaith y Gynghrair Cefn Gwlad yfory a hwythau wedi dinistrio llawer o gymunedau cefn gwlad drwy ddadreoleiddio bysiau a chau siopau bychain oherwydd y pwysau oddi wrth siopau mawr ar gyrion trefi? Yr

stores? They were also responsible for the BSE scandal.

The First Secretary: A lot of what the Conservatives do is hypocritical. The way they portray themselves as the friends of people living in rural communities is extremely strange.

oeddent yn gyfrifol am y sgandal BSE hefyd.

Y Prif Ysgrifennydd: Mae llawer o'r hyn a wna'r Ceidwadwyr yn rhagrithiol. Mae'r modd y maent yn eu portreadu eu hunain yn ffrindiau i bobl sydd yn byw mewn cymunedau gwledig yn rhyfedd iawn.

Hygyrchedd Adeilad y Cynulliad Accessibility of Assembly Building

Q5 Janet Ryder: What representations has the First Secretary made to Cardiff City and County Council concerning the accessibility of the Assembly building by a) rail and b) other forms of public transport? (OAQ1860VB)

C5 Janet Ryder: Pa drafod a fu rhwng y Prif Ysgrifennydd a Chyngor Dinas a Sir Caerdydd ynghylch cysylltiadau a) y rheilffyrdd a b) mathau eraill o gludiant cyhoeddus, ag adeilad y Cynulliad? (OAQ1860VB)

The First Secretary: Cardiff County Council shares my long-standing aspiration for a high level of public transport between Cardiff Bay and the city centre. The creation of Bute Avenue will help that process although it is disappointing that the rail link has not yet been redeveloped. At present, there is a bus stop nearby which is served regularly by local buses, and there are train services to Queen Street from Cardiff Bay. As Secretary of State for Wales, I set up a transport study group jointly with Cardiff City Council, also involving the Cardiff Bay Development Corporation, other local authorities and transport operators to consider public transport solutions for the Cardiff Bay area generally.

Y Prif Ysgrifennydd: Mae Cyngor Sir Caerdydd yn rhannu'r dyhead sydd gennyf ers tro am lefel uchel o gludiant cyhoeddus rhwng Bae Caerdydd a chanol y ddinas. Bydd adeiladu Rhodfa Bute o gymorth i'r broses honno er ei bod yn siomedig nad ailddatblygwyd y cyswllt rheilffordd eto. Ar hyn o bryd, ceir arhosfan bysiau gerllaw lle y bydd bysiau lleol yn stopio'n rheolaidd, ac mae gwasanaethau trên i Stryd y Frenhines o Fae Caerdydd. Pan oeddwn yn Ysgrifennydd Gwladol Cymru, sefydlais grŵp astudio trafniadaeth ar y cyd â Chyngor Dinas Caerdydd, gan gynnwys hefyd Gorfforaeth Datblygu Bae Caerdydd, awdurdodau lleol eraill a gweithredwyr cludiant er mwyn ystyried atebion i anghenion cludiant cyhoeddus yn ardal Bae Caerdydd yn gyffredinol.

Janet Ryder: At the moment, there is no real integrated public transport system to the Bay and most Assembly Members, Assembly staff and visitors have no option but to come here by car. Should the National Assembly for Wales not be leading the way in developing green transport plans? What we need is a direct light rail or tram link or, failing that, dedicated guided bus links. If the existing rail link from Queen Street is to disappear, it should be replaced with a better modern system before removal starts. An integrated transport system for the Bay must be developed as an example of good practice. Continuing road development is unsustainable. The National Assembly for

Janet Ryder: Ar hyn o bryd, nid oes gwir system cludiant cyhoeddus integredig ar gyfer y Bae ac nid oes dewis gan y rhan fwyaf o Aelodau'r Cynulliad, staff y Cynulliad ac ymwelwyr heblaw teithio yma mewn car. Oni ddylai Cynulliad Cenedlaethol Cymru arwain y ffordd wrth ddatblygu cynlluniau trafniadaeth gwyrdd? Mae arnom angen cyswllt rheilffordd gul neu gyswllt tram neu, os nad yw hynny'n bosibl, cysylltiadau bws tywysedig. Os yw'r cyswllt rheilffordd presennol o Stryd y Frenhines i ddiflannu, dylid rhoi system fodern well yn ei le cyn dechrau ei symud. Rhaid datblygu system cludiant integredig ar gyfer y Bae fel enghraifft o ymarfer da. Nid yw parhau i

Wales should show the way. If we cannot get transport right, we will fail before we even start to promote sustainable development. Therefore, as a major part of this integrated transport system—

ddatblygu ffyrdd yn gynaliadwy. Dylai Cynulliad Cenedlaethol Cymru arwain y ffordd. Os na allwn roi trefn ar drafnidiaeth, byddwn wedi methu cyn hyd yn oed dechrau hybu datblygu cynaliadwy. Felly, fel rhan bwysig o'r system cludiant integredig hon—

Presiding Officer: Order. May we have the question?

Y Llywydd: Trefn. A gawn ni'r cwestiwn?

Janet Ryder: Could the First Secretary confirm that there has been no compromise on a modern integrated transport link from Cardiff Central station to Cardiff Bay due to the Bute Avenue private finance initiative contract?

Janet Ryder: A oes modd i'r Prif Ysgrifennydd gadarnhau na fu cyfaddawdu ynghylch cyswllt trafnidiaeth integredig modern o orsaf Canol Caerdydd i Fae Caerdydd oherwydd y contract menter cyllid preifat ar gyfer Rhodfa Bute?

The First Secretary: The question is odd. I do not understand the way that it is phrased. As I said, it is disappointing that the old rail link has not been replaced by the modern link that was the aspiration from the beginning of the Cardiff Bay development. However, the Bute Avenue development will make a significant contribution.

Y Prif Ysgrifennydd: Mae'r cwestiwn yn un rhyfedd. Nid wyf yn deall y modd y'i geiriwyd. Fel y dywedais, mae'n siomedig na roddwyd cyswllt modern yn lle'r hen gyswllt rheilffordd, sydd yn uchelgais ers dechrau datblygu Bae Caerdydd. Fodd bynnag, bydd datblygu Rhodfa Bute yn gyfraniad o bwys.

We do not have an integrated transport system here although Cardiff County Council is developing proposals for a new, quality bus stop close to the Assembly. The proposals include two shelters with kerbs at a height to allow level access. They potentially include closed circuit television surveillance and real time passenger information. We have asked to be kept in touch with developments.

Nid oes gennym system cludiant integredig yn y fan hon ond mae Cyngor Sir Caerdydd yn datblygu cynigion ar gyfer arhosfan bysiau newydd o ansawdd da yn agos i'r Cynulliad. Mae'r cynigion yn cynnwys dwy gysgodfan gydag ymyl y palmant ar uchder sydd yn caniatáu mynediad ar yr un gwastad. Mae'n bosibl y byddant yn cynnwys goruchwyliaeth drwy deledu cylch cyfyng a gwybodaeth gydamserol i deithwyr. Gofynasom am gael gwybod am y datblygiadau.

I remind Members that this is the National Assembly for Wales. Our responsibility is to promote integrated transport across Wales, not just to consider what affects us and what is on our doorstep. It is the responsibility of the local authority and transport providers to consider the way that transport is integrated. As I indicated, I set up a group with the local authority and operators to look at the best way of providing transport for this area.

Atgoffaf yr Aelodau mai Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw hwn. Ein cyfrifoldeb yw hybu trafnidiaeth integredig ym mhob cwr o Gymru, ac nid ystyried yr hyn sydd yn effeithio arnom ni yn unig a'r hyn sydd ar garreg ein drws. Cyfrifoldeb yr awdurdod lleol a'r darparwyr cludiant yw ystyried y modd i integreiddio trafnidiaeth. Fel y nodais, sefydlais grŵp ar y cyd â'r awdurdod lleol a'r gweithredwyr i edrych ar y dull gorau i ddarparu cludiant ar gyfer yr ardal hon.

Gwerthiant Cig Eidion Ffrengig yng Nghymru Sale of French Beef in Wales

Q6 Glyn Davies: Has the Government of

C6 Glyn Davies: A yw Llywodraeth Cymru

Wales had any advice from the Chief Medical Officer for Wales and her officials on whether beef produced in France should remain on sale in Wales? (OAQ1876AG)

The First Secretary: Officials have advised me that the Joint Food Safety and Standards Group, which is the precursor to the Food Standards Agency, used its in-house expertise and also consulted external experts, including the chairmen of the three independent advisory committees, in order to assess carefully the potential risks of French practices regarding animal foodstuffs. They advised that there was no immediate public health risk and therefore no basis for a ban on French products at a community level or unilaterally. The Chief Medical Officer for Wales considered the advice and is satisfied that the consumption of French beef poses no immediate risk to public health. Monitoring will continue and any future developments of public health concern will be brought to our attention.

Glyn Davies: Does the First Secretary agree that, in the interests of consistency, the same precautionary principle should have been applied in this issue as in the case of the advice on the beef on the bone ban? Professor Roy Anderson's letter to the Chairman of the Agriculture and Rural Development Committee today makes it clear that there is no reason why the ban on beef on the bone should not be lifted immediately. Does the First Secretary agree that the ban should be lifted immediately and will he condemn the Liberal Democrats for the debate linking the voluntary sector with the—

The Presiding Officer: Order. The Liberal Democrats do not arise out of this question.

The First Secretary: I shall criticise the Liberal Democrats when they are wrong but not for that particular link, which was a sensible one. I am sure that will be a relief to them. In the interests of consistency, it would be odd if we were to take action in relation to another country's produce, while criticising other countries for taking action in relation to our produce. I have not seen the letter to

wedi derbyn unrhyw gyngor gan Brif Swyddog Meddygol Cymru a'i swyddogion ynghylch a ddylid parhau i werthu cig eidion o Ffrainc yng Nghymru? (OAQ1876AG)

Y Prif Ysgrifennydd: Y cyngor a gefais gan y swyddogion yw bod y Cyd-grŵp Safonau a Diogelwch Bwyd, sef rhagflaenydd yr Asiantaeth Safonau Bwyd, wedi defnyddio ei arbenigedd yn fewnol ac wedi ymgynghori ag arbenigwyr allanol, a chadeiryddion y tri phwyllgor ymgynghorol annibynnol yn eu plith, er mwyn gwneud asesiad gofalus o beryglon posibl yr ymarferiadau yn Ffrainc mewn cysylltiad â deunydd bwyd anifeiliaid. Eu cyngor hwy oedd nad oedd perygl uniongyrchol i iechyd cyhoeddus ac nad oedd sail felly ar gyfer gwaharddiad ar gynnyrch o Ffrainc ar lefel y gymuned nac yn unochrog. Mae Prif Swyddog Meddygol Cymru wedi ystyried y cyngor ac yn derbyn nad yw bwyta cig eidion o Ffrainc yn golygu perygl uniongyrchol i iechyd cyhoeddus. Parheir i fonitro a thynnir ein sylw at unrhyw ddatblygiadau sydd yn berthnasol i iechyd cyhoeddus.

Glyn Davies: A yw'r Prif Ysgrifennydd yn cytuno, er mwyn cysondeb, y dylesid bod wedi cymhwyso'r un rhagofal yn y mater hwn ag yn achos y cyngor ar y gwaharddiad ar gig eidion ar yr asgwrn? Mae llythyr yr Athro Roy Anderson at Gadeirydd y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig heddiw yn rhoi ar ddeall nad oes rheswm pam na ellid codi'r gwaharddiad ar gig eidion ar yr asgwrn ar unwaith. A yw'r Prif Ysgrifennydd yn cytuno y dylid codi'r gwaharddiad ar unwaith ac a yw'n barod i gondemnio'r Democratiaid Rhyddfrydol oherwydd y ddadl sydd yn cysylltu'r sector gwirfoddol a'r—

Y Llywydd: Trefn. Nid yw'r Democratiaid Rhyddfrydol yn codi o'r cwestiwn hwn.

Y Prif Ysgrifennydd: Beirniadaf y Democratiaid Rhyddfrydol pan fyddant yn anghywir ond nid oherwydd y cysylltiad arbennig hwnnw, sydd yn un synhwyrol. Yr wyf yn sicr y bydd hynny'n rhyddhad iddynt. Er mwyn cysondeb, fe fyddai'n rhyfedd pe baem yn gweithredu mewn perthynas â chynnyrch gwlad arall, ac yn beirniadu gwledydd eraill am weithredu mewn

which Glyn referred, but I suspect that there has been an oversimplification of evidence regarding beef on the bone. I have corresponded with Professor Roy Anderson and I am puzzled about the comments made. We must not consider raw evidence, if I can phrase it that way, but the assessment of our Chief Medical Officer and her colleagues in the other three nations regarding public safety. That is the overriding requirement. We should not play games with this, Glyn.

perthynas â'n cynnyrch ni yr un pryd. Ni welais y llythyr y cyfeiriodd Glyn ato, ond amheuaf fod yma orsymleiddio ar y dystiolaeth mewn perthynas â chig eidion ar yr asgwrn. Yr wyf wedi gohebu â'r Athro Roy Anderson ac yr wyf mewn penbleth ynghylch y sylwadau a wnaethpwyd. Ni ddylem ystyried tystiolaeth amrwd, os caf ei roi felly, ond asesiad ein Prif Swyddog Meddygol a'i chydweithwyr yn y tair gwlad arall mewn perthynas â diogelwch y cyhoedd. Dyna'r angen pwysicaf. Ni ddylem chwarae gêm â hyn, Glyn.

Ieuan Wyn Jones: Bydd y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig yn ystyried y dystiolaeth ddiweddaraf ar gig eidion ar yr asgwrn cyn diwedd y mis. Gan gofio cwestiwn Glyn, a yw'r Prif Ysgrifennydd yn cytuno mai'r ffordd ymlaen yw nid gwahardd cig eidion o Ffrainc ond yn hytrach frwydro'n galetach i godi'r gwaharddiad ar allforio cig eidion o wledydd Prydain? A yw Alun yn cytuno y dylai'r Cynulliad sicrhau bod yna farchnata gwell ar gig o Gymru, ein bod yn brandio'r cig fel cig Cymreig a'n bod yn sicrhau bod Ffrainc a gweddill Ewrop yn derbyn ein hallforion, sydd o safon ac ansawdd uchel?

Ieuan Wyn Jones: The Agriculture and Rural Development Committee will consider the most recent evidence on beef on the bone before the end of the month. Regarding Glyn's question, does the First Secretary agree that the way forward is not to ban beef from France but to fight harder to lift the ban on exporting beef from the countries of Britain? Does Alun agree that the Assembly should ensure that there is better marketing of Welsh meat, that we brand it as Welsh meat and that we ensure that France and other European countries receive our exports, which are of a high quality and standard?

2:29 p.m.

Y Prif Ysgrifennydd: Cytunaf â'r sylwadau hynny. Yr ydym eisoes wedi cefnogi syniadau newydd ar gyfer marchnata cig Cymru. Mae'r cig yn ddiogel ac yn dda, ond mae'n rhaid ei farchnata er mwyn sicrhau bod pobl yn ei brynu a bod yr arian yn dod yn ôl i'r cymunedau ffermio yng Nghymru sydd yn cynhyrchu'r cig. Yr wyf yn falch fod y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig am edrych ar dystiolaeth newydd cyn diwedd y mis. Mae'r pwyllgor hwn wedi gwneud gwaith da yn astudio'r dystiolaeth ac yn sicrhau ein bod yn deall yr hyn yr ydym yn ei wneud.

The First Secretary: I agree with those comments. We have already supported new ideas for marketing Welsh meat. The meat is both safe and good, but it must be marketed to ensure that people buy it and that the money comes back to the farming communities in Wales which produce the meat. I am pleased that the Agriculture and Rural Development Committee will look at new evidence before the end of the month. That committee has done a good job studying the evidence and ensuring that we understand what we are doing.

Pwynt o Drefn Point of Order

Nick Bourne: Point of order. About half an hour before coming into the Chamber today, I received a Westminster-style letter from the First Secretary about the distribution of the draft preliminary budget. This has already

Nick Bourne: Pwynt o drefn. Tua hanner awr cyn dod i'r Siambr heddiw, derbyniais lythyr yn arddull San Steffan oddi wrth y Prif Ysgrifennydd ynghylch dosbarthu'r gyllideb ragarweiniol ddrafft. Rhoddwyd

had a measured response which he will receive later.

There is a serious issue at stake here. Standing Order No. 19 states that the draft preliminary budget should be tabled before Assembly Members before it is released to the press. As I am sure other Assembly Members will bear out, the first I heard of the publication of details to the press was on the Thursday when the press contacted me. We had been led to believe that the draft preliminary budget would be published by Edwina Hart on the Friday. I am sure that Edwina will bear this out. Indeed, I heard her on the radio saying that that was the intention.

It was only when she was caught with her hand in the cookie jar, when it was obvious that Assembly Members were concerned that the draft was released to the press first, that she brought it forward to after the scheduled start of the press conference. Members of the Conservative group were excluded from the press conference. We did not intend to disrupt the press conference, we just wanted to hear the budget's contents. The inevitable conclusion of it being adjourned to the First Secretary's office, was that that was an attempt to put a spin on it. That was confirmed on the subsequent day.

The e-mail copy of the draft budget was in Welsh only. It should be issued in both languages simultaneously. The Administration has fallen short of the high standards that are set in this administration and in this Assembly. This sets a dangerous precedent. We require this budget to be seen by Assembly Members first. I say this not only on behalf of the Conservative group and the opposition groups, but on behalf of all Assembly Members. I make no apology for trying to be the guardian of Standing Orders and the rights of all Assembly Members.

Michael German: Further to that point of order, the issue can be split into information being made available, and the knowledge and timing of the information being made available. I have no doubt at all that the

ymateb ystyriol i hwnnw eisoes a bydd yn ei dderbyn yn ddiweddarach.

Mae mater difrifol yn y fantol. Mae Rheol Sefydlog Rhif 19 yn datgan y dylai'r gyllideb ragarweiniol ddrafft gael ei chyflwyno i Aelodau'r Cynulliad cyn ei rhyddhau i'r wasg. Fel y bydd Aelodau Cynulliad eraill yn cadarnhau, yr wyf yn siŵr, y tro cyntaf y clywais am gyhoeddi'r manylion i'r wasg oedd ar y dydd Iau pan gysylltodd y wasg â mi. Yr oeddem wedi ein harwain i gredu y câi'r gyllideb ragarweiniol ddrafft ei chyhoeddi gan Edwina Hart ar y dydd Gwener. Yr wyf yn siŵr y bydd Edwina yn cadarnhau hynny. Yn wir, fe'i clywais ar y radio yn dweud mai hynny oedd y bwriad.

Dim ond pan gafodd ei dal wrthi, pan oedd yn amlwg bod Aelodau'r Cynulliad yn bryderus am fod y drafft wedi ei ryddhau i'r wasg yn gyntaf, y daeth â hi ymlaen at amser ar ôl yr adeg y trefnwyd i ddechrau'r gynhadledd i'r wasg. Ni chaniatawyd i aelodau o'r grŵp Ceidwadol fynychu cynhadledd y wasg. Nid oedd yn fwiad gennym dorri ar draws y gynhadledd i'r wasg ond yr oeddem am glywed cynnwys y gyllideb. Y casgliad anorfod ynghylch y ffaith iddi gael ei symud i swyddfa'r Prif Ysgrifennydd, yw bod hynny'n ymgais i roi gwedd arall arni. Fe gadarnhawyd hynny drannoeth.

Yr oedd copi e-bost y gyllideb ddrafft yn Gymraeg yn unig. Dylid ei chyhoeddi yn y ddwy iaith ar yr un pryd. Nid yw'r Weinyddiaeth wedi cyrraedd y safonau uchel a osodwyd yn y weinyddiaeth hon ac yn y Cynulliad hwn. Mae hyn yn gosod cysail beryglus. Yr ydym yn mynnu y caiff y gyllideb hon ei gweld gan Aelodau'r Cynulliad yn gyntaf. Dywedaf hynny nid ar ran y grŵp Ceidwadol a grwpiau'r wrthblaid yn unig, ond ar ran holl Aelodau'r Cynulliad. Nid ymddiheuraf am geisio gwarchod y Rheolau Sefydlog a hawliau holl Aelodau'r Cynulliad.

Michael German: Yn ychwanegol at y pwynt hwnnw o drefn, fe ellir rhannu'r mater yn un o ddarparu'r wybodaeth, ac o wybod am y wybodaeth a pha bryd yr oedd i'w darparu. Nid wyf yn amau o gwbl fod y

information was made available, and was made available before the media had sight of it. I received the information in written form and on the intranet. The fact is that we did not know that it was going to arrive. We learnt of its arrival following media approaches. The press release stated that there should be no approaches before 0.01 a.m. on Friday morning. This meant that you were not supposed to be rung up to appear on a programme until the middle of the night, when you would get up willingly to answer the calls of the BBC, HTV and whoever else, to appear on their morning programmes. However, once the media is told that there will be an event, they will indicate that they wish you to respond to it, although they might not share the information with you.

It is not surprising, therefore, that Assembly Members discovered during the afternoon that there would be an announcement. We were led to believe by previous discussions that the announcement would be made on Friday, and therefore expected the papers to arrive on Friday. I would have no objection if it was made available early. In future, when the Executive makes a major statement to the media about a major document and wishes to release the document to Members the same time or before that statement, could it give sufficient notice so that Members on the road, out of the building or away from Assembly computers can get the information in order to respond?

News does not travel in the same way as it used to. People want instant responses to things and instant responses are often pre-recorded. I do not know what the Executive had in mind. I will not state that there are suspicions that they would not have released the document if we had not found out about it. That is not the issue. However, in future, when statements of this sort are made, other parties should be given notice of the announcement so that they can be on standby to receive the documents. I believe that this is Westminster practice. It is a matter of courtesy to ensure that Members see documents in advance of their release to the media.

wybodaeth wedi ei darparu, a'i bod wedi ei darparu cyn i'r cyfryngau gael golwg arni. Derbyniais y wybodaeth ar ffurf ysgrifenedig ac ar y fewnrwyd. Y ffaith yw na wyddem ei bod i gyrraedd. Cawsom wybod ei bod wedi cyrraedd ar ôl i'r cyfryngau gysylltu â ni. Yr oedd y datganiad i'r wasg yn dweud na ddylid cysylltu cyn 0.01 a.m. fore Gwener. Golygai hyn nad oeddech i dderbyn galwad ffôn i ymddangos ar raglen tan berfedd nos, pan fyddech yn barod i godi i ateb y galwadau o'r BBC, HTV, neu bwy bynnag arall, i ymddangos ar eu rhaglenni boreol. Fodd bynnag, ar ôl i'r cyfryngau gael gwybod bod rhywbeth i ddigwydd, fe ddywedant eu bod am ichi ymateb iddo, er na fyddant efallai'n rhannu'r wybodaeth â chi.

Nid yw'n syndod, felly, i Aelodau'r Cynulliad ddarganfod yn ystod y prynhawn fod cyhoeddiad i fod. Cawsom ein harwain i gredu yn y trafod a fu cynt y byddai'r cyhoeddiad ar ddydd Gwener, ac yr oeddem felly'n disgwyl i'r papurau gyrraedd ddydd Gwener. Ni fyddwn yn gwrthwynebu pe bai ar gael yn gynnar. O hyn ymlaen, pan fydd yr Adran Weithredol yn gwneud datganiad o bwys i'r cyfryngau am ddogfen o bwys ac yn dymuno rhyddhau'r ddogfen i'r Aelodau yr un pryd neu cyn y datganiad hwnnw, a oes modd iddi roi digon o rybudd fel bod yr Aelodau sydd ar y ffordd, y tu allan i'r adeilad neu'n bell oddi wrth gyfrifiaduron y Cynulliad yn gallu cael y wybodaeth er mwyn ymateb?

Nid yw newyddion yn teithio fel y byddai cynt. Mae pobl am glywed ymateb i bethau yn sydyn a bydd atebion sydyn yn cael eu recordio ymlaen llaw yn aml. Ni wn beth oedd ym meddwl yr Adran Weithredol. Ni ddywedaf fod amheuan na fyddent wedi rhyddhau'r ddogfen pe na baem wedi cael gwybod amdani. Nid hynny sydd dan sylw. Fodd bynnag, o hyn ymlaen, pan wneir datganiadau o'r math hwn, fe ddylai'r pleidiau eraill gael rhybudd o'r cyhoeddiad fel y gallant fod wrth law i dderbyn y dogfennau. Credaf mai hynny yw'r arferiad yn San Steffan. Mater o gwrteisi yw sicrhau bod yr Aelodau'n gweld dogfennau cyn eu rhyddhau i'r cyfryngau.

The Business Secretary (Andrew Davies): Y **Trefnydd (Andrew Davies):**

Copies of the press notice and tables of the draft budget were handed to opposition party spokespeople at 3.50 p.m. Mike German has already answered the question—

Glyn Davies: May I respond to that point later?

The Presiding Officer: You cannot respond unless it is further to this point of order. The Conservative party has already spoken and I have no indication that Plaid Cymru wish to speak on this point of order. I think we should listen to the Business Secretary.

Andrew Davies: Copies of the press notice and tables were handed in to the opposition party spokespeople's offices at 3.50 p.m. Mike German has answered Nick Bourne's points. This was part of an agreement that the Finance Secretary made with the relevant party spokespeople. If the Tory spokesperson does not speak to his own leader then that is a matter for them. *[Interruption.]* An English version of draft budget tables was placed on the Intranet at 3.55 p.m. *[Interruption.]*

The Presiding Officer: Order. I think we should first of all listen to the Business Secretary response.

Andrew Davies: Copies of the English and Welsh language draft budget tables were e-mailed to all Members at 4.03 p.m. and I can confirm that because I was there when they arrived on my e-mail. The Welsh language version of draft budget tables was placed on the Intranet at 4.10 p.m. The press briefing started between 4.15 p.m. and 4.20 p.m. The press notice was e-mailed to all Members at 6.40 p.m. to assist Members with public comment on the draft budget. We should be proud that this draft budget has been handled on the basis of transparency and openness. That is our fundamental aim. The budget would not be dealt with in this way in Westminster. We adopted practices to make this document available to all Members at the earliest possible opportunity. We could have dealt with the document on the Friday, the latest time for the tabling of documents, but we made it available to Members a day in advance so that they could engage with a complex, new and innovative process.

Trosglwyddwyd copïau o'r rhybudd i'r wasg ac o dablau'r gyllideb ddrafft i lefarwyr pleidiau'r wrthblaid am 3.50 p.m. Mae Mike German wedi ateb y cwestiwn eisoes—

Glyn Davies: A gaf ymateb i'r pwynt hwnnw'n ddiweddarach?

Y Llywydd: Ni chewch ymateb oni bai fod hynny ymhellach i'r pwynt o drefn hwn. Mae'r blaid Geidwadol wedi siarad eisoes ac ni chefais fy hysbysu bod Plaid Cymru'n dymuno siarad ar y pwynt o drefn hwn. Credaf y dylem wrando ar y Trefnydd.

Andrew Davies: Trosglwyddwyd copïau o'r rhybudd i'r wasg ac o'r tablau i swyddfeydd llefarwyr pleidiau'r wrthblaid am 3.50 p.m. Mae Mike German wedi ateb pwyntiau Nick Bourne. Yr oedd hyn yn rhan o gytundeb a wnaeth yr Ysgrifennydd Cyllid â'r llefarwyr plaid perthnasol. Os nad yw llefarydd y Toriaid yn siarad â'i arweinydd ei hun, mater iddynt hwy yw hynny. *[Torri ar draws.]* Gosodwyd fersiwn Saesneg o dablau'r gyllideb ddrafft ar y fewnwyd am 3.55 p.m. *[Torri ar draws.]*

Y Llywydd: Trefn. Credaf y dylem wrando ar ymateb y Trefnydd yn gyntaf.

Andrew Davies: Anfonwyd copïau o dablau'r gyllideb ddrafft yn Gymraeg a Saesneg drwy e-bost i'r holl Aelodau am 4.03 p.m. a gallaf gadarnhau hynny oherwydd yr oeddwn yno pan oeddent yn cyrraedd ar fy e-bost i. Gosodwyd y fersiwn Cymraeg o dablau'r gyllideb ddrafft ar y fewnwyd am 4.10 p.m. Dechreuodd cyfarfod briffio'r wasg rhwng 4.15 p.m. a 4.20 p.m. Anfonwyd y rhybudd i'r wasg drwy e-bost at yr holl Aelodau am 6.40 p.m. er mwyn cynorthwyo'r Aelodau wrth roi sylwadau cyhoeddus ar y gyllideb ddrafft. Dylem fod yn falch bod y gyllideb ddrafft hon wedi ei thrin yn dryloyw ac yn agored. Dyna'r nod sylfaenol sydd gennym. Ni fyddid yn ymdrin â'r gyllideb fel hyn yn San Steffan. Yr oeddem wedi mabwysiadu arferiadau er mwyn sicrhau bod y ddogfen hon ar gael i'r holl Aelodau ar y cyfle cyntaf posibl. Byddem wedi gallu ymdrin â'r ddogfen ddydd Gwener, sef yr adeg olaf i gyflwyno dogfennau, ond yr oeddem wedi ei

darparu i'r Aelodau ddiwrnod ymlaen llaw fel y gallent ymgymryd â phroses gymhleth, newydd ac arloesol.

Peter Black: Further to that point of order, will the Business Secretary accept that I was not notified in advance that this budget would be available at 3.50 p.m. and I was therefore not in the building to receive it? Had I been notified in advance, I would have been here and I would have received it.

Peter Black: Yn ychwanegol at y pwynt hwnnw o drefn, a yw'r Trefnydd yn fodlon derbyn na chefais fy hysbysu ymlaen llaw y byddai'r gyllideb hon ar gael am 3.50 p.m. ac nad oeddwn felly yn yr adeilad i'w derbyn? Pe bawn i wedi cael fy hysbysu ymlaen llaw, buaswn yma a buaswn wedi ei derbyn.

Andrew Davies: I accept that you may not have been notified, but we endeavoured to make the statement and document available to Members and appropriate spokespeople at the earliest possible opportunity.

Andrew Davies: Derbyniaf nad oeddech wedi'ch hysbysu o bosibl, ond yr oeddem wedi ceisio sicrhau bod y datganiad a'r ddogfen ar gael i'r Aelodau ac i'r llefarwyr perthnasol ar y cyfle cyntaf posibl.

Glyn Davies: Further to that point of order, I was in the building that afternoon. However, for the first part of the afternoon, like others, I did not have any idea of what the procedure was. The Finance Secretary contacted me to say that I would receive a copy before 4.00 p.m. By 4.00 p.m. I had not received it by e-mail nor by delivery and I and fellow Members therefore went down to the conference to hear the information.

Glyn Davies: Yn ychwanegol at y pwynt hwnnw o drefn, yr oeddwn yn yr adeilad y prynhawn hwnnw. Fodd bynnag, yn rhan gyntaf y prynhawn, fel eraill, nid oedd gennyf unrhyw syniad o beth oedd y weithdrefn. Cysylltodd yr Ysgrifennydd Cyllid â mi i ddweud y byddwn yn derbyn copi cyn 4.00 p.m. Erbyn 4.00 p.m. nid oeddwn wedi ei dderbyn drwy e-bost na drwy negesydd ac felly euthum i a'm cyd Aelodau i'r gynhadledd i glywed y wybodaeth.

2:39 p.m.

Andrew Davies: Our understanding is that officials delivered the document directly to the offices of the relevant spokespeople well before 4.00 p.m.

Andrew Davies: Yn ôl a ddeallwn ni, aeth y swyddogion â'r ddogfen yn uniongyrchol i swyddfeydd y llefarwyr perthnasol ymhell cyn 4.00 p.m.

The Presiding Officer: Further to that point of order, I call Jocelyn Davies. Please note that an important debate is to follow and I do not want to prolong this.

Y Llywydd: Yn ychwanegol at y pwynt hwnnw o drefn, galwaf ar Jocelyn Davies. Byddwch cystal â nodi fod dadl bwysig i ddilyn ac nid wyf am ymestyn hyn.

Jocelyn Davies: I shall be brief. How did the press know to turn up at 4.00 p.m.?

Jocelyn Davies: Byddaf yn fyr. Sut y gwyddai'r wasg y dylent gyrraedd am 4.00 p.m.?

David Melding: Will the Business Secretary confirm that the information was not available in English and Welsh as was required until 4.10 p.m. on the intranet, ten minutes after it was due to be released to the press?

David Melding: A fydd y Trefnydd gystal â chadarnhau nad oedd y wybodaeth ar gael yn Gymraeg a Saesneg yn ôl y gofyn tan 4.10 p.m. ar y fewnrwyd, ddeng munud ar ôl yr adeg pan oedd i'w rhyddhau i'r wasg?

Andrew Davies: I have made it clear that the English version of the draft budget tables was placed on the intranet at 3.55 p.m. I accept that the Welsh version was not. We had problems in transmission. There was a technical problem with the intranet which is why the information was later e-mailed to Members as a result of the intervention of my officials. As soon as we realised that there were technical problems we endeavoured to get the document to Members by e-mail as soon as possible. That is why the press briefing was delayed until Members had received the information.

The Presiding Officer: Members of the Executive, the Assembly and the media will have heard this discussion. I investigated the detail and, as far as I am aware, the information was tabled in a timely manner according to Standing Order No. 19 on finance procedures which tightly and clearly governs the operation of our budgetary processes. I also understand that the Executive, in producing this information at an early stage attempted to time it to coincide with the tabling of this preliminary draft budget. This is a new procedure and without comparison in Westminster or in local government.

We shall have an opportunity tomorrow and in December to consider the preliminary draft budget. We may have a further opportunity in the interim. Therefore, there will be plenty of opportunities to consider the budget issues. I understand that the Business Committee has begun discussions on a protocol on the advance notice or warning or provision of advanced copies of formal statements. This could help us. With regard to his final point, I point out to the leader of the Conservative Party, with whom I have a good personal relationship and respect, that there is a guardian of the Standing Orders in this Assembly and it is the Office of the Presiding Officer.

Elin Jones: Pwynt o drefn. Mae hwn yn bwynt ychwanegol o drefn ynglŷn â'r papurau ar gyfer y gyllideb, ond yn un gwahanol iawn. A wnaiff yr Ysgrifennydd Cyllid egluro ai'r papurau Cymraeg ynteu'r rhai Saesneg yw argymhellion y Cabinet?

Andrew Davies: Rhoddais ar ddeall fod y fersiwn Saesneg o dablau'r gyllideb ddrafft wedi ei osod ar y fewnwyd am 3.55 p.m. Derbyniaf nad oedd y fersiwn Cymraeg wedi ei osod bryd hynny. Cawsom broblemau wrth drosglwyddo. Cafwyd problem dechnegol gyda'r fewnwyd a dyna pam yr anfonwyd y wybodaeth i'r Aelodau'n ddiweddarach drwy e-bost o ganlyniad i ymyriad gan fy swyddogion. Gynted inni sylweddoli bod problemau technegol gwnaethom ymdrech i anfon y ddogfen at yr Aelodau drwy e-bost gynted ag yr oedd modd. Dyna pam y gohiriwyd cyfarfod briffio'r wasg nes yr oedd yr Aelodau wedi derbyn y wybodaeth.

Y Llywydd: Bydd aelodau o'r Adran Weithredol, y Cynulliad a'r cyfryngau wedi clywed y drafodaeth hon. Ymchwiliais i'r manylion a, hyd y gwn i, yr oedd y wybodaeth wedi ei chyflwyno'n amserol yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 19 ar y gweithdrefnau cyllid sydd yn rheoli gweithrediad ein prosesau cyllidebol yn glir ac yn gaeth. Deallaf hefyd fod yr Adran Weithredol, wrth gynhyrchu'r wybodaeth hon yn gynnwys wedi ceisio ei hamseru i gyd-ddigwydd â chyflwyno'r gyllideb ragarweiniol ddrafft hon. Gweithdrefn newydd yw hon ac un heb ei thebyg yn San Steffan neu mewn llywodraeth leol.

Cawn gyfle yfory ac yn Rhagfyr i ystyried y gyllideb ragarweiniol ddrafft. Efallai y cawn gyfle pellach yn y cyfamser. Felly, bydd digon o gyfleoedd i ystyried materion y gyllideb. Deallaf fod y Pwyllgor Busnes wedi dechrau trafod protocol ar gyfer hysbysu ymlaen llaw neu rybuddio neu ddarparu copïau o ddatganiadau ffurfiol. Gallai hynny fod o gymorth i ni. Gyda golwg ar ei bwynt olaf, tynnaf sylw arweinydd y Plaid Geidwadol, sydd yn un y mae gennyf berthynas bersonol dda ag ef a pharch tuag ato, at y ffaith fod yma un sydd yn gwarchod y Rheolau Sefydlog yn y Cynulliad hwn sef Swyddfa'r Llywydd.

Elin Jones: Point of order. This is an additional point of order on the papers for the budget, but a very different one. Will the Finance Secretary explain whether the Welsh or the English language papers are the Cabinet's recommendations? Plaid Cymru

Byddai Plaid Cymru yn falch pe bai'r papurau Cymraeg yn gywir gan fod o leiaf ddwywaith cymaint o arian ar gyfer 2001-2002 yn y cyllidebau yn y Gymraeg o'u cymharu â'r cyllidebau yn y Saesneg. [*Chwerthin.*]

would be pleased if the Welsh language papers are correct because there is at least double the money in the budgets for 2001-2002 in Welsh compared with those in English. [*Laughter.*]

The Presiding Officer: Would the Finance Secretary like to respond?

Y Llywydd: A yw'r Ysgrifennydd Cyllid yn dymuno ymateb?

The Finance Secretary (Edwina Hart): We will not put the higher figures to the Assembly.

Yr Ysgrifennydd Cyllid (Edwina Hart): Ni fyddwn yn cyflwyno'r ffigurau uwch i'r Cynulliad.

The Presiding Officer: I suspected not.

Y Llywydd: Yr oeddwn yn amau felly.

Datganiad Busnes Business Statement

Andrew Davies: Plenary business on Tuesday 16 November and Wednesday 17 November is as I reported last week. Plenary business on Tuesday 23 November will include a debate on the protocol governing the relations between the Secretary of State for Wales and the Assembly. On Wednesday 24 November we will debate sport in Wales. On Tuesday 30 November there will be debates on the Queen's Speech and the Government's forward legislative programme and Paul Murphy, the Secretary of State for Wales, will be in attendance. On Wednesday 1 December there will be a motion to adopt the Assembly's budget. Arrangements will be made after Plenary today to place a copy of the statement on the internet and intranet.

Andrew Davies: Bydd busnes y Cyfarfod Llawn ddydd Mawrth 16 Tachwedd a dydd Mercher 17 Tachwedd fel yr adroddais yr wythnos diwethaf. Bydd busnes y Cyfarfod Llawn ddydd Mawrth 23 Tachwedd yn cynnwys dadl ar y protocol sydd yn llywodraethu'r cysylltiadau rhwng Ysgrifennydd Gwladol Cymru a'r Cynulliad. Ddydd Mercher 24 Tachwedd cawn ddadl ar chwaraeon yng Nghymru. Ddydd Mawrth 30 Tachwedd bydd dadleuon ar Araith y Frenhines a rhaglen ddeddfu'r Llywodraeth at y dyfodol a bydd Paul Murphy, Ysgrifennydd Gwladol Cymru, yn bresennol. Ddydd Mercher 1 Rhagfyr bydd cynnig i dderbyn cyllideb y Cynulliad. Gwneir trefniadau ar ôl y Cyfarfod Llawn heddiw i osod copi o'r datganiad ar y rhyngwyd a'r fewnwyd.

In accordance with Standing Order No. 22.5, the Deputy Presiding Officer has determined that the Central Rating List (Wales) Regulations 1999 and the Water Undertakers (Rateable Values) (Wales) Order 1999 need not be referred to a Subject Committee for consideration. Copies of the draft Orders will be sent to the Legislation Committee for scrutiny later today and arrangements will be made to lay the Orders in the Table Office.

Yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 22.5, mae'r Dirprwy Lywydd wedi penderfynu nad oes angen cyfeirio Rheoliadau'r Rhestr Drethu Ganolog (Cymru) 1999 a Gorchymyn Ymgymrwyr Dŵr (Gwerthoedd Trethiannol) (Cymru) 1999 i'w hystyried gan Bwyllgor Pwnc. Anfonir copïau o'r Gorchymynion drafft i'r Pwyllgor Deddfau i'w harchwilio yn ddiweddarach heddiw a gwneir trefniadau i osod y Gorchymynion yn y Swyddfa Gyflwyno.

Business Statement adopted.

Derbyniwyd y Datganiad Busnes.

Y Ddeddf Iechyd 1999 The Health Act 1999

The Presiding Officer: I have selected amendments 1 and 2 in the name of David Melding, amendment 3 in the name of David Lloyd and amendment 4 in the name of Kirsty Williams.

The Secretary for Health and Social Services (Jane Hutt): I propose that the Assembly:

recognises the contribution made by the implementation of the Health Act 1999 in Wales in enabling the NHS and its partners to move positively into the new millennium;

welcomes the significant contribution the Act makes to promoting genuine partnership between health authorities, NHS Trusts, local health groups and their members, local authorities and the voluntary sector. This will be in ways which best serve the people of Wales; by placing, assessing and meeting the needs of patients, users and carers at the heart of their aims, irrespective of which services are needed; and

accepts the need for a strategic approach within the Assembly to lead and support all stakeholders in delivering this challenging agenda.

I am pleased that we have the opportunity to debate the Health Act 1999 today. I am also pleased that our last debate was on the health service. I promised, when I made my statement in July, that we would have a full debate in the Chamber. I hope that we can demonstrate today that Act's potential to reform and develop the national health service in Wales and its impacts on local government as well as the health service. The Act involves patients, the voluntary sector and the wider community as partners in taking forward our reform agenda.

The Act's origins are in the White Paper 'Putting Patients First', which received widespread support when it was first published. This document articulated what

Y Llywydd: Yr wyf wedi dethol gwelliannau 1 a 2 yn enw David Melding, gwelliant 3 yn enw David Lloyd a gwelliant 4 yn enw Kirsty Williams.

Yr Ysgrifennydd Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Jane Hutt): Cynigiau fod y Cynulliad:

yn cydnabod cyfraniad gweithredu'r Ddeddf Iechyd 1999 yng Nghymru wrth gynorthwyo'r NHS a'i bartneriaid i symud ymlaen mewn modd cadarnhaol i'r mileniwm newydd;

yn croesawu cyfraniad arwyddocaol y Ddeddf at hyrwyddo partneriaethau gwirioneddol rhwng yr awdurdodau iechyd, Ymddiriedolaethau'r NHS, grwpiau iechyd lleol a'u haelodau, yr awdurdodau lleol a'r sector gwirfoddol. Gwneir hyn mewn ffordd sydd yn gwasanaethu pobl Cymru orau; sef sicrhau bod asesu a diwallu anghenion cleifion, defnyddwyr a gofalwyr wrth graidd eu hamcanion, beth bynnag fo'r gwasanaethau sydd eu hangen; ac

yn derbyn yr angen am strategaeth oddi mewn i'r Cynulliad i arwain a rhoi cymorth i'r holl gyfranddeiliaid yn y broses o gyflwyno'r agenda hon sydd yn llawn her.

Yr wyf yn falch bod gennym gyfle i drafod y Ddeddf Iechyd 1999 heddiw. Yr wyf hefyd yn falch bod ein dadl ddiwethaf yn un ar y gwasanaeth iechyd. Addewais, wrth wneud fy natganiad yng Ngorffennaf, y byddem yn cael dadl lawn yn y Siambr. Gobeithiaf y gallwn ddangos heddiw botensial y Ddeddf honno i ddiwygio a datblygu'r gwasanaeth iechyd gwladol yng Nghymru a'i heffeithiau ar lywodraeth leol yn ogystal ag ar y gwasanaeth iechyd. Mae'r Ddeddf yn cynnwys cleifion, y sector gwirfoddol a'r gymuned ehangach fel partneriaid er mwyn bwrw ymlaen â'n hagenda ddiwygio.

Mae dechreuadau'r Ddeddf yn y Papur Gwyn 'Rhoi Cleifion yn Gyntaf', a gafodd gefnogaeth helaeth pan gyhoeddwyd ef gyntaf. Yr oedd y ddogfen honno'n mynegi'r

the NHS has been trying to do for some time despite the obstacle of the internal market. That is, to provide a responsive, high quality, accessible service to all patients. In order to meet the heavy demands on the health service, we need a new, fairer system that is based on partnership and underpinned by a concern for quality, equity and effectiveness. These are the key strategic points for the Government of Wales, which I hope will help steer this debate. All this must be done in the context of our long-term objective which, as we often repeat, is to improve the health and well-being of the people of Wales.

I am glad that there is a substantial level of consensus across parties in taking the new reforming health agenda forward. I will discuss the amendments in the names of David Melding, Kirsty Williams and Dai Lloyd. It seems, however, that amendment 1, has come straight from Tory central office and I reject it. Most of us are happy to move on from these fragmented services that were also promoted by the internal market and put organisations before people's needs. However, amendment 2 seems to have come from David Melding's sensible, reasoned self and I support it. I will deal with that later.

Amendment 2 also considers the detail of local health group membership. I will look at that and at Kirsty's amendment on the establishment of the Commission for Health Improvement later. Dai Lloyd's amendment stressed the need for the implementation of aspects of the Health Act to meet the needs of the people of Wales. I have demonstrated in the Health and Social Services Committee and in the Chamber that this is already happening. Wales has a long tradition of being at the forefront of health developments. We are in the vanguard for important strategic initiatives such as those for mental health, child and adolescent mental health, primary care and improving health and cancer services. These services are being developed in Wales for Wales. We are prepared to support Dai Lloyd's amendment because we agree with its principle. I welcome the fact that nobody has disagreed with the key aims of this reforming legislation.

hyn y mae'r NHS yn ceisio ei wneud ers tro er gwaethaf rhwystr y farchnad fewnol. Hynny yw, darparu gwasanaeth ymatebol, hygyrch ac uchel ei ansawdd i'r holl gleifion. Er mwyn cwrdd â'r gofynion mawr ar y gwasanaeth iechyd, mae arnom angen system newydd, decach sydd yn seiliedig ar bartneriaeth ac wedi ei hategu â gofal am ansawdd, tegwch ac effeithiolrwydd. Dyma'r prif bwyntiau strategol i Lywodraeth Cymru a fydd, fe obeithiaf, yn gymorth i lywio'r ddadl hon. Rhaid gwneud hyn oll yng nghydestun ein hamcan tymor hir a ddatganwn yn aml, sef gwella iechyd a lles pobl Cymru.

Mae'n dda gennyf fod consensws helaeth ar draws y pleidiau wrth fwrw ymlaen â'r agenda ddiwygiadol newydd ar iechyd. Trafodaf y gwelliannau a gyflwynwyd yn enwau David Melding, Kirsty Williams a Dai Lloyd. Mae'n ymddangos, fodd bynnag, fod gwelliant 1, wedi dod yn syth o swyddfa ganolog y Torïaid ac fe'i gwrthodaf. Mae'r rhan fwyaf ohonom yn falch o symud ymlaen o'r gwasanaethau digyswllt a hybwyd hefyd gan y farchnad fewnol ac a roddodd sefydliadau o flaen anghenion pobl. Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod gwelliant 2 yn dod gan David Melding fel rhywun synhwyrol, rhesymol ac fe'i cefnogaf. Trafodaf hynny'n ddiweddarach.

Mae gwelliant 2 hefyd yn ystyried manylion aelodaeth y grwpiau iechyd lleol. Ystyriaif hynny a gwelliant Kirsty ar sefydlu'r Comisiwn Gwella Iechyd yn ddiweddarach. Mae gwelliant Dai Lloyd yn pwysleisio'r angen i weithredu agweddau ar y Ddeddf Iechyd er mwyn diwallu anghenion pobl Cymru. Fe ddangosais yn y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ac yn y Siambr fod hyn yn digwydd eisoes. Mae gan Gymru draddodiad hir o fod ar y blaen mewn datblygiadau iechyd. Yr ydym ar flaen y gad mewn mentrau strategol pwysig fel y rhai hynny ar gyfer iechyd meddwl, iechyd meddwl ymysg plant a rhai yn eu harddegau cynnar, gofal sylfaenol a gwella gwasanaethau iechyd a chanser. Datblygir y gwasanaethau hyn yng Nghymru ar gyfer Cymru. Yr ydym yn barod i gefnogi gwelliant Dai Lloyd am ein bod yn cytuno â'r egwyddor sydd ynddo. Croesawaf y ffaith nad oes neb wedi anghytuno â phrif amcanion y ddeddf ddiwygiadol hon.

I will concentrate on the main themes that will make a difference to the health and well-being of the people of Wales. The themes are partnership, working across boundaries, and quality. We must recognise that good progress has been made. We have committed ourselves to implementing reforms through the White Paper at ground and strategic levels. Since April, 22 local health groups have been functioning and they are developing good, co-operative local working relationships. These local health groups are distinctive to Wales. They are multi-disciplinary, are coterminous with our local authorities, envied by colleagues who look at them from outside Wales, and they have lay and voluntary sector representatives. The introduction of local health groups reflects a broad approach to partnership working and collaboration within and outside those local health groups.

2:49 p.m.

Some nurses and pharmacists are already members of local health group executives and I am pleased to see that development. Local health groups are more broadly based than the primary care groups in England and we are building on the arrangements of the local health groups, their composition and progress, through the primary care strategy. I accept amendment 2 from David Melding on local health groups in the spirit of consensus but it is on the margins of the big issues we are discussing today in relation to the Act.

Local health groups are important in focusing on local needs, issues of rurality, the needs of black and ethnic minority communities and vulnerable groups without a strong voice. That refers back to our debate last week. Local health groups will be able to place the needs of service users, carers and communities at the centre of commissioning services. Service providers will respond by ensuring that services meet people's needs.

We must ensure that local health groups

Canolbwyntiaf ar y prif themâu a fydd yn gwneud gwahaniaeth i iechyd a lles pobl Cymru. Y themâu yw partneriaeth, gweithio ar draws ffiniau, ac ansawdd. Rhaid inni gydnabod bod cynnydd da wedi digwydd. Yr ydym wedi ymrwymo i weithredu diwygiadau drwy'r Papur Gwyn yn y maes ac yn strategol. Mae 22 o grwpiau iechyd lleol yn gweithredu ers Ebrill ac maent yn datblygu cysylltiadau gwaith cydweithredol, da. Mae'r grwpiau iechyd lleol hyn yn arbennig i Gymru. Maent yn amlddisgyblaethol, ac yn cydffinio â'n hawdurdodau lleol, ac yn ennyn cenfigen ymysg cydweithwyr sydd yn edrych arnynt o'r tu allan i Gymru, ac mae arnynt gynrychiolwyr lleig a rhai o'r sector gwirfoddol. Mae cyflwyno'r grwpiau iechyd lleol yn arwydd o ymagwedd eangfrydig at weithio mewn partneriaeth a chydweithio oddi mewn i'r grwpiau iechyd lleol hynny a thu allan iddynt.

Mae rhai nyrsys a fferyllwyr eisoes yn aelodau o adrannau gweithredol y grwpiau iechyd lleol ac yr wyf yn falch o weld y datblygiad hwnnw. Mae gan y grwpiau iechyd lleol sylfaen ehangach na'r grwpiau gofal sylfaenol yn Lloegr ac yr ydym yn adeiladu ar drefniadau'r grwpiau iechyd lleol, eu cyfansoddiad a'u cynnydd, drwy'r strategaeth gofal sylfaenol. Derbyniaf welliant 2 gan David Melding ar grwpiau iechyd lleol yn ysbryd consensws ond mae ar ymylon y materion mawr yr ydym yn eu trafod heddiw mewn perthynas â'r Ddeddf.

Mae grwpiau iechyd lleol yn bwysig o ran canolbwyntio ar anghenion lleol, materion yn ymwneud â gwledigrwydd, anghenion cymunedau lleiafrifol du ac ethnig a grwpiau sydd yn agored i niwed nad oes ganddynt lais cryf. Mae hynny'n cyfeirio'n ôl at ein dadl yr wythnos diwethaf. Bydd grwpiau iechyd lleol yn gallu rhoi anghenion defnyddwyr gwasanaethau, gofalwyr a chymunedau wrth graidd y broses o gomisiynu gwasanaethau. Bydd darparwyr gwasanaethau'n ymateb drwy sicrhau bod gwasanaethau'n diwallu anghenion pobl.

Rhaid inni sicrhau bod y grwpiau iechyd lleol

receive our support. They have to acquire their expertise and the necessary competencies to enable them to take on additional commissioning responsibilities in the interests of patients. I expect a significant number of local health groups to take direct responsibility for commissioning a range of agreed local services as soon as possible. I recently met the chairs of the local health groups who are keen to move this forward. We are considering how we can support them in taking on the commissioning agenda as quickly as possible.

The new flexibilities for health and social care are vital. This is an issue where, as Secretary for Health and Social Services, I have an opportunity to help break down these barriers with the backing of this Act. It introduces new flexibilities for health authorities and local authorities to ensure that we meet people's health and social care needs. Their needs are the starting point for our planning.

I have taken every opportunity to emphasise that we need seamless health and social care. People do not want barriers and distinctions. With the introduction of these flexibilities we can have pooled budgets where health and local authorities bring their resources together into a joint budget. We can have lead commissioning where one health authority and local authority or a local health group can transfer funds or delegate functions to another to take responsibility for commissioning both health and social care.

These are not dry matters, they are vital to break down the barriers that have impeded progress and seamless care. We can have integrated provision where a trust or a local health group can provide social care services beyond the level possible under our existing powers, or where the social services in-house provider can provide a limited arranged community health service. This is radical, reforming change. I am involving the Health and Social Services Committee, the NHS,

yn derbyn ein cefnogaeth. Rhaid iddynt sicrhau'r arbenigedd a'r galluoedd sydd yn angenrheidiol i'w galluogi i ymgymryd â chyfrifoldebau comisiynu ychwanegol er budd y cleifion. Disgwyliaf y bydd nifer sylweddol o'r grwpiau iechyd lleol yn ymgymryd â chyfrifoldeb uniongyrchol dros gomisiynu amrediad o wasanaethau lleol cytunedig cyn gynted ag y bo modd. Cyfarfûm yn ddiweddar â chadeiryddion y grwpiau iechyd lleol sydd yn awyddus i fwrw ymlaen â hynny. Yr ydym yn ystyried sut y gallwn eu cynorthwyo wrth iddynt ymgymryd â'r agenda gomisiynu mor gyflym ag y gallant.

Mae'r hyblygrwydd newydd ar gyfer gofal iechyd a gofal cymdeithasol yn holl bwysig. Mae hyn yn fater lle y mae gennyf gyfle, fel Ysgrifennydd Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, i helpu i chwalu'r rhwystrau hynny gyda chefnogaeth y Ddeddf hon. Mae'n cyflwyno hyblygrwydd newydd ar gyfer awdurdodau iechyd ac awdurdodau lleol er mwyn sicrhau ein bod yn diwallu anghenion pobl o ran gofal iechyd a gofal cymdeithasol. Eu hanghenion hwy yw'r man cychwyn wrth inni gynllunio.

Manteisiais ar bob cyfle i bwysleisio bod arnom angen gofal iechyd a gofal cymdeithasol di-fwlch. Nid yw pobl am gael rhwystrau a gwahaniaethau. Drwy gyflwyno'r hyblygrwydd newydd gallwn gael cyllidebau ar y cyd lle y bydd awdurdodau iechyd ac awdurdodau lleol yn cyfuno eu hadnoddau. Gallwn gael comisiynu arweinïol lle y bydd un awdurdod iechyd ac awdurdod lleol neu grŵp iechyd lleol yn cael trosglwyddo cyllid neu ddirprwyo swyddogaethau i un arall fel y gall fod yn gyfrifol am gomisiynu gofal iechyd a gofal cymdeithasol.

Nid materion sych mo'r rhain, gan eu bod yn hanfodol er mwyn chwalu'r rhwystrau sydd wedi atal cynnydd a gofal di-fwlch. Gallwn gael darpariaeth integredig lle y gall ymddiriedolaeth neu grŵp iechyd lleol ddarparu gwasanaethau gofal cymdeithasol sydd y tu hwnt i'r lefel sydd yn bosibl o dan ein pwerau presennol, neu lle y gall darparwr gwasanaethau cymdeithasol mewndol ddarparu gwasanaeth iechyd cymunedol trefnedig cyfyngedig. Mae hyn yn newid

local government and the voluntary sector in looking at initial drafts of guidance and this will be followed by wider consultation.

We must have good communication and rock-solid backing to turn the opportunities that arise from this Act into reality. We are developing a task and finish group involving representatives from the Welsh Local Government Association, health authorities and the voluntary sector to assess how we can move forward and turn these opportunities into reforms on the ground. There will be significant change in the scope for effective joint working. The new opportunities provided by the Act are exciting and ground-breaking.

Health improvement programmes will be the key health planning mechanisms for the future. This is about resource allocation based on health and social need. We will have three-year plans to improve healthcare. That is important after the start and stop planning we have had in the past. Lead responsibility for driving forward and co-ordinating the health improvement programmes rests with the health authorities. They must involve local health groups, NHS trusts and local authorities—not just social services, but their wider corporate responsibilities. They must also involve staff, users, carers, the local community, voluntary bodies, universities, schools and employers. These can all be involved in helping to develop the health improvement programmes. We are working in a radically different climate. From my past experience, this is the heart of the commissioning agenda as opposed to the purchasing agenda—or the purchasing bungling—of the former Tory regime. It brings local interests together to assess local need, plan local services and respond to national priorities.

My second point relates to quality. This is critical for the new improved health service, because we have new arrangements aimed at improving the quality of care for patients.

radicalaidd, diwygiadol. Yr wyf wedi cynnwys y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, yr NHS, llywodraeth leol a'r sector gwirfoddol wrth edrych ar ddrafftiau dechreuol y canllawiau a chynhelir ymgynghori ehangach ar ôl hynny.

Rhaid inni gael cyfathrebu da a chefnogaeth gadarn er mwyn gwireddu'r cyfleoedd sydd yn codi o'r Ddeddf hon. Yr ydym yn datblygu grŵp gorchwyl a gorffen sydd yn cynnwys cynrychiolwyr o Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, yr awdurdodau iechyd a'r sector gwirfoddol er mwyn asesu i ganfod sut y gallwn symud ymlaen a throï'r cyfleoedd hyn yn ddiwygiadau yn y maes. Bydd newid sylweddol yn y cyfleoedd ar gyfer gwaith effeithiol ar y cyd. Mae'r cyfleoedd newydd a ddarperir yn y Ddeddf yn gyffrous ac yn arloesol.

Y rhaglenni gwella iechyd fydd y prif fecanweithiau cynllunio iechyd ar gyfer y dyfodol. Mae hyn yn ymwneud â dyrannu adnoddau ar sail anghenion iechyd a chymdeithasol. Bydd gennym gynlluniau tair-blynedd i wella gofal iechyd. Mae hynny'n bwysig ar ôl y cynllunio ysbeidiol a gawsom yn y gorffennol. Mae'r cyfrifoldeb arweiniol dros hybu a chydlyn rhaglenni gwella iechyd yn perthyn i'r awdurdodau iechyd. Rhaid iddynt gynnwys y grwpiau iechyd lleol, ymddiriedolaethau'r NHS a'r awdurdodau lleol—nid y gwasanaethau cymdeithasol yn unig, ond eu cyfrifoldebau corfforaethol ehangach. Rhaid iddynt hefyd gynnwys staff, defnyddwyr, gofawyr, y gymuned leol, mudiadau gwirfoddol, prifysgolion, ysgolion a chyflogwyr. Gall pob un o'r rhain gymryd rhan wrth helpu i ddatblygu'r rhaglenni gwella iechyd. Yr ydym yn gweithio mewn hinsawdd sylfaenol wahanol. Gwelaf o'm profiad yn y gorffennol mai hyn yw craidd yr agenda gomisiynu yn hytrach nag agenda brynu—neu fwnglera prynu—y llywodraeth Dorïaidd flaenorol. Daw'r rhai sydd â diddordeb yn lleol at ei gilydd er mwyn asesu angen lleol, cynllunio gwasanaethau lleol ac ymateb i flaenoriaethau cenedlaethol.

Mae'r ail bwynt sydd gennyf yn ymwneud ag ansawdd. Mae hyn yn holl bwysig i'r gwasanaeth iechyd newydd gwell, oherwydd mae gennym drefniadau newydd er mwyn

This is at the heart of Labour's reforming agenda.

The Commission for Health Improvement was established formally on 1 November. Dame Deirdre Hine, our former Chief Medical Officer, is the Chair, which gives us a strong Welsh presence.

The Commission is a statutory England and Wales body. It will work closely with the National Assembly for Wales to ensure that we make the best use of its resources and that health expenditure in Wales is targeted where it is most needed. There will be an annual work programme that will be agreed by myself. The Commission will visit the Health and Social Services Committee shortly to discuss its work and give Members a chance to meet the Chief Executive and Chair.

In response to Kirsty Williams's proposed amendment 4, the Commission will cover NHS services that are commissioned from private sector organisations. However, it will not cover services provided for private patients. That means that your amendment falls outside the remit of the Commission as defined in the Health Act. As there would be no statutory basis for extending the Commission's role in this way, I ask Members not to support this amendment.

The new statutory duty of quality requires NHS trusts to put and keep in place arrangements for improving and monitoring the quality of healthcare they provide. Quality for all will be based on the vital principles of equity and clinical effectiveness. The other key components relate to clear national standards for services and treatments through national service frameworks. We have already discussed the National Institute for Clinical Excellence and how it will guide us, for example, on prescribing. We have a national service framework on cervical cancer, which I was pleased to help launch following the election. That is distinctive to Wales. We are concerned about local delivery of high quality care through clinical governance.

gwella ansawdd y gofal i gleifion. Mae hyn wrth wraidd agenda ddiwygiadol Llafur.

Sefydlwyd y Comisiwn Gwella Iechyd yn ffurfiol ar 1 Tachwedd. Y Cadeirydd yw'r Fonesig Deirdre Hine, ein cyn Brif Swyddog Meddygol, sydd yn golygu bod gennym bresenoldeb cryf o Gymru.

Mae'r Comisiwn yn gorff statudol ar gyfer Cymru a Lloegr. Bydd yn cydweithio'n agos â Chynulliad Cenedlaethol Cymru er mwyn sicrhau ein bod yn defnyddio ei adnoddau i'r eithaf ac y caiff y gwariant ar iechyd yng Nghymru ei dargedu lle y mae'r angen mwyaf. Bydd rhaglen waith flynyddol a gytunir gennyf fi. Bydd y Comisiwn yn ymweld â'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol cyn hir i drafod ei waith ac i roi cyfle i'r Aelodau gyfarfod â'r Prif Weithredwr a'r Cadeirydd.

Mewn ymateb i welliant 4 a gynigir gan Kirsty Williams, bydd y Comisiwn yn cynnwys gwasanaethau'r NHS a gomisiynir oddi wrth gyrff yn y sector preifat. Fodd bynnag, ni fydd yn ymwneud â gwasanaethau a ddarperir ar gyfer cleifion preifat. Mae hynny'n golygu bod eich gwelliant y tu allan i gylch gwaith y Comisiwn fel y'i diffinnir yn y Ddeddf Iechyd. Gan na fyddai sail statudol dros ymestyn rôl y Comisiwn fel hyn, gofynnaf i'r Aelodau beidio â chefnogi'r gwelliant hwn.

Mae'r ddyletswydd statudol newydd ynghylch ansawdd yn ei gwneud yn ofynnol i ymddiriedolaethau'r NHS sefydlu a chynnal trefniadau ar gyfer gwella a monitro ansawdd y gofal iechyd a ddarparant. Bydd ansawdd i bawb yn seiliedig ar egwyddorion hanfodol sef tegwch ac effeithiolrwydd clinigol. Mae'r elfennau allweddol eraill yn ymwneud â safonau cenedlaethol eglur ar gyfer gwasanaethau a thriniaethau drwy'r fframweithiau gwasanaeth cenedlaethol. Yr ydym eisoes wedi trafod y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol a'r modd y bydd yn ein harwain wrth ragnodi cyffuriau, er enghraifft. Mae gennym fframwaith gwasanaeth cenedlaethol ar ganser ceg y groth, yr oeddwn yn falch o helpu i'w lansio ar ôl yr etholiad. Mae hynny'n arbennig i Gymru. Yr ydym yn bryderus ynghylch cyflenwi gofal o ansawdd

uchel yn lleol drwy reolaeth glinigol.

The National Institute for Clinical Excellence has been established and has undertaken its first review. It will operate on an England and Wales basis to ensure that good practice is identified, and it will support and guide us. Its advice will be disseminated widely across the NHS for the benefit of all patients.

Mae'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol wedi ei sefydlu ac wedi ymgymryd â'i adolygiad cyntaf. Bydd yn gweithredu yng Nghymru a Lloegr er mwyn dynodi ymarfer da, a bydd yn ein cynorthwyo a'n harwain. Lledaenir ei gyngor yn eang drwy'r NHS er lles yr holl gleifion.

I move on to the legislation, which is vitally important for this Assembly. From 1 November, we have brought forward many provisions of the Health Act which will widen the scope of the NHS trusts' establishment orders to allow them to provide new hospitals and facilities not previously managed by the health authority. There will be restrictions on trusts' income generation powers, and these will be extended to ensure that they apply to all trust functions not just those in the establishment order. Changes have been made to the trusts' financial regime, which will change the form in which the originating capital debt is financed and ensure that additional borrowing by trusts is subject to Assembly direction. The order will enable the provision of statutory underpinning for the health improvement programmes I have discussed and a new duty of quality on NHS trusts in relation to care provision for patients.

Symudaf ymlaen at y ddeddfwriaeth sydd o bwys hanfodol i'r Cynulliad hwn. Ers 1 Tachwedd, yr ydym wedi datblygu llawer o ddarpariaethau'r Ddeddf Iechyd a fydd yn ehangu cwrddpas gorchmynion sefydlu ymddiriedolaethau'r NHS fel y gallant ddarparu ysbytai a chyfleusterau newydd nad oeddent wedi eu rheoli cyn hynny gan yr awdurdod iechyd. Bydd cyfyngiadau ar bwerau'r ymddiriedolaethau i godi incwm, ac estynnir y rhain er mwyn sicrhau eu bod yn berthnasol i holl swyddogaethau'r ymddiriedolaeth ac nid y rhai yn y gorchymyn sefydlu'n unig. Cyflwynwyd newidiadau yng nghyfundrefn ariannol yr ymddiriedolaethau, a fydd yn newid dull ariannu'r ddyled gyfalaf wreiddiol ac yn sicrhau bod benthyca ychwanegol gan yr ymddiriedolaethau yn ddarostyngedig i gyfarwyddyd y Cynulliad. Bydd y gorchymyn yn fodd i ddarparu sylfaen statudol i'r rhaglenni gwella iechyd a drafodais a dyletswydd newydd ynghylch ansawdd i ymddiriedolaethau'r NHS mewn perthynas â darpariaeth gofal i gleifion.

From 1 December, the order will extend the Assembly's direction-making powers to cover NHS trusts. That is an important new legislative development for the Assembly. We have used the urgency provisions to bring forward these sections of the Act at the most appropriate time. We are now working on a series of further orders which will bring forward other key parts of the Act in Wales, such as the abolition of GP fundholding. This will involve not only commencement, but also supporting the commencement order with consultation, directions and transitional orders in certain cases.

O 1 Rhagfyr ymlaen, bydd y gorchymyn yn ymestyn pwerau llunio cyfarwyddiadau'r Cynulliad i gynnwys ymddiriedolaethau'r NHS. Mae hynny'n ddatblygiad deddfwriaethol newydd o bwys i'r Cynulliad. Yr ydym wedi defnyddio'r darpariaethau brys er mwyn datblygu'r adrannau hyn o'r Ddeddf ar yr adeg fwyaf priodol. Bellach yr ydym yn llunio cyfres o orchmynion pellach a fydd yn datblygu rhannau allweddol eraill o'r Ddeddf yng Nghymru, fel diddymu'r drefn cyllidebau meddygon teulu. Yn ogystal â'r gorchymyn dechrau, bydd hyn yn golygu ategu'r gorchymyn dechrau drwy ymgynghori, cyfarwyddo a gorchmynion pontio mewn rhai achosion.

2:59 p.m.

We must enable this Act to help us move forward and shape the future of the NHS in Wales. It is only part of the overall picture and a part of 'Better Health, Better Wales'. We are taking forward a range of developments in parallel to implementing the Act to ensure that this is done at a strategic level. On Friday, I told a major health conference that I will chair a new health and well-being board. That board will ensure a strategic approach to developing our health and social services, including the NHS, the Chief Medical Officer and the Assembly's social care directorates.

Work is ongoing to develop a primary care strategy, building on our primary care initiative. Local health groups are very much a part of that. We have a task and finish group on prescribing, and I am glad to announce that it will be chaired by Dr Norman Mills. We have also established a waiting times and clinical priorities group, as a direct result of discussions in the Health and Social Services Committee. We have a potentially challenging, as well as hugely rewarding, job to do in the health service in Wales. We must tease out the opportunities that this radically reforming Health Act offers, and ensure that they fit into improving the health and well-being of the people of Wales.

David Melding: I propose amendment 1. Delete the first clause and second clause and replace with:

recognises the benefits that GP fundholding brought to the NHS in Wales, and therefore regrets its abolition;

welcomes the fact that the Act maintains NHS Trusts as self-governing hospitals, thus maintaining the valuable purchase-provider distinction;

I also propose amendment 2. After the second clause, insert:

acknowledges that local health groups provide an opportunity for greater

Rhaid inni alluogi'r Ddeddf hon i'n helpu i symud ymlaen a llunio dyfodol yr NHS yng Nghymru. Nid yw ond rhan o'r darlun cyffredinol ac o 'Gwell Iechyd, Gwell Cymru'. Yr ydym yn bwrw ymlaen ag amryw o ddatblygiadau ar yr un pryd â gweithredu'r Ddeddf er mwyn sicrhau y gwneir hyn ar lefel strategol. Ddydd Gwener, dywedais wrth gynhadledd iechyd o bwys y byddaf yn cadeirio bwrdd iechyd a lles newydd. Bydd y bwrdd hwnnw'n sicrhau ymagwedd strategol at ddatblygu ein gwasanaethau iechyd a chymdeithasol, a bydd yn cynnwys yr NHS, y Prif Swyddog Meddygol a chyfarwyddiaethau gofal cymunedol y Cynulliad.

Mae gwaith yn mynd rhagddo ar ddatblygu strategaeth gofal sylfaenol, ar sail ein menter gofal sylfaenol. Mae'r grwpiau iechyd lleol yn rhan bwysig o hynny. Mae gennym grŵp gorchwyl a gorffen ar ragnodi cyffuriau, ac yr wyf yn falch o gyhoeddi mai'r cadeirydd fydd Dr Norman Mills. Yr ydym hefyd wedi sefydlu grŵp amseroedd aros a blaenoriaethau clinigol, o ganlyniad uniongyrchol i drafodaethau yn y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae gennym waith a allai gynnig her yn ogystal ag enillion mawr yn y gwasanaeth iechyd yng Nghymru. Rhaid inni ganfod y cyfleoedd a gynigir gan y Ddeddf Iechyd radicalaidd a diwygiadol hon, a sicrhau eu bod yn dod yn rhan o wella iechyd a lles pobl Cymru.

David Melding: Cynigiau welliant 1. Dileer y cymal cyntaf a'r ail a rhoi yn eu lle:

yn cydnabod y manteision i'r NHS yng Nghymru a ddaeth yn sgîl caniatáu i feddygon teulu reoli'u cyllidebau eu hunain ac felly'n gresynu gweld diddymu'r drefn honno;

yn croesawu'r ffaith bod y Ddeddf yn cadw Ymddiriedolaethau'r NHS fel ysbytai hunanymreolus gan gadw'r gwahaniaethau gwerthfawr rhwng y prynwr a'r darparwr;

Cynigiau hefyd welliant 2. Ar ôl yr ail gymal, ychwaneger:

yn cydnabod bod grwpiau iechyd lleol yn creu cyfleoedd ar gyfer mwy o gydweithio

partnership between primary healthcare and social care;

examines the need to reserve a place for a nurse on the executive committees of local health groups; and

As a former member of the Conservative research department, I am disappointed to see that I have not shaken off the house style. However, I shall endeavour to perform as well as I can. We will oppose this motion on the basis that GP fundholding is abolished. However, I will refer to those points that we think are positive and we will work constructively once these reforms are in place, as most of them now are, and as they come on stream and work in the future. We accept the realities of our political situation.

However, it is appropriate to ponder the success of GP fundholding and remember that its abolition could very well lead to poorer services for many patients. GP fundholding was always voluntary. That is a central point in this debate. It proved highly innovative and successful. The costs involved in its abolition are considerable and we must take note of them: the expense of new bureaucracies involved in establishing local health groups and the increase in things like the drugs bill, which, as a direct result of the abolition of GP fundholding, is expected to increase by £3 million this year. That was discussed in the Health and Social Services Committee.

Many people regard GP fundholding as a strange Conservative obsession. During our long spell of government, the health service was modernised, and many of the reforms that were bitterly opposed by all parties in 1989 are now commonly accepted. I shall refer to one later. However, GP fundholding was regarded as a success by many independent authorities. I will quote a couple of them. The Organisation for Economic Co-operation and Development said,

rhwng gofal iechyd sylfaenol a gofal cymdeithasol;

yn ystyried yr angen i gadw lle ar gyfer nyrs ar bwyllgorau gweithredol grwpiau iechyd lleol; ac

Fel cyn-aelod o adran ymchwil y Blaid Geidwadol, yr wyf yn siomedig o weld nad wyf wedi ymddihatu o arddull y tŷ. Fodd bynnag, ceisiaf berfformio gystal ag y gallaf. Gwrthwynebwn y cynnig hwn ar y sail bod cyllidebau meddygon teulu wedi eu diddymu. Fodd bynnag, cyfeiriaf at y pwyntiau hynny y credwn eu bod yn gadarnhaol a gweithiwn yn adeiladol ar ôl sefydlu'r diwygiadau hyn, a ddigwyddodd bellach yn achos y rhan fwyaf ohonynt, ac wrth iddynt ddod i rym a chael eu rhoi ar waith yn y dyfodol. Derbyniwn wirioneddau ein sefyllfa wleidyddol.

Fodd bynnag, mae'n briodol ystyried llwyddiant y drefn cyllidebau meddygon teulu a chofio y bydd ei dileu yn arwain o bosibl at wasanaethau gwaeth i lawer o gleifion. Yr oedd y drefn cyllidebau meddygon teulu yn un wirfoddol bob amser. Mae hynny'n bwynt canolog yn y ddadl hon. Gwelwyd ei bod yn arloesol ac yn llwyddiannus iawn. Mae cryn gostau ynglŷn â'i diddymu a rhaid inni eu nodi: cost y biwrocratiaethau newydd sydd yn gysylltiedig â sefydlu grwpiau iechyd lleol a'r cynnydd mewn pethau fel y bil cyffuriau y disgwylir iddo godi o £3 miliwn eleni o ganlyniad uniongyrchol i ddiddymu cyllidebau meddygon teulu. Trafodwyd hynny yn y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

Mae llawer yn ystyried y drefn cyllidebau meddygon teulu yn obsesiwn rhyfedd ar ran y Ceidwadwyr. Yn ystod ein cyfnod maith mewn llywodraeth, moderneiddiwyd y gwasanaeth iechyd, ac mae llawer o'r diwygiadau a wrthwynebwyd yn ffyrnig gan yr holl bleidiau yn 1989 bellach wedi eu derbyn yn gyffredinol. Cyfeiriaf at un ohonynt yn ddiweddarach. Fodd bynnag, ystyriwyd cyllidebau meddygon teulu yn llwyddiant gan lawer o awdurdodau annibynnol. Dyfynnaf un neu ddau ohonynt. Dywedodd y Sefydliad er Cydweithredu a Datblygu Economaidd,

‘GPs do seem to have done a better job of purchasing than district health authorities.’

That was their conclusion on the GP fundholding reforms. The British Medical Association, which, in fairness, was never quite reconciled to fundholding, was gracious enough to say,

‘Fund-holding is a good model for encouraging consumer accountability in the NHS.’

The National Audit Office—the great watchdog—said,

‘Most fund-holders have introduced improvements including more services for patients at practice premises, improved communication with hospitals and more cost-effective drug prescribing.’

The imminent abolition of GP fundholding and the disciplines that it involved, including encouragement for GPs to take a direct interest in the various services available to patients at hospital level, has already led to longer waiting lists, particularly for out-patient appointments. That could continue. Waiting lists are out of control. There is no prospect of a reduction of 5,000 in the in-patient waiting list, as promised by this Labour administration in Wales. These are knock-on effects of the reforms in the primary sector, such as the abolition of GP fundholding. We are not reconciled to them. We do not have the political power to prevent them and we will not take action to subvert the reforms. The debate moves on, but it is appropriate to pause and reflect on the success of GP fundholding. It is certainly a success from our point of view.

The Labour Party has accepted NHS trusts as a fact of life in the health service. We welcome that. The retention of trusts will preserve the purchaser-provider distinction. This is an important principle in the health service and was introduced in the late 1980s by the Conservative Government. However, this Government has acted to disrupt the

‘Ymddengys bod meddygon teulu wedi ymgymryd â’r gwaith o brynu yn well nag awdurdodau ieuchyd rhanbarthol.’

Dyna oedd eu casgliad ynghylch diwygiadau cyllidebau meddygon teulu. Yr oedd y Gymdeithas Feddygol Brydeinig, nad oedd, er tegwch, yn llwyr gytûn â’r drefn gyllidebau, yn ddigon rhadlon i ddweud,

‘Mae cyllidebau meddygon teulu yn fodel da ar gyfer annog atebolrwydd defnyddwyr yn yr NHS.’

Dywedodd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol—y corff gwarchod mawr,

‘Mae’r rhan fwyaf o ddeiliaid cyllidebau wedi cyflwyno gwelliannau, gan gynnwys mwy o wasanaethau i gleifion yn y practisiau eu hunain, gwell cyfathrebu ag ysbytai a rhagnodi cyffuriau mwy cost-effeithiol.’

Mae’r diddymu sydd ar fin digwydd ar y drefn cyllidebau meddygon teulu a’r ddisgyblaeth a oedd yn gysylltiedig â hynny, gan gynnwys yr hwb i feddygon teulu ymddiddori’n uniongyrchol yn y gwahanol wasanaethau sydd ar gael i gleifion mewn ysbytai, wedi arwain at restrau aros hwy, yn enwedig yn achos apwyntiadau cleifion allanol. Gallai hynny barhau. Mae rhestrau aros y tu hwnt i reolaeth. Nid oes gobaith o ostyngiad o 5,000 yn rhestr aros y cleifion mewnol, sef yr hyn a addawyd gan y weinyddiaeth Lafur hon yng Nghymru. Mae’r rhain yn effeithiau o ganlyniad i’r diwygiadau yn y sector gofal sylfaenol, fel diddymu’r drefn cyllidebau meddygon teulu. Nid ydym yn eu derbyn. Nid oes gennym y pŵer gwleidyddol i’w hatal ac ni fyddwn yn cymryd camau i danseilio’r diwygiadau. Bydd y ddadl yn symud yn ei blaen, ond mae’n briodol aros ac ystyried llwyddiant y drefn cyllidebau meddygon teulu. Mae’n sicr yn llwyddiant o’n safbwynt ni.

Mae’r Blaid Lafur wedi derbyn ymddiriedolaethau’r NHS fel un o ffeithiau bywyd yn y gwasanaeth ieuchyd. Croesawn hynny. Drwy gadw’r ymddiriedolaethau cedwir y gwahaniaeth rhwng y prynwr a’r darparwr. Mae hyn yn ewyddor bwysig yn y gwasanaeth ieuchyd ac fe’i cyflwynwyd yn y 1980au hwyr gan y Llywodraeth Geidwadol.

work of NHS trusts. The reconfiguration exercise was highly disruptive and led to a lack of leadership in these trusts. Many appointments were not filled at senior executive level, and this has contributed to the financial crisis. Many trusts are now in financial deficit. The reconfiguration that took place has not helped.

We are wary of the Government's policy of integrating community and acute trusts into single trusts. This Wal-Mart approach to health, one system to provide all, is not good enough. The potential danger is that community services could suffer and acute services will receive all the attention of decision-makers. I may have simplified the situation but we will hold this Government to account for its performance at the community health level.

The new trust for Cardiff and the Vale of Glamorgan is merely South Glamorgan Health Authority revisited. That undermines the principle of NHS trusts.

Local health groups are the new building block, the new unit in primary health. We must make the best of them and my amendments are in that spirit. We would prefer the system of GP fundholding to continue but that will not happen. We therefore hope the local health groups will work well and will extend best practice so that we have the best examples of GP fundholding in primary healthcare. We were often criticised under GP fundholding, which involved about 50 per cent of doctors in Wales, as somehow having a two-tier health system. That was a damaging criticism and we never successfully dealt with it. However, it is no good having a one-tier health system if you have the lower tier. We want the higher tier throughout Wales. We must ensure that local health groups are encouraged to work at the highest level and are motivated to provide the best possible health service.

Fodd bynnag, mae'r Llywodraeth hon wedi gweithredu er mwyn ymyrryd â gwaith ymddiriedolaethau'r NHS. Mae'r ailgyflunio wedi creu dryswch mawr gan arwain at ddiffyg arweinyddiaeth yn yr ymddiriedolaethau hyn. Yr oedd llawer o swyddi uwch reolwyr heb eu llenwi, a chyfrannodd hynny at yr argyfwng ariannol. Mae llawer o'r ymddiriedolaethau mewn dyled erbyn hyn. Ni fu'r ailgyflunio a ddigwyddodd o gymorth.

Yr ydym yn amheus o bolisi'r Llywodraeth o integreiddio ymddiriedolaethau cymunedol ac aciwt yn ymddiriedolaethau sengl. Nid yw'r ymagwedd Wal-Mart hon at iechyd, sef un system i ddarparu'r cyfan, yn ddigon da. Y perygl posibl yw y gallai gwasanaethau cymunedol ddioddef ac y caiff gwasanaethau aciwt holl sylw'r rhai sydd yn penderfynu. Efallai fy mod wedi symleiddio'r sefyllfa ond galwn y Llywodraeth hon i gyfrif am ei pherfformiad ar lefel iechyd cymunedol.

Y cwbl yw'r ymddiriedolaeth newydd i Gaerdydd a Bro Morgannwg yw Awdurdod Iechyd De Morgannwg ar newydd wedd. Mae hynny'n tanseilio egwyddor ymddiriedolaethau'r NHS.

Y grwpiau iechyd lleol yw'r conglfeini newydd, yr uned newydd mewn iechyd sylfaenol. Rhaid inni eu defnyddio yn y modd gorau ac mae fy ngwelliannau yn yr un ysbryd. Byddai'n well gennym pe bai'r drefn cyllidebau meddygon teulu'n parhau ond ni ddigwydd hynny. Gobeithiwn felly y bydd y grwpiau iechyd lleol yn gweithio'n dda ac y byddant yn ymestyn yr ymarfer gorau fel y cawn yr enghreifftiau gorau o'r drefn cyllidebau meddygon teulu mewn gofal iechyd sylfaenol. Fe'n beirniadwyd yn aml oherwydd y drefn cyllidebau meddygon teulu a gynhwysai tua 50 y cant o'r meddygon yng Nghymru, drwy ddweud bod gennym system iechyd ddwy lefel, rywsut neu'i gilydd. Yr oedd honno'n feirniadaeth niweidiol ac ni fu inni erioed ddelio â hynny'n llwyddiannus. Fodd bynnag, nid oes diben cael system iechyd un lefel os mai'r lefel isaf sydd gennych. Yr ydym am gael y lefel uchaf drwy Gymru. Rhaid inni sicrhau y caiff y grwpiau iechyd lleol eu hannog i weithio ar y lefel uchaf gyda'r cymhelliant i ddarparu'r gwasanaeth iechyd gorau posibl.

Joint working between health and social care providers is important. We must emphasise that at every opportunity. This has not been done satisfactorily in the past under various administrations. I welcome the Government's attention to these matters, and I hope that the powers provided will be used. Powers do not necessarily have to be used but we must ensure that the powers are taken up when we examine the performance at all levels of the health service. If they are not taken up, we must look at making those powers duties. I welcome initiatives such as pooled budgets, lead commissioners and integrated provision. These could improve the delivery of health and social care where that should be integrated and seamless, to use the jargon.

Mae'r cydweithio rhwng darparwyr gofal iechyd a chymdeithasol yn bwysig. Rhaid inni bwysleisio hynny ar bob cyfle. Ni wnaethpwyd hyn yn foddhaol yn y gorffennol o dan wahanol weinyddiaethau. Croesawaf y sylw gan y Llywodraeth i'r materion hyn, a gobeithiaf y bydd defnydd ar y pwerau a ddarparwyd. Nid oes rhaid defnyddio'r pwerau o reidrwydd ond rhaid inni sicrhau y caiff y pwerau eu defnyddio pan edrychwn ar y perfformiad ar bob lefel o'r gwasanaeth iechyd. Os na ddefnyddir hwy, rhaid inni ystyried gwneud y pwerau hynny'n ddyletswyddau. Croesawaf fentrau fel cyllidebau ar y cyd, comisiynwyr arweiniol a darpariaeth integredig. Gallai'r rhain wella'r ddarpariaeth o ofal iechyd a chymdeithasol pan ddylai hynny fod yn integredig ac yn ddi-fwlch, a defnyddio'r jargon.

3:09 p.m.

We should consider the possibility of including a nurse on the executive committee of local health groups. This is not a categorical demand but the case for it should be examined. If we want to do things slightly differently in Wales, it is no bad thing. I agree with the Liberal Democrats that the involvement of professions allied to medicine in local health groups should also be examined. However, it may be stretching the situation to have representatives from professions allied to medicine on every executive committee because executive committees have to be fairly small if they are to provide executive leadership.

Dylem ystyried y posibiliad o gynnwys nyrs ar bwyllgorau gweithredol y grwpiau iechyd lleol. Nid yw hyn yn alwad ddiamod ond dylid ystyried y ddadl o'i phlaid. Os ydym am wneud pethau ychydig yn wahanol yng Nghymru, nid oes dim o'i le ar hynny. Cytunaf â'r Democratiaid Rhyddfrydol y dylid hefyd ystyried rhan y proffesiynau sydd yn gysylltiedig â meddygaeth yn y grwpiau iechyd lleol. Fodd bynnag, gallai fod yn ormod cael cynrychiolwyr o broffesiynau sydd yn gysylltiedig â meddygaeth ar bob pwyllgor gweithredol oherwydd rhaid i bwyllgorau gweithredol fod yn eithaf bach os ydynt i roi arweiniad gweithredol.

To conclude, we are not against amendment 3, submitted by the Liberal Democrats, but we will abstain as we are unclear about the exact nature of the proposal. The amendment would need clarification before we could support it. We will support amendment 4 because it is important that the Commission for Health Improvement has powers to also cover private healthcare. We abstain on amendment 5 because we want more detail as to what the potential or current inadequacies are, in your view. I am not prepared to support that amendment until these are spelt out.

I gloi, nid ydym yn gwrthwynebu gwelliant 3 a gyflwynwyd gan y Democratiaid Rhyddfrydol, ond byddwn yn ymatal am nad ydym yn sicr ynghylch union natur y cynnig. Byddai angen egluro'r gwelliant cyn y gallm ei gefnogi. Cefnogwn welliant 4 am ei bod yn bwysig i'r Comisiwn Gwella Iechyd gael pwerau hefyd i ymwneud â gofal iechyd preifat. Byddwn yn ymatal ar welliant 5 am fod arnom angen mwy o fanylion am yr hyn a ystyriwch yn ddifffygion posibl neu gyfredol. Nid wyf yn barod i gefnogi'r gwelliant hwnnw nes yr eglurir y rhain.

Y Llywydd: Galwaf ar Dai Lloyd i gynnig

The Presiding Officer: I call Dai Lloyd to

gwelliant 3.

Brian Gibbons: Point of order. There is a discrepancy between the amendments on the Chamberweb and what David has spoken about. The hard copy that we received this morning varies from what is on the Chamberweb.

The Presiding Officer: There does not appear to be a discrepancy on my Chamberweb. If you have a hard copy you must ensure that you print the latest edition on the intranet. Amendments can appear initially on the intranet in the form in which they were originally tabled and accepted by the Table Office. When it comes to selection, they are placed in the order in which they are relevant to the text. [*Interruptions.*] I cannot take three Members at once. If you want to make a point of order, David, I will have to ask Dai Lloyd to sit on the front bench briefly.

David Melding: I am grateful for your indulgence on this matter. I apologise if my papers are not the latest version because this is confusing. To clarify the point, as Kirsty Williams has first told me, the amendment moved by the Liberal Democrats relating to an extra clause between bullet points two and three of the motion has been withdrawn. We will obviously not abstain on that. We will support amendment 4 and abstain on amendment 3.

David Lloyd: Yr oeddwn wedi cael hyd i sedd gyfforddus ar y fainc flaen—paratoi'r ffordd.

Cynigiaf welliant 3. At y trydydd cymal, ychwaneger

ac i'r diben hwn, yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddatblygu'r agweddau hynny ar Ddeddf Iechyd 1999 nad ydynt yn ymateb yn ddigonol i anghenion Cymru.

Yn naturiol, yr ydym yn croesawu llawer o gynnwys Deddf Iechyd 1999 gan eu bod yn ddigon teg. Croesawn ddiwedd y drefn cyllidebau meddygon teulu. Croesawn hefyd bartneriaeth, yn enwedig y bartneriaeth rhwng iechyd a gwasanaethau cymdeithasol.

propose amendment 3.

Brian Gibbons: Pwynt o drefn. Mae anghysondeb rhwng y gwelliannau ar we'r Siambr a'r hyn y siaradodd David amdano. Mae'r copi caled a dderbyniasom fore heddiw yn wahanol i'r hyn sydd ar we'r Siambr.

Y Llywydd: Nid yw'n ymddangos bod anghysondeb ar y we Siambr sydd gennyf fi. Os oes gennych gopi caled rhaid ichi sicrhau eich bod yn argraffu'r fersiwn diweddaraf sydd ar y fewnrwyd. Gall gwelliannau ymddangos yn gyntaf ar y fewnrwyd ar y ffurf y'u cyflwynwyd yn wreiddiol ac fel y'u derbyniwyd gan y Swyddfa Gyflwyno. Pan ddaw'n fater o ddethol, fe'u rhoddir yn nhrefn eu perthnasedd i'r testun. [*Ymyriadau.*] Ni allaf dderbyn tri Aelod yr un pryd. Os ydych am godi pwynt o drefn, David, gofynnaf i Dai Lloyd eistedd ar y fainc flaen am ychydig.

David Melding: Diolchaf i chi am eich goddefgarwch ar y mater hwn. Ymddiheuraf os nad yw fy mhapurau yn y fersiwn diweddaraf oherwydd mae hyn yn ddyrys. Os caf egluro'r mater, fel y dywedodd Kirsty Williams wrthyf yn gyntaf, mae'r gwelliant a gyflwynwyd gan y Democratiaid Rhyddfrydol ynghylch cymal ychwanegol rhwng pwyntiau bwled dau a thri yn y cynnig wedi ei dynnu'n ôl. Mae'n amlwg na fyddwn yn ymatal ar hynny. Cefnogwn welliant 4 ac ymataliwn ar welliant 3.

David Lloyd: I had found a comfortable seat on the front bench—preparing the way.

I propose amendment 3. To the third clause, add

and to this end calls on the Government of Wales to develop those aspects of the Health Act 1999 which do not respond adequately to the needs of Wales.

Naturally, we welcome a great deal of the Health Act 1999's contents because it is fair enough. We welcome the abolition of GP fundholding. We also welcome partnership, especially the partnership between health and social services. That has not been seen in the

Ni welwyd hynny yn y gorffennol; cawsom weithwyr cymdeithasol llywodraeth leol yn gwneud yr un math o waith ag ymwelwyr iechyd y gwasanaeth iechyd ac yn aml yn ymdrin â'r un bobl. Nid yw dyblygu gwaith yn y modd hwn yn synhwyrol pan fo adnoddau yn brin. Partneriaeth yw'r dewis synhwyrol a chroesawn hynny.

Amendment 3 emphasises the need for a specifically Welsh agenda. The main points of the Health Act 1999 are to end GP fundholding, the introduction of primary care trusts, the establishment of the Commission for Health Improvement, new flexibilities between health and local authorities including health improvement programmes and a new duty of quality. Those are commendable points. However, they all come within an England and Wales bracket. Whatever your opinion on that may be, Wales has ended up with the worst health statistics in the UK. We have 18 per cent more heart disease, 10 per cent more cancers and our life expectancy is a year less than in England. We are patently not doing well out of the current arrangements. This could be changed in part by increased spending, as we debated last week. We must also change the way we spend money. Plaid Cymru favours spending less money on administrative structures and more on direct patient care.

Plaid Cymru welcomes the end of GP fundholding. However, we are unhappy that there are three tiers of health service administration for any geographical point in Wales, even though the health budget is insufficient. Health authorities, trusts and local health groups are all given a budget and a bureaucracy to decide healthcare priorities for the same geographical areas. If we had enough money, I would agree with having three tiers of sophisticated administration with audits, clinical feedback and clinical governance. However, in my medical surgery I see people in pain stuck on waiting lists as there is insufficient money to treat them straight away. They have to wait for months to have new hips or to have their cataracts removed while we have three layers of sophisticated health service administration. My patients ask me why they must wait in

past; we found that local government social workers were carrying out the same kind of work as the health service's health visitors and were often dealing with the same people. Duplicating work in this manner is not sensible when resources are scarce. Partnership is the sensible option and we welcome that.

Mae gwelliant 3 yn pwysleisio'r angen am agenda benodol Gymreig. Prif bwyntiau'r Ddeddf Iechyd 1999 yw terfynu'r drefn cyllidebau meddygon teulu, cyflwyno ymddiriedolaethau gofal sylfaenol, sefydlu'r Comisiwn Gwella Iechyd, hyblygrwydd newydd rhwng awdurdodau iechyd ac awdurdodau lleol sydd yn cynnwys rhaglenni gwella iechyd a dyletswydd newydd ynghylch ansawdd. Mae'r rhain yn bwyntiau canmoladwy. Fodd bynnag, maent oll yn dod o fewn cwrpas Cymru a Lloegr. Beth bynnag yw'ch barn am hynny, mae Cymru wedi ei gadael â'r ystadegau iechyd gwaethaf yn y DU. Mae gennym 18 y cant yn fwy o glefyd y galon, 10 y cant yn fwy o ganserau ac mae ein disgwyliad einioes flwyddyn yn llai nag yn Lloegr. Mae'n amlwg nad ydym yn elwa o'r trefniadau presennol. Gellid newid hynny'n rhannol drwy gynyddu gwariant, fel y trafodasom yr wythnos diwethaf. Rhaid inni hefyd newid y dull y gwariwn arian. Mae Plaid Cymru yn ffafrio gwario llai o arian ar strwythurau gweinyddol a mwy ar ofal uniongyrchol i gleifion.

Mae Plaid Cymru'n croesawu diwedd y drefn cyllidebau meddygon teulu. Fodd bynnag, yr ydym yn anfodlon bod tair lefel o weinyddiaeth yn y gwasanaeth iechyd ar gyfer pob pwynt daearyddol yng Nghymru, er bod y gyllideb iechyd yn annigonol. Bydd awdurdodau iechyd, ymddiriedolaethau a grwpiau iechyd lleol oll yn derbyn cyllideb a biwrocratiaeth i benderfynu blaenoriaethau gofal iechyd ar gyfer yr un ardaloedd daearyddol. Pe bai gennym ddigon o arian, cytunwn y dylem gael tair lefel o weinyddiaeth soffistigedig gydag archwiliadau, adborth clinigol a rheolaeth glinigol. Fodd bynnag, yn fy meddygfa i gwelaf bobl mewn poen a gaiff eu rhoi ar restrau aros gan nad oes digon o arian i'w trin ar unwaith. Rhaid iddynt aros am fisoedd i gael cluniau newydd neu i gael codi pilen oddi ar eu llygad a ninnau â thair lefel o

pain for a new hip, while three separate structures of health service administration exist.

Wales has the worst health statistics because we follow a London agenda which fails us repeatedly. That is why we have proposed the amendment on developing a Welsh flavour to the Health Act which is now in force. As a member of the Legislation Committee, I am used to debating Acts that are already in force. Local health groups and merged trusts came into existence on 1 April, a month before the Assembly. The number of trusts has been reduced from 31 to 15. However, crucially, we still have these quango trusts. The Health Act discusses the possible metamorphosis of our 22 local health groups into primary care trusts. This creates an additional 22 trusts giving a total of 37, more than the Conservatives managed to create in our fair land.

I dislike the repeated emphasis on primary care trusts in the Health Act. It is difficult to see how they can be created in Wales. As part of re-merging trusts we merged our community trusts with our acute trusts. In order to forge primary care trusts with the GPs we would have to demerge those trusts, bringing the community aspect out again. There is a lack of clarity in the forward thinking there: still wanting to create primary care trusts, having just merged the community and secondary care aspects.

I also have a problem with the regulation of the profits and prices of the large pharmaceutical companies. That remains on an England and Wales basis in this Health Act. In Wales, 11 per cent of our NHS budget covers expenditure on prescription drugs. Therefore, even though we have a separate health White Paper for Wales and the Assembly is supposed to be in charge of the NHS in Wales, 11 per cent of the budget will be decided elsewhere.

weinyddiaeth gwasanaeth iechyd soffistigedig. Bydd fy nghleifion yn gofyn i mi pam y maent yn gorfod aros mewn poen am glun newydd, tra ceir tri strwythur gwahanol o weinyddiaeth yn y gwasanaeth iechyd.

Mae'r ystadegau iechyd gwaethaf gan Gymru am ein bod yn dilyn agenda Llundain sydd yn ein siomi dro ar ôl tro. Dyna pam yr ydym wedi cynnig y gwelliant ar ddatblygu naws Gymreig i'r Ddeddf Iechyd sydd bellach mewn grym. Fel aelod o'r Pwyllgor Deddfau, yr wyf wedi arfer â thrafod Deddfau sydd eisoes mewn grym. Daeth y grwpiau iechyd lleol a'r ymddiriedolaethau cyfunedig i fodolaeth ar 1 Ebrill, fis o flaen y Cynulliad. Mae nifer yr ymddiriedolaethau wedi disgyn o 31 i 15. Fodd bynnag, ac mae hyn o'r pwys mwyaf, mae'r ymddiriedolaethau cwango hyn gennym o hyd. Mae'r Ddeddf Iechyd yn trafod y posibilïad o drawsnewid y 22 o grwpiau iechyd lleol yn ymddiriedolaethau iechyd sylfaenol. Mae hyn yn creu 22 o ymddiriedolaethau ychwanegol gan roi cyfanswm o 37, mwy na'r nifer y llwyddodd y Cediwadwyr i'w creu yn ein hannwyl wlad.

Nid wyf yn hoff o'r pwyslais parhaus ar ymddiriedolaethau gofal sylfaenol sydd yn y Ddeddf Iechyd. Mae'n anodd gweld sut y gellir eu creu yng Nghymru. Wrth ailgyfuno ymddiriedolaethau cyfunasom yr ymddiriedolaethau cymunedol â'r ymddiriedolaethau aciwt. Er mwyn inni ffurfio ymddiriedolaethau gofal sylfaenol gyda'r meddygon teulu byddai'n rhaid inni ddadgyfuno'r ymddiriedolaethau hynny, gan ailamlygu'r agwedd gymunedol. Mae yma ddiffyg eglurder wrth feddwl am y dyfodol: dymuno creu ymddiriedolaethau iechyd sylfaenol o hyd, ar ôl cyfuno'r agweddau cymunedol a gofal eilaidd.

Yr wyf yn anfodlon hefyd â rheoleiddio elw a phrisiau cwmnïau fferyllol mawr. Mae hyn yn dal i fod ar sail Cymru a Lloegr yn y Ddeddf Iechyd hon. Yng Nghymru, mae 11 y cant o'n cyllid NHS yn cynnwys gwariant ar gyffuriau ar bresgripsiwn. Felly, er bod gennym Bapur Gwyn ar iechyd ar wahân i Gymru ac er bod y Cynulliad i fod yn gyfrifol am yr NHS yng Nghymru, penderfynir ar 11 y cant o'r gyllideb mewn lle arall.

We would also like to see a far stronger Welsh voice in the Commission for Health Improvement. I have argued for a Welsh commission for health improvement along the lines of a Welsh version of the National Institute for Clinical Excellence. If we are completely in control of the national health service in Wales, our regulatory frameworks should be under the complete control of the Assembly, not a branch controlled from elsewhere. That is what I mean, David, by strengthening the Welsh agenda. I hope that clarifies some of the muddy waters, but doubtless you will still be abstaining.

3:19 p.m.

David Melding: I am happy to clarify that we would have voted against you if that had been made clearer in your amendment.

David Lloyd: I am always glad to receive an intervention from one of the minor parties. Pooled budgets and co-operation between health and social services are excellent ideas in theory. We have a slight problem in putting them into practice. We do not want to see lead commissioners from, for example, social services deciding that one of their clients needs physiotherapy, which up until now has been a health service provision, and charging that client for the service. Social services usually decide that there is a cost element involved in providing for people and up until now physiotherapy has been free. Many of us are looking for a guarantee that, where budgets are pooled and where normal health service provision is decided by social services, there is no cost element for the client. Quite a few people in health and social services circles have told me that they have pooled deficits rather than pooled budgets. That is a separate issue.

I am a clinician and I am concerned about these worst health statistics and what we can do about them. We need to spend more on direct patient care in Wales. That should be another element of a Welsh health agenda. We need to spend more on heart disease because we have more heart disease, yet we

Byddem hefyd yn hoffi cael llais cryfach o Gymru yn y Comisiwn Gwella Iechyd. Dadleuais o blaid comisiwn gwella iechyd i Gymru ar ffurf fersiwn Cymreig o'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol. Os oes gennym reolaeth lwyr dros y gwasanaeth iechyd gwladol yng Nghymru, dylai'r fframweithiau rheoleiddio fod o dan reolaeth lwyr y Cynulliad, ac nid cangen wedi ei rheoli o rywle arall. Dyna'r hyn a olygaf, David, wrth gryfhau'r agenda Gymreig. Gobeithiaf fod hynny'n egluro'r pethau niwlog, ond mae'n siŵr y byddwch am ymatal o hyd.

David Melding: Yr wyf yn falch o egluro y byddem wedi pleidleisio yn eich erbyn pe bai hynny'n gliriach yn eich welliant.

David Lloyd: Byddaf bob amser yn falch o dderbyn ymyriad gan un o'r pleidiau llai. Mae cyllidebau ar y cyd a chydweithredu rhwng gwasanaethau iechyd a chymdeithasol yn syniadau rhagorol yn ddamcaniaethol. Cawn broblem fechan wrth eu gweithredu. Nid ydym am weld comisiynwyr arweiniol o'r gwasanaethau cymdeithasol, er enghraifft, yn penderfynu bod ar un o'u clientiaid angen ffisiotherapi, sydd hyd yma'n ddarpariaeth gan y gwasanaeth iechyd, ac yn codi tâl ar y client am y gwasanaeth hwnnw. Fel arfer bydd gwasanaethau cymdeithasol yn penderfynu bod elfen gostau'n gysylltiedig â darparu i bobl a hyd yn hyn mae ffisiotherapi'n rhad ac am ddim. Mae llawer ohonom yn ceisio sicrwydd na fydd elfen gostau i'r client pan gyfunir cyllidebau a phan benderfynir ar ddarpariaeth arferol y gwasanaeth iechyd gan wasanaethau cymdeithasol. Mae cryn nifer o bobl ym myd iechyd a gwasanaethau cymdeithasol wedi dweud wrthyf mai diffyg ar y cyd sydd ganddynt yn hytrach na chyllidebau ar y cyd. Mae hynny'n fater ar wahân.

Yr wyf yn glinigwr ac yr wyf yn bryderus ynghylch yr ystadegau iechyd gwaethaf hyn a'r hyn y gallwn ei wneud yn eu cylch. Dylem wario mwy ar ofal uniongyrchol i gleifion yng Nghymru. Dylai hynny fod yn elfen arall ar agenda iechyd Gymreig. Dylem wario mwy ar glefyd y galon am fod gennym

are losing cardiac surgeons. We need to spend more on transplants, yet we are losing transplant surgeons. We need to spend more on cancer care. Health spending is not a bottomless pit, as I said last week. There is a measurable pit of health service need, clinical need and illness need that is not being met at the moment. Our cancer statistics are among the worst in Europe because we do not spend enough money on cancer treatments. We spend less on chemotherapy than we do on laxatives.

Ron Davies: I am intrigued at the comparison you make, Dai, between the statistics for Wales and England. That covers up the discrepancies that exist in healthcare in England. I am surprised that you seem to advocate that we should just spend more money as a solution to our problems. You used the examples of cancer and heart disease and claimed that the solution was to spend more money on treatment of cancer and heart disease. It seems that you advocate an illness service, not a health service. We should be taking a more holistic view of the health of the nation. We should be concentrating on the causes of ill-health, such as unemployment, poor housing, poor environment and lack of education and opportunities and so on. One matter that the Assembly must face in the delivery of health is creating a health service rather than an illness service. If that is to be the case, we need a new approach to the delivery of healthcare and not just to rely on spending more money on individual services.

David Lloyd: I agree with that philosophy. However, we are discussing the Health Act this afternoon, and specifically what we can do about the illness treatment sector of the health service. We need the wider scope you mention, but at the moment we do not have enough money to treat illness, let alone to promote health. As we heard last week, health promotion is important to us. That is why we advocate free eye and dental checks and so on, including being far more savage about smoking. That is a separate issue, possibly for another day. At the moment we cannot treat the illness that we must. We have

fwy o glefyd y galon, ond yr ydym yn colli llawfeddygon y galon. Dylem wario mwy ar drawsblannu, ond yr ydym yn colli llawfeddygon trawsblannu. Dylem wario mwy ar ofal cancer. Nid yw'r gwariant ar ieched yn bwl diwaelod, fel y dywedais yr wythnos diwethaf. Mae pwll mesuradwy o angen am wasanaeth ieched, angen clinigol ac angen o ran salwch nad yw'n cael ei gyflenwi ar hyn o bryd. Mae ein hystadegau cancer ymysg y gwaethaf yn Ewrop am nad ydym yn gwario digon ar driniaethau cancer. Gwariwn lai ar gemotherapi nag a wariwn ar foddion gweithio.

Ron Davies: Yr wyf yn cael y gymhariaeth a dynnwch, Dai, rhwng ystadegau ar gyfer Cymru a rhai ar gyfer Lloegr yn ddiddorol iawn. Mae hynny'n cuddio'r anghysonderau a geir mewn gofal ieched yn Lloegr. Synnaf eich bod fel petaech yn dadlau na ddylem wneud dim ond gwario mwy o arian fel ateb i'n problemau. Yr oeddech yn defnyddio ganser a chlefyd y galon yn enghreifftiau gan honni mai'r ateb oedd gwario mwy o arian ar drin cancer a chlefyd y galon. Mae'n ymddangos eich bod yn dadlau dros wasanaeth afieched, nid gwasanaeth ieched. Dylem fabwysiadu safbwynt mwy cyfannol at ieched y genedl. Dylem ganolbwyntio ar achosion afieched, fel diweithdra, tai gwael, amgylchedd gwael a diffyg addysg a chyfleoedd ac yn y blaen. Un mater y bydd yn rhaid i'r Cynulliad ei wynebu wrth ddarparu ar gyfer ieched yw creu gwasanaeth ieched yn hytrach na gwasanaeth afieched. Os yw hynny i ddigwydd, bydd yn rhaid inni sicrhau ymagwedd newydd at ddarparu gofal ieched a pheidio â dibynnu'n unig ar wario mwy o arian ar wasanaethau unigol.

David Lloyd: Cytunaf â'r athroniaeth honno. Fodd bynnag, yr ydym yn trafod y Ddeddf Ieched y prynhawn yma, ac yn benodol yr hyn y gallwn ei wneud ynghylch sector trin afieched y gwasanaeth ieched. Mae arnom angen y cwmplas ehangach yr ydych yn sôn amdano, ond ar hyn o bryd nid oes gennym ddigon o arian i drin salwch, heb sôn am hybu ieched. Fel y clywsom yr wythnos diwethaf, mae hybu ieched yn bwysig inni. Dyna pam yr ydym yn dadlau dros beidio â chodi tâl am brofion llygaid a gwiriadau deintyddol ac yn y blaen, a bod yn llawer mwy llym ynghylch ysmegu. Mae hynny'n

to ration care. That is the daily reality of being a doctor. We have to decide who can have treatment. Although many people are ill not all of them can be treated the same day. That is the reality of an illness service. A health service should be an all-embracing concept, but we have not seen utopia just yet.

Last week's health motion saw clear divide between how we see the way forward in Plaid Cymru as regards the NHS and how others see it. The NHS needs to have a Welsh community focus. We do not have a network of district general hospitals in Wales. We need to have a NHS based on the network of our community hospitals, enhanced and strengthened in their role with modern fibre optic telemedicine communications to areas of excellence. That is our specifically Welsh way forward because a network of community hospitals exists, provided we can stop anybody closing any more of them. We then retain the network that we already have. That is the specific Welsh agenda that was lost last week when Jane and David and their colleagues voted against that idea and supported increasing centralisation based on the trainee needs of the Royal College of Surgeons. They felt that the health service would benefit if their surgeons were trained in district general hospitals with a catchment population of 0.5 million. Other royal colleges, particularly the Royal College of General Practitioners, reject that argument. Why we have to base the future of the NHS on increasing centralisation and on the view of one royal college escapes me. We need a Welsh agenda, not centralisation. We need to care for people in their community and spend money on treatments for patients. Support the amendment.

Kirsty Williams: I propose amendment 4. At the end of the motion add:

this Assembly further expresses its support for the extension of the remit of the proposed Commission for Health Improvement to

fater ar wahân, ac un ar gyfer diwrnod arall efallai. Ar hyn o bryd ni allwn drin y salwch y dylem ei drin. Yr ydym yn gorfod dogni gofal. Sefyllfa felly y bydd meddyg yn ei hwynebu bob dydd. Rhaid inni benderfynu pwy a gaiff ei drin. Er bod llawer o bobl yn sâl, ni ellir trin pob un ohonynt yr un diwrnod. Dyna'r gwir am wasanaeth afiechyd. Dylai gwasanaeth iechyd fod yn syniad hollgynhwysol, ond ni welsom y gwynfyd eto.

Yn y cynnig ar iechyd yr wythnos diwethaf gwelwyd gwahaniaeth pendant rhyngom ni ym Mhlaid Cymru a'r lleill o ran y ffordd ymlaen a welwn i'r NHS. Mae angen i'r NHS gael ffocws cymunedol Cymreig. Nid oes gennym rwydwaith o ysbytai cyffredinol dosbarth yng Nghymru. Mae arnom angen NHS sydd yn seiliedig ar y rhwydwaith o ysbytai cymunedol sydd gennym, a'r rhain wedi eu gwella a'u hatgyfnerthu yn eu rôl drwy gysylltiadau ffibrau opteg telefeddygol modern â mannau o ragoriaeth. Dyna'r ffordd arbennig Gymreig ymlaen oherwydd ceir rhwydwaith o ysbytai cymunedol, ar yr amod y gallwn atal pobl rhag cau mwy ohonynt. Byddwn wedyn yn cadw'r rhwydwaith sydd gennym eisoes. Dyna'r agenda arbennig Gymreig a gollwyd yr wythnos diwethaf pan bleidleisiodd Jane a David a'u cyd Aelodau yn erbyn y syniad hwnnw a chefnogi'r canoli cynyddol sydd yn seiliedig ar anghenion hyfforddi Coleg Brenhinol y Llawfeddygon. Yr oeddent hwy'n teimlo y byddai'r gwasanaeth iechyd ar ei ennill pe câi eu llawfeddygon eu hyfforddi mewn ysbytai cyffredinol dosbarth oedd â dalgylch o 0.5 miliwn o bobl. Mae colegau brenhinol eraill, yn enwedig Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol, yn gwrthod y ddadl honno. Ni allaf ddeall pam y mae'n rhaid inni seilio dyfodol yr NHS ar ganoli cynyddol ac ar farn un coleg brenhinol. Mae arnom angen agenda Gymreig, nid canoli. Mae arnom angen gofal i bobl yn eu cymuned a gwariant ar driniaethau i gleifion. Cefnogwch y gwelliant.

Kirsty Williams: Cynigiau welliant 4. Ar ddiwedd y cynnig ychwaneger:

mae'r Cynulliad yn mynegi ei gefnogaeth ymhellach i ymestyn cwmpas gwaith y Comisiwn Gwella Iechyd arfaethedig er

encompass the private health sector in addition to the NHS.

Thank you for the opportunity to contribute to this debate on an important piece of health legislation. It is a piece of legislation that will play a vital role in tackling the ill-health of the people of Wales, inequalities between communities in Wales and achieving a health service of the quality that the people of Wales hope to receive. It sees the beginning of the breaking down of the artificial barriers that have existed between health and social care, and the establishment of a new spirit of co-operation and partnership. It combines the knowledge, expertise and experience of clinicians and other allied professions, the local authorities, the voluntary sector and, most importantly, the patients of Wales. It offers the opportunity for all these partners to develop innovative ways of working together and sharing resources—a far cry from the empire building that the old regime encouraged. It provides an opportunity to tackle some of the problems with which clinicians and social care workers have been grappling for many years.

The Act offers the opportunity to end the problems of bed blocking and of vulnerable people and their carers falling through the net following their discharge from hospital. Health and social care patterns and services can be developed that reflect, Dai, not only a Welsh perspective but the varying community needs within Wales, urban and rural, those with high levels of deprivation and those that are comparatively well-off. I, like Jane, do not mourn the passing of GP fundholding that this Act heralds. It had the effect, David, of bureaucratising the service whether in GP practices or health authorities. Extra managers had to be employed to deal with contracts at both ends. Those costs were often hidden because they were spread so widely across Wales they were not evident. The reality for patients was a two tier system and the reality for the staff and personnel of the NHS was that they were set against each other as they battled for business.

Jane talked of partnership. The structures that

mwyn cwmpasu'r sector iechyd preifat yn ogystal â'r NHS.

Diolch am y cyfle i gyfrannu i'r ddadl hon ar ddeddf iechyd o bwys. Mae'n ddeddf a fydd yn chwarae rôl holl bwysig wrth fynd i'r afael ag afiechyd pobl Cymru, annhegwch rhwng cymunedau yng Nghymru ac wrth sicrhau gwasanaeth iechyd o ansawdd sydd yn cyflawni gobeithion pobl Cymru. Mae'n nodi'r dechrau ar chwalu'r rhwystrau ffug a fu rhwng gofal iechyd a gofal cymdeithasol, a sefydlu ysbryd newydd o gydweithrediad a phartneriaeth. Mae'n cyfuno'r wybodaeth, yr arbenigedd a'r profiad sydd gan glinigwyr a phroffesiynau cysylltiedig eraill, yr awdurdodau lleol, y sector gwirfoddol ac, yn bwysicaf oll, cleifion Cymru. Mae'n cynnig cyfle i'r holl bartneriaid hynny ddatblygu dulliau arloesol o gydweithio a rhannu adnoddau—sydd yn fyd o wahaniaeth o'r ehangu terfynau a ffafrwyd gan yr hen gyfundrefn. Mae'n rhoi cyfle i ymdrin â rhai o'r problemau y mae clinigwyr a gweithwyr gofal cymdeithasol yn ymgodymu â hwy ers blyneddau lawer.

Mae'r Ddeddf yn cynnig cyfle i ddatrys problemau sydd yn ymwneud â blocio gwelyau a phobl agored i niwed a'u gofalgwyr yn disgyn drwy'r rhwyd ar ôl eu rhyddhau o ysbyty. Gellir datblygu patrymau a gwasanaethau gofal iechyd a chymdeithasol sydd nid yn unig yn adlewyrchu safbwynt Cymreig, Dai, ond y gwahanol anghenion cymunedol oddi mewn i Gymru, ardaloedd trefol a gwledig, rhai â lefelau uchel o amddifadedd a rhai sydd yn gymharol lewyrchus. Fel Jane, nid wyf finnau'n gofidio am dranc y drefn cyllidebau meddygon teulu a gyhoeddir yn y Ddeddf hon. Ei heffaith, David, oedd biwrocrateiddio'r gwasanaeth boed ym mhactisiau meddygon teulu neu mewn awdurdodau iechyd. Bu'n rhaid cyflogi rheolwyr ychwanegol i ddelio â'r contractau yn y ddau ben. Yr oedd y costau hynny wedi eu cuddio'n aml, am eu bod wedi eu lledaenu ar draws Cymru. Y realiti i gleifion oedd system ddwy lefel a'r realiti i staff a phersonél yr NHS oedd eu bod wedi eu rhoi yn erbyn ei gilydd wrth iddynt ymladd am fusnes.

Soniodd Jane am bartneriaeth. Mae'r

we are discussing today involve a wide range of people in developing health and social care patterns for the people of Wales. However, they are limited and I would like to highlight three particular cases. I am concerned, as are my Liberal Democrat colleagues, about the ending of the statutory requirement for joint consultative committees. We have not allowed the local health groups to prove whether they are willing to listen and take on board the concerns of the voluntary sector and patients. It is difficult for that to happen when you have only one lay representative and one voluntary representative on a local health group. However, I accept that it is early days and that we must allow local health groups to find their feet. However, with the passing of the JCC, we must take particular care to ensure that the views of patients and the voluntary sector are considered.

3:29 p.m.

David's amendment 2 refers to the place of nurses on the executive of the local health groups. I acknowledge, Jane, that nurses are on local health groups by right and, that nurses are already members of many executives. However, considering that nurses deliver the majority of care in the community, it is not a ridiculous request to suggest that nurses should be guaranteed a place on the executive of the local health groups so that their contribution can be at the forefront of the development of the health improvement programmes. We shall support David's amendment but we will keep an eye on whether there is an opportunity to change the structure of the local health group to incorporate a dedicated place for a nurse on the executive.

I would also like to mention the position of professions allied to medicine. Our original intention, David, was not for professions allied to medicine to be on the executive but on the local health group in general. They provide many services to the community such as occupational therapy and physiotherapy. It is remiss not to include them in planning services within their communities. In addition

strwythurau yr ydym yn eu trafod heddiw yn cynnwys amrywiaeth eang o bobl yn y broses o ddatblygu patrymau gofal iechyd a chymdeithasol i bobl Cymru. Fodd bynnag, mae'r rhain yn gyfyngedig a hoffwn dynnu sylw at dri achos penodol. Yr wyf yn bryderus, fel fy nghyd-Aelodau Democrataidd Rhyddfrydol, ynghylch terfynu'r gofyniad statudol am gyd-bwyllgorau ymgynghorol. Nid ydym wedi gadael i'r grwpiau iechyd lleol brofi a ydynt yn barod i wrando a rhoi ystyriaeth i bryderon y sector gwirfoddol a'r cleifion. Mae'n anodd i hynny ddigwydd pan nad oes gennych ond un cynrychiolydd lleyg ac un cynrychiolydd o'r sector gwirfoddol ar grŵp iechyd lleol. Fodd bynnag, derbynïaf nad ydynt ond megis dechrau a bod rhaid inni adael i grwpiau iechyd lleol gael eu cefn atynt. Fodd bynnag, gyda diwedd y cyd-bwyllgorau ymgynghorol, rhaid inni fod yn arbennig o ofalus i sicrhau y rhoddir ystyriaeth i farn y cleifion a'r sector gwirfoddol.

Mae gwelliant 2 a gynigiwyd gan David yn cyfeirio at le nyrsys ar bwyllgor gweithredol y grwpiau iechyd lleol. Yr wyf yn derbyn, Jane, fod nyrsys ar y grwpiau iechyd lleol drwy hawl a bod nyrsys eisoes yn aelodau o lawer o bwyllgorau gweithredol. Fodd bynnag, o ystyried mai nyrsys sydd yn darparu'r rhan fwyaf o ofal yn y gymuned, nid yw'n gais afresymol i awgrymu y dylid gwarantu lle i nyrsys ar bwyllgor gweithredol y grwpiau iechyd lleol fel y gall eu cyfraniad gael lle blaenllaw yn natblygiad y rhaglenni gwella iechyd. Cefnogwn welliant David ond byddwn yn effro i gyfleoedd i newid strwythur y grŵp iechyd lleol er mwyn cynnwys lle penodol i nyrs ar y pwyllgor gweithredol.

Hoffwn sôn hefyd am sefyllfa'r proffesiynau sydd yn gysylltiedig â meddygaeth. Ein bwriad gwreiddiol, David, oedd na fyddai'r proffesiynau sydd yn gysylltiedig â meddygaeth ar y pwyllgor gweithredol ond ar y grŵp iechyd lleol yn gyffredinol. Darparant lawer o wasanaethau i'r gymuned fel therapi galwedigaethol a ffisiotherapi. Mae'n ddiogel peidio â'u cynnwys wrth gynllunio

to reviewing the position of nurses on the executive, Jane, perhaps you will give us a commitment today to review the position of professions allied to medicine and their inclusion in the local health groups.

I now turn to the amendment. I welcome the establishment of the Commission for Health Improvement. I am aware that its remit does not include private medicine nor services delivered in a private setting, and that is the reason for my moving this amendment today. All patients in Wales, whether treated in the NHS or the private sector, have the right to know that they have quality guarantees in whichever avenue of treatment they choose to pursue. At present that does not happen.

It is true, Jane, that we do not have the power to do this in the Health Act. However, the amendment asks this Assembly to support the notion that CHI should have this extended role, so that people, regardless of the setting in which they receive their care, know that it is of a high quality. At present, the private sector is monitored by the medical advisory committees but their role is a limited one. Many of the organisations are not properly constituted and the powers of the chairs of the medical advisory committees are often limited. Therefore, there is a glaring gap at the moment in advancing the quality agenda given that we are not addressing the private sector.

David Melding: It contradicts the principle now adopted for social care. There will be a commission with the right to examine standards in social care whether that is provided publicly or through private enterprise.

Kirsty Williams: Thank you, David, for that relevant point. In the Health and Social Services Committee, we have discussed the Commission for Care Standards, which, as David rightly says, covers private and public care settings. It is incongruous that we do not expect the same standards within the NHS. I hope that Members will consider the amendment closely and send a message back

gwasanaethau oddi mewn i'w cymunedau. Yn ogystal ag adolygu lle nyrsrs ar y pwyllgor gweithredol, Jane, efallai y byddwch cystal â rhoi ymrwymiad heddiw i adolygu sefyllfa'r proffesiynau sydd yn gysylltiedig â meddygaeth a'u lle yn y grwpiau iechyd lleol.

Trof yn awr at y gwelliant. Croesawaf sefydlu'r Comisiwn Gwella Iechyd. Gwn nad yw ei gylch gwaith yn cynnwys meddygaeth breifat na gwasanaethau a gyflenwir mewn lleoliad preifat, a dyna'r rheswm pam yr wyf yn rhoi'r gwelliant hwn ger eich bron heddiw. Mae hawl gan bob claf yng Nghymru, pa un a gaiff ei drin yn yr NHS neu yn y sector preifat, i wybod bod ganddo warantau ansawdd ym mha bynnag lwybr o driniaeth a ddewisant. Nid yw hynny'n digwydd ar hyn o bryd.

Mae'n wir, Jane, nad oes gennym y pŵer i wneud hyn yn y Ddeddf Iechyd. Fodd bynnag, mae'r gwelliant yn gofyn i'r Cynulliad hwn gefnogi'r syniad y dylai'r Comisiwn Gwella Iechyd gael y rôl estynedig hon, fel bod pobl, beth bynnag fo'r lleoliad lle y derbyniant ofal, yn gwybod ei fod o ansawdd uchel. Ar hyn o bryd, caiff y sector preifat ei fonitro gan y pwyllgorau ymgynghorol meddygol ond mae eu rôl yn gyfyngedig. Ceir llawer o gyrff nad ydynt wedi eu cyfansoddi'n briodol ac mae pwerau cadeiryddion y pwyllgorau ymgynghorol meddygol yn gyfyngedig mewn llawer achos. Felly, mae bwlch amlwg ar hyn o bryd yn y broses o hyrwyddo'r agenda iechyd am nad ydym yn ymdrin â'r sector preifat.

David Melding: Mae'n groes i'r egwyddor a fabwysiadwyd bellach ar gyfer gofal cymdeithasol. Ceir comisiwn â'r hawl i archwilio safonau mewn gofal cymdeithasol pa un a ddarperir hynny'n gyhoeddus neu drwy fenter breifat.

Kirsty Williams: Diolch, David, am y pwynt perthnasol hwnnw. Yn y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, yr ydym wedi trafod y Comisiwn ar gyfer Safonau Gofal sydd, fel y dywed David yn gywir, yn cynnwys lleoliadau gofal preifat a gofal cyhoeddus. Mae'n anghyson nad ydym yn disgwyl yr un safonau yn yr NHS. Gobeithiaf y bydd yr Aelodau'n ystyried y gwelliant yn

to London that the Assembly believes that the Commission for Health Improvement should be extended to incorporate both private and public health services. Even the former Secretary of State for Health, Frank Dobson admitted this year that there was much work to be done in this area and that current provisions were unsatisfactory. The Health Act offers us a great opportunity to tackle Wales's health problems.

In conclusion, while the structures and personnel may be in place, resources are needed to get the job done successfully. Local health groups, joint commissioning or lead commissioning will not happen successfully unless there are adequate funds to let the NHS and social care personnel do their job.

Geraint Davies: Mae nifer o feysydd yn y Ddeddf hon sydd yn rhoi rhwydd hynt i'r Cynulliad lunio deddfwriaeth eilaidd. Mae Plaid Cymru yn croesawu hyn. Mae'n hanfodol fod y Cynulliad yn cwrdd â disgwyliadau pobl Cymru. Mae'n angenrheidiol, felly, ein bod yn defnyddio ein pwerau datganoledig i'r eithaf i wella iechyd pobl Cymru ac i bontio'r gagendor rhwng gwahanol ardaloedd iechyd yng Nghymru.

Yr ydym o blaid gwelliant Kirsty Williams ynglŷn ag ehangu rôl y Comisiwn Gwella Iechyd. Nid wyf yn gefnogol i ofal iechyd preifat ond mae'n rhaid ei reoli. Er hynny, ceir manau yn y Ddeddf sydd yn annerbyniol. Pam nad oes gan y Cynulliad yr hawl i reoli prisiau ac elw'r cwmnïau fferyllol sydd yn cyfrannu 11 y cant o'r cyllid iechyd—swm o £300 miliwn?

Ar hyn o bryd nid oes gennym bŵer i rwystro'r cwmnïau fferyllol rhag defnyddio cyffuriau generig rhad a rheoli'r farchnad. Mae hyn yn golygu nad allwn barhau â'n cynlluniau i greu fformwla gyffuriau ar gyfer Cymru. Mae prisiau rhai cyffuriau generig wedi cynyddu ddengwaith yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae angen ymchwiliad swyddogol i ddarganfod yn union beth sydd yn digwydd yn y maes allweddol hwn.

Mae Plaid Cymru yn cefnogi gwelliant 2 gan

ofalus ac yn anfon neges yn ôl i Lundain bod y Cynulliad yn credu y dylid ymestyn y Comisiwn Gwella Iechyd i gynnwys gwasanaethau iechyd preifat a chyhoeddus. Mae hyd yn oed y cyn-Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd, Frank Dobson wedi cyfaddef eleni fod llawer o waith i'w wneud yn y maes hwn a bod y darpariaethau cyfredol yn anfoddhaol. Mae'r Ddeddf Iechyd yn cynnig cyfle mawr inni fynd i'r afael â phroblemau iechyd Cymru.

I gloi, er bod y strwythurau a'r personél wedi eu sefydlu, mae angen adnoddau i wneud y gwaith yn llwyddiannus. Ni fydd grwpiau iechyd lleol, cydgomisiynu neu gomisiynu arweiniol yn llwyddo oni bai fod cyllid digonol i ganiatáu i'r NHS a'r personél gofal cymdeithasol wneud eu gwaith.

Geraint Davies: There are a number of areas in this Act which give the Assembly the freedom to draw up secondary legislation. Plaid Cymru welcomes this. It is essential that the Assembly meets the expectations of the people of Wales. We must, therefore, use our devolved powers to their limit to improve the health of the people of Wales and bridge the divide between different health areas in Wales.

We are in favour of Kirsty Williams's amendment on broadening the role of the Commission for Health Improvement. I am not in favour of private health care but it must be regulated. However, there are aspects of the Act which are unacceptable. Why does the Assembly not have a right to govern the pharmaceutical companies' prices and profits which account for 11 per cent of the health budget—a sum of £300 million?

At present we have no power to stop the pharmaceutical companies using cheap generic drugs and controlling the market. This means that we cannot continue with our plans to create a drugs formula for Wales. There has been a tenfold increase in the prices of some generic drugs during the past year. An official inquiry is needed to discover exactly what is going on in this key area.

Plaid Cymru supports amendment 2 by David

David Melding a gwelliant 4 gan Kirsty Williams gan eu bod yn pwysleisio pwysigrwydd hawl pob proffesiwn sydd yn ymwneud â meddygaeth i fynnu sedd ar bob grŵp iechyd lleol. Rhaid cydnabod rôl allweddol nyrsys, yn ogystal â fferyllwyr fel fi, mewn meddygaeth gynradd a rhwystrol. Mae'n bwysig, felly, fod pob proffesiwn yn cael cyfle i gyfrannu i'r newidiadau sylfaenol sydd yn digwydd i strwythur y gwasanaeth iechyd yng Nghymru.

Melding and amendment 4 by Kirsty Williams as they emphasise the importance of the right of every profession involved in medicine to insist on a place on every local health group. We must recognise the crucial role played by nurses, as well as pharmacists like myself, in both primary and preventative medicine. It is important, therefore, that every profession has an opportunity to contribute to the fundamental changes happening to the structure of the health service in Wales.

Mewn egwyddor, cefnogwn y syniad o gynyddu cydweithrediad rhwng y gwasanaeth iechyd a llywodraeth leol. Er hynny, mae'n hanfodol ein bod yn ystyried y manylion yn fanwl. Mae llawer o wasanaethau yn rhad ac am ddim ar hyn o bryd gan eu bod yn derbyn cymorthdal gan y gwasanaeth iechyd. Pe byddai awdurdodau lleol yn dechrau rheoli'r gwasanaethau hyn, a fyddai tâl yn cael ei godi? Mae hwn yn fater amwys ac y mae'n hanfodol ein bod yn cadw llygad barcud arno wrth i'r bartneriaeth ddechrau dwyn ffrwyth.

In principle, we support the idea of increasing the collaboration between the health service and local government. Despite that, it is essential that we consider the details closely. Many services are free of charge at present because they receive assistance from the health service. If local authorities were to take control of these services, would a charge be levied? This is an ambiguous issue and it is crucial that we keep a close eye on it as the partnership starts to bear fruit.

Un o brif bwrpasau'r Cynulliad yw creu gwasanaeth iechyd ar gyfer pobl Cymru: gwasanaeth y byddwn yn falch ohono. Gall hyn olygu datblygu polisïau gwahanol i rai Lloegr.

One of the main purposes of the Assembly is to create a health service for the people of Wales: a service of which we can be proud. This could mean developing alternative policies to those of England.

3:39 p.m.

Mae Dai Lloyd newydd grybwyll enghreifftiau pan y gall peidio â dilyn llwybr Cymreig esgor ar ganlyniadau trychinebus i Gymru. Mae'n rhaid imi roi rhybudd nad yw'n bosibl inni ragweld nifer o bethau yn Neddf Iechyd 1999. Yr wyf yn erfyn arnoch i gefnogi gwelliant Dai fel mater o egwyddor. Rhaid inni fod yn ymwybodol o hyd o'n dyletswydd i ddatblygu a gweithredu agenda iechyd Gymreig er mwyn gwella iechyd pobl Cymru.

Dai Lloyd has just listed examples where not following a Welsh path could have disastrous results for Wales. I must warn that it is impossible to anticipate a number of things in the Health Act 1999. I implore you to support Dai's amendment as a matter of principle. We must always be aware of our duty to develop and implement a Welsh health agenda to improve the health of the people of Wales.

Brian Gibbons: It was nice to hear about some of the past hits from the moody blues of Mrs Thatcher and Mr Major's period. The reality is that GP fundholding was divisive and expensive. As a political party that believed in the lean and mean private sector, it is extraordinary that the Conservative Party managed such a massive increase in administration and bureaucracy in the NHS.

Brian Gibbons: Yr oedd yn braf clywed am rai o hen ganeuon y *moody blues* yng nghyfnod Mrs Thatcher a Mr Major. Y gwir yw bod y drefn cyllidebau meddygon teulu'n ddud ac yn peri cynnen. Fel plaid wleidyddol a gredai mewn sector breifat cul a chwta, mae'n rhyfeddol bod y Blaid Geidwadol wedi trefnu cynnydd mor enfawr mewn gweinyddiaeth a biwrocratiaeth yn yr

It is obvious from David Melding's contribution that his love affair with bureaucracy continues. He attacked our administration for cutting the number of trusts and quangos in Wales. The Labour Party is in favour of a lean, mean and efficient NHS. The Conservative Party tried to commercialise and privatise the NHS.

David Davies: Is Brian Gibbons aware that the Labour Party's plans to get rid of the Nevill Hall and District NHS Trust were opposed by many Labour MPs including the MP for Monmouth, Huw Edwards, the MP for Blaenau Gwent, Llew Smith, and various Labour Party members of the council at the time? Does he accept that his own party as well as the Conservative Party had worries about the closure of the trusts?

Brian Gibbons: Yes, but we are talking about merger of trusts, not closure of trusts. One of the advantages of merging trusts is getting rid of the administration and the bureaucracy. I hope the Conservative Party supports that. However, we have the bureaucrats' friend here with us.

I accept that GP fundholding produced innovations and benefits in areas such as the leafy suburbs and particularly in market town England. The areas with the greatest healthcare needs did not go down the fundholding road and consequently did not get the opportunities. Fundholding could deliver opportunities because it was given preferential status and extra funding, which was not available to the non-fundholding practices. There is a certain intellectual dishonesty in arguing that many of the benefits of fundholding were simply due to the system. A lot of the benefits were due to extra funding.

Local health groups are the new focus for delivering sensitive healthcare in Wales. There are good arguments for increasing nurse and other healthcare professional representation on local health groups and on their executives. However, it is important that we keep some streamlining in local health

NHS. Mae'n amlwg o gyfraniad David Melding ei fod mewn cariad â biwrocratiaeth o hyd. Ymosododd ar ein gweinyddiaeth am gwtogi nifer yr ymddiriedolaethau a'r cwangos yng Nghymru. Mae'r Blaid Lafur o blaid NHS cul a chwta ac effeithlon. Ceisiodd y Blaid Geidwadol fasnacheiddio a phreifateiddio'r NHS.

David Davies: A wŷr Brian Gibbons fod gwrthwynebiad i fwriad y Blaid Lafur i gael gwared ag Ymddiriedolaeth NHS Nevill Hall a'r Cylch ymysg llawer o Aelodau Seneddol Llafur gan gynnwys yr AS dros Fynwy, Huw Edwards, a'r AS dros Flaenau Gwent, Llew Smith, ac amryw o aelodau'r Blaid Lafur ar y cyngor ar y pryd? A yw'n derbyn bod pryderon yn ei blaid ei hun yn ogystal ag yn y Blaid Geidwadol ynghylch cau'r ymddiriedolaethau?

Brian Gibbons: Ydwyf, ond yr ydym yn trafod cyfuno ymddiriedolaethau, nid eu cau. Un o'r manteision o gyfuno ymddiriedolaethau yw cael gwared â'r weinyddiaeth a'r fiwrocratiaeth. Gobeithiaf fod y Blaid Geidwadol yn cefnogi hynny. Fodd bynnag, mae cyfaill y biwrocratiaid gyda ni yma.

Derbyniaf fod y drefn cyllidebau meddygon teulu wedi creu datblygiadau newydd a manteision mewn ardaloedd fel y maestrefi deiliog a Lloegr y trefi marchnad yn arbennig. Nid oedd yr ardaloedd â'r anghenion gofal iechyd mwyaf wedi dilyn llwybr y cyllidebau meddygon teulu ac o ganlyniad ni chawsant y cyfleoedd. Yr oedd modd i'r drefn cyllidebau meddygon teulu ddod â chyfleoedd am ei bod yn cael ffafriaeth a chyllid ychwanegol, nad oedd ar gael i'r practisiau heb gyllidebau. Mae rhyw anonestrwydd deallusol ynglŷn â dadlau bod llawer o'r manteision o'r drefn cyllidebau meddygon teulu yn ganlyniad i'r system yn unig. Yr oedd llawer o'r manteision yn ganlyniad i ariannu ychwanegol.

Mae'r grwpiau iechyd lleol yn ffocws newydd ar gyfer cyflenwi gofal iechyd sensitif yng Nghymru. Mae dadleuon da dros gynyddu'r gynrychiolaeth o nyrsys a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill ar grwpiau iechyd lleol ac ar eu pwyllgorau gweithredol. Fodd bynnag, mae'n bwysig

groups and their executives because there is a danger that adding more people will make the groups too big and unwieldy. In the light of the next few years' experience, perhaps we can revisit the structure of local health groups and look at the problem in the round rather than phasing in our demands. That is a more efficient, logical way to proceed.

Dai Lloyd mentioned the need to reduce the number of tiers within the health service. For those of us who have been in the health service long enough to remember, there was a period when we had a few tiers in the health service. We had a centralised command-and-control type of health service before 1990, in which health service planning was virtually reduced to responding to the needs of the glamour professions in the hospital sector. By introducing the commissioner-provider split we are actually introducing tension and thus allowing a more needs-based and needs-sensitive service. We would not have that sensitivity if we continued health authorities' control over our hospitals. That system has not worked well in the past.

My main point relates to the importance of the new links between healthcare and local government. Since the Black Report was published in 1980 and almost suppressed by the previous Government, it has been clear, as Ron Davies mentioned, that the major determinants of health are not found in the health service but in people's social and economic circumstances. The more unequal the social circumstances, the greater the health disparities. One of the strengths of this White Paper is that it recognises this reality and gives local authorities an important role to address the determinants of ill-health, particularly through the development of local health alliances.

Local government started to develop in Britain about 100 years ago, and one of the main impetuses was the need to deal with the poor health of the working classes. That need is equally relevant today. We have spent a lot

inni barhau â'r rhesymoli mewn grwpiau iechyd lleol a'u pwyllgorau gweithredol am fod perygl y bydd y grwpiau'n rhy fawr ac anhylaw drwy ychwanegu mwy o bobl atynt. Yng ngoleuni'r profiad a geir yn y blynyddoedd nesaf hyn, efallai y gallem ailystyried strwythur grwpiau iechyd lleol ac edrych ar y broblem o bob ochr yn hytrach na chyflwyno'n gofynion yn raddol. Mae hynny'n ffordd fwy effeithlon a rhesymegol ymlaen.

Soniodd Dai Lloyd am yr angen i gwtogi ar nifer y lefelau yn y gwasanaeth iechyd. Bydd y rhai ohonom a fu yn y gwasanaeth iechyd yn ddigon hir yn cofio adeg pan oedd gennym ychydig o lefelau yn y gwasanaeth iechyd. Yr oedd gennym wasanaeth iechyd gorchymyn-a-rheoli canoledig cyn 1990, lle'r oedd cynllunio'r gwasanaeth iechyd bron yn fater o ymateb i anghenion y proffesiynau uchel eu bri yn y sector ysbytai. Drwy gyflwyno'r rhaniad rhwng y comisiynydd a'r darparwr yr ydym mewn gwirionedd yn cyflwyno tyndra ac felly'n caniatáu gwasanaeth sydd yn fwy seiliedig ar anghenion ac yn fwy sensitif iddynt. Ni fyddem wedi cael y sensitifrwydd hwnnw pe baem wedi parhau â rheolaeth yr awdurdodau iechyd dros yr ysbytai. Nid yw'r system honno wedi gweithio'n dda yn y gorffennol.

Mae fy mhrif bwynt yn ymwneud â phwysigrwydd y cysylltiadau newydd rhwng gofal iechyd a llywodraeth leol. Ers cyhoeddi Adroddiad Black yn 1980 a'i wahardd bron gan y Llywodraeth flaenorol, mae'n eglur, fel y dywedodd Ron Davies, nad yn y gwasanaeth iechyd y ceir y prif benderfynyddion ar iechyd pobl ond yn eu hamgylchiadau cymdeithasol ac economaidd. Po fwyaf fydd yr anghydraddoldeb mewn amgylchiadau cymdeithasol, mwyaf fydd y gwahaniaethau o ran iechyd. Un o gryfderau'r Papur Gwyn hwn yw ei fod yn cydnabod y gwirionedd hwn ac yn rhoi rôl bwysig i awdurdodau lleol er mwyn ymdrin â phenderfynyddion afiechyd, yn enwedig drwy ddatblygu cynghreiriau iechyd lleol.

Dechreuodd llywodraeth leol ddatblygu ym Mhrydain tua 100 mlynedd yn ôl, ac un o'r prif symbyliadau oedd yr angen i ymdrin â iechyd gwael y dosbarth gweithiol. Mae'r angen hwnnw'r un mor berthnasol heddiw.

of time in the Assembly dealing with the Government's numerous initiatives to combat these inequities and dealing with the powers given to local authorities to try to increase their ability to deal with the causes of ill-health at their source. The lead role given to local authorities in addressing the determinants of ill-health is one of the most important provisions in the Health Act 1999.

The Health Act 1999 encourages greater operational co-operation between health and social care. This is another aspect that is welcomed. Since 1994, local authorities have had a lead role in providing care in the community. A recent statistic showed that local authorities are responsible for commissioning approximately 40 per cent of nursing care in Britain through the provision of nursing homes and so forth. Local authorities and health authorities need to work together in terms of promoting care in the community. There is equally a long-established tradition of health services and local government attempting to co-operate in areas such as learning difficulties, mental illness and children's services. Notwithstanding the statutory obligation for JCCs, the reality is that in almost all instances, they did not deliver. They did not deliver the type of joined-up integrated government that these services desperately need. The Health Act 1999 addresses that issue and provides a new legal framework to allow health services and local government to work together to tackle these issues. It also gives powers for joint commissioning and service provision, joint budgets and allows either health services or local government, depending on local circumstances, to be the leader or sole agency in providing these elements of care.

The Health Act 1999 allows a new merger of health and social care, not only in the delivery of care and cure at a hospital level but also in addressing the determinants of ill-health. On that basis it should be welcomed.

Helen Mary Jones: As Dai Lloyd and Geraint Davies have said, there are aspects of

Treuliasom lawer o amser yn y Cynulliad yn ymdrin â mentrau niferus y Llywodraeth i wrthweithio'r anghyfiawnderau hyn ac ymdrin â'r pwerau a roddwyd i awdurdodau lleol er mwyn ceisio cynyddu eu gallu i ddelio ag achosion afiechyd wrth eu gwraidd. Y rôl arweiniol a roddwyd i awdurdodau lleol wrth drafod penderfyniadau afiechyd yw un o ddarpariaethau pwysicaf y Ddeddf Iechyd 1999.

Mae Deddf Iechyd 1999 yn hybu cydweithredu gweithredol helaethach rhwng gofal iechyd a gofal cymdeithasol. Mae hon yn agwedd arall sydd i'w chroesawu. Ers 1994, mae gan awdurdodau lleol rôl arweiniol wrth ddarparu gofal yn y gymuned. Yr oedd un ystadegyn diweddar yn dangos bod awdurdodau lleol yn gyfrifol am gomisiynu tua 40 y cant o'r gofal nyrsio ym Mhrydain drwy ddarparu cartrefi nyrsio ac yn y blaen. Mae angen i awdurdodau lleol ac awdurdodau iechyd gydweithio wrth hybu iechyd yn y gymuned. Ceir traddodiad yr un mor hir o wasanaethau iechyd a llywodraeth leol yn ceisio cydweithredu mewn meysydd fel anawsterau dysgu, salwch meddwl a gwasanaethau plant. Er gwaethaf y gofyniad statudol am gyd-bwyllgorau ymgynghorol, y gwir yw nad oedd y rhain wedi ateb yr angen yn y rhan helaethaf o achosion. Nid oeddent yn cyflenwi'r math o lywodraeth integredig gydgysylltiol y mae angen taer amdani yn y gwasanaethau hyn. Mae Deddf Iechyd 1999 yn rhoi sylw i'r mater hwnnw ac yn darparu fframwaith cyfreithiol newydd fel y gall gwasanaethau iechyd a llywodraeth leol weithio gyda'i gilydd i fynd i'r afael â'r materion hyn. Mae'n rhoi pwerau hefyd ar gyfer cydgomisiynu a chyd-ddarparu gwasanaethau, cyllidebau ar y cyd ac yn caniatáu i naill ai gwasanaethau iechyd neu lywodraeth leol fod yn arweinydd neu'n asiantaeth sengl, yn ôl yr amgylchiadau lleol, wrth ddarparu'r elfennau gofal hyn.

Mae Deddf Iechyd 1999 yn caniatáu cyfuniad newydd o ofal iechyd a gofal cymdeithasol, nid yn unig wrth ddarparu gofal a thriniaeth mewn ysbytai ond hefyd wrth ymdrin â phenderfyniadau afiechyd. Oherwydd hynny dylid ei chroesawu.

Helen Mary Jones: Fel y dywedodd Dai Lloyd a Geraint Davies, mae agweddau ar

the Health Act 1999 and its implications for Wales that Plaid Cymru—The Party of Wales welcomes. One area that we find positive and would like to see further developed is partnerships, particularly at a local level but also at a regional and national level. We welcome the motion's reference to carers, implying, if not directly stating, their role not only as recipients but as partners in healthcare provision. In developing healthcare policies, it is important that the Assembly fully acknowledges the great contribution made by carers to the Welsh national health service. This contribution is worth about £34 billion in the UK as a whole.

3:49 p.m.

Huw Lewis: Point of order. I am confused as to some points made in the Welsh nationalists' contributions during this debate.

Helen Mary Jones: Can we be referred to by our party's correct name, Llywydd?

The Presiding Officer: Do you want me to reply?

Huw Lewis: This is a point of terminology, Llywydd. I am confused as to whether Plaid Cymru is referring to Britain or to Wales as the 'nation' in the national health service. I would like—

Helen Mary Jones: To clarify, Llywydd, the nation I always refer to is the nation of Wales.

The Presiding Officer: Further to that point of order and speaking for myself, the word 'nation' can refer both to the nation of Wales and to any other national unit. In the context of the NHS, it can refer both to Wales and to the UK. When referring to Wales it is known affectionately as NHS Cymru.

Helen Mary Jones: I return to what I was trying to say. It is important that we recognise carers as partners in the provision of health service and not only as recipients of it. We must ensure that the National Carers Strategy for Wales enables this to happen.

Ddeddf Iechyd 1999 a'i goblygiadau i Gymru y mae Plaid Cymru yn eu croesawu. Un maes a welwn yn un cadarnhaol ac y carem weld datblygu pellach arno yw partneriaethau, yn enwedig ar lefel leol ond hefyd ar lefel ranbarthol a chenedlaethol. Croesawn y cyfeiriad yn y cynnig at ofalwyr, sydd yn awgrymu, heb ddatgan yn uniongyrchol, eu rôl fel derbynwyr a hefyd fel partneriaid wrth ddarparu gofal iechyd. Mae'n holl bwysig, wrth ddatblygu polisiau gofal iechyd, fod y Cynulliad yn llwyr gydnabod y cyfraniad mawr a wneir gan ofalwyr i wasanaeth iechyd gwladol Cymru. Mae'r cyfraniad hwn yn werth tua £34 biliwn yn y DU gyfan.

Huw Lewis: Pwynt o drefn. Yr wyf mewn penbleth ynghylch rhai o'r pwyntiau a wnaethpwyd yng nghyfraniadau'r cenedlaetholwyr Cymreig yn ystod y ddadl hon.

Helen Mary Jones: A ellir cyfeirio atom yn ôl priod enw ein plaid, Lywydd?

Y Llywydd: A ydych eisiau imi ateb?

Huw Lewis: Mater o derminoleg yw hyn, Llywydd. Yr wyf mewn penbleth ynghylch a yw Plaid Cymru'n cyfeirio at Brydain ynteu at Gymru fel 'nation' yn 'national health service'. Hoffwn—

Helen Mary Jones: Er mwyn egluro, Lywydd, y genedl y byddaf fi'n cyfeirio ati bob amser yw cenedl y Cymry.

Y Llywydd: Ymhellach i'r pwynt hwnnw o drefn a chan siarad dros fy hun, gall y gair 'nation' gyfeirio at genedl y Cymry ac at unrhyw uned genedlaethol arall. Yng nghydestun yr NHS, gall gyfeirio at Gymru ac at y DU. Wrth gyfeirio at Gymru fe'i gelwir yn annwyl yn NHS Cymru.

Helen Mary Jones: Dychwelaf at yr hyn yr oeddwn yn ceisio ei ddweud. Mae'n bwysig inni gydnabod gofalwyr yn bartneriaid wrth ddarparu'r gwasanaeth iechyd ac nid yn rhai sydd yn ei dderbyn yn unig. Rhaid inni sicrhau bod Strategaeth Gofalwyr Genedlaethol Cymru yn gwireddu hynny.

In consulting and involving the voluntary sector, at local and all other levels, it is important that the represented groups, including all the groups in our communities, are brought in as active partners. When the Health and Social Services Committee began discussing the 20-year strategy, I was not alone in my concern on hearing that groups representing black and ethnic minority communities had not been directly consulted, and that their needs had not been considered. That is a lesson well learnt by us as a Committee and by our officials. We must ensure in future that neither the Assembly nor any other healthcare decision-maker in Wales ignores the health concerns of ethnic minority communities. Likewise, we need to ensure that consultation and health promotion materials produced by local health groups, trusts, health authorities and by the Assembly are available in ethnic minority languages and in formats that are accessible to disabled people, such as braille, large print or audio tape.

Finally, we must move more actively to involve patients as full partners in developing health policy. I spent yesterday in a meeting in my constituency with health authority officials and a cancer patients group—a group that I am grateful that Jane Hutt has also met. The health authority officials left the meeting with a changed view on the discussed policy area. The patients group felt that the coming of the Assembly had already changed the views and attitudes of health bureaucrats towards them as patients. That is one of the Assembly's achievements. We must ensure that we build on this good start and that the views of those on the receiving end of healthcare are central to the thinking of everyone who develops health policy.

We welcome the motion's emphasis on the Assembly's duty to take a strategic lead in all healthcare matters. In developing a national Welsh health service we must start at a community and a primary care level. We will ultimately need more resources to meet our higher needs. In the meantime, we must make the best use of the resources we have and

Wrth ymgynghori a chynnwys y sector gwirfoddol, ar lefel leol ac ar lefelau eraill, mae'n bwysig bod y grwpiau a gynrychiolir, gan gynnwys yr holl grwpiau yn ein cymunedau, yn cael eu derbyn yn bartneriaid gweithredol. Pan ddechreuodd y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol drafod y strategaeth 20-mllynedd, nid fi oedd yr unig un a oedd yn bryderus o glywed na fu ymgynghori uniongyrchol â grwpiau sydd yn cynrychioli cymunedau du a lleiafrifoedd ethnig, ac nad ystyriwyd eu hanghenion. Yr ydym ni fel Pwyllgor a'n swyddogion wedi dysgu'n dda o'r wers honno. O hyn ymlaen rhaid inni sicrhau na fydd y Cynulliad na neb arall sydd yn penderfynu ar ofal iechyd yng Nghymru yn anwybyddu buddiannau iechyd cymunedau lleiafrifoedd ethnig. Yn yr un modd, rhaid inni sicrhau y bydd y deunyddiau ymgynghori a hybu iechyd a gynhyrchir gan grwpiau iechyd lleol, ymddiriedolaethau, awdurdodau iechyd a'r Cynulliad ar gael mewn ieithoedd lleiafrifoedd ethnig ac ar ffurfiau sydd yn hygyrch i bobl anabl, fel braille, print bras neu dâp clywedol.

Yn olaf, rhaid inni weithredu'n fwy egnïol i gynnwys cleifion fel partneriaid llawn wrth ddatblygu polisi iechyd. Ddoe bŵm mewn cyfarfod yn f'etholaeth gyda swyddogion yr awdurdod iechyd a grŵp cleifion canser—grŵp yr wyf yn falch bod Jane Hutt wedi cyfarfod ag ef hefyd. Aeth swyddogion yr awdurdod iechyd o'r cyfarfod a'u barn wedi newid ar y maes polisi a drafodwyd. Yr oedd y grŵp cleifion yn teimlo fod dyfodiad y Cynulliad eisoes wedi newid barn ac agweddau biwrocratiaid iechyd tuag atynt fel cleifion. Dyna un o'r pethau a gyflawnwyd gan y Cynulliad. Rhaid inni sicrhau ein bod yn datblygu'r dechreuad da hwn a bod barn y rhai sydd yn derbyn gofal iechyd yn ganolog ym meddwl pawb sydd yn datblygu polisi iechyd.

Croesawn y pwyslais yn y cynnig ar ddyletswydd y Cynulliad i roi arweiniad strategol ym mhob mater gofal iechyd. Wrth ddatblygu gwasanaeth iechyd gwladol i Gymru rhaid inni ddechrau ar lefel gofal cymunedol a sylfaenol. Yn y pen draw bydd arnom angen mwy o adnoddau i ddiwallu ein hanghenion mwy. Yn y cyfamser, rhaid inni

ensure that the people who are most affected are effectively and regularly consulted and involved at all levels.

Christine Chapman: None of us will disagree with the broad sentiment of the document. However, we must put gesture politics aside when we talk of health and ways to improve the health of the people of Wales. We owe this to the people of Wales, as health is such a vital issue. Nothing is more important to a person than his or her health. We all suffer from the same health problems, except that there is a dividing line between the advantaged and the disadvantaged. The poorest communities suffer the worst health or as the Environmental Research Foundation put it in a 1998 paper—‘Poverty makes you sick’.

Let us not garnish this with fancy language about inequalities and socially excluded communities. Let us speak plainly. Poverty makes you sick. As the aforementioned document reports, numerous studies in the United Kingdom and the USA have shown consistently that a person’s place in the social order strongly affects health and longevity. It seems well established that poverty and social rank are the most important determining factors in health, more important even than smoking.

Brian Gibbons mentioned the Black Report, the publication in 1980 by Sir Donald Black, which described the inequalities in health in Britain. It concluded that there were marked inequalities in health between the social classes in Britain. Black went so far as to state that,

‘people in unskilled occupations had a two and a half times greater chance of dying before retirement than professional people.’

There have been many subsequent studies to back up the findings of the Black Report, such as the Whitehall studies and, more recently, the report by Sir Donald Acheson, the Independent Inquiry into Inequalities in Health, which was presented to Parliament last year.

ddefnyddio’r adnoddau sydd gennym i’r eithaf a sicrhau y ceir ymgynghori effeithiol a rheolaidd â’r rhai yr effeithir arnynt fwyaf a’u bod wedi eu cynnwys ar bob lefel.

Christine Chapman: Ni fydd yr un ohonom yn anghytuno â safbwynt cyffredinol y ddogfen. Fodd bynnag, mae’n rhaid inni roi gwleidyddiaeth ystumiau o’r neilltu pan soniwn am iechyd a dulliau i wella iechyd pobl Cymru. Mae hynny’n ddyletswydd sydd gennym tuag at bobl Cymru, am fod iechyd yn fater mor hanfodol. Nid oes dim sydd yn bwysicach i rywun na’i iechyd. Byddwn oll yn dioddef o’r un problemau iechyd, ond bod llinell derfyn rhwng y breintiedig a’r difreintiedig. Y cymunedau tlotaf sydd yn dioddef yr iechyd gwaethaf neu, fel y dywedodd y Sefydliad Ymchwil Amgylcheddol mewn papur yn 1998—‘Mae tlodi’n eich gwneud yn sâl’.

Na foed inni addurno hyn â geiriau ffansi am anghydraddoldebau a chymunedau wedi eu hallgáu’n gymdeithasol. Gadewch inni siarad yn blaen. Mae tlodi’n eich gwneud yn sâl. Fel y dywedir yn y ddogfen y cyfeiriais ati cynt, mae nifer fawr o astudiaethau yn y Deyrnas Unedig ac UDA wedi dangos yn gyson fod lle rhywun yn y drefn gymdeithasol yn effeithio’n gryf ar iechyd a hyd einioes. Ymddengys ei bod wedi ei hen brofi mai tlodi a statws cymdeithasol yw’r ffactorau penderfynu pwysicaf mewn iechyd, yn bwysicach hyd yn oed nag ysmegu.

Soniodd Brian Gibbons am Adroddiad Black, y cyhoeddiad gan Syr Donald Black yn 1980 a ddisgrifiodd yr anghydraddoldebau iechyd ym Mhrydain. Ei gasgliad oedd bod anghydraddoldebau pendant o ran iechyd rhwng y dosbarthiadau cymdeithasol ym Mhrydain. Aeth Black mor bell â datgan,

Cafwyd llawer o astudiaethau wedyn sydd yn ategu canfyddiadau Adroddiad Black, fel astudiaethau Whitehall ac, yn ddiweddarach, yr adroddiad gan Syr Donald Acheson, yr Ymchwiliad Annibynnol i Anghydraddoldebau mewn Iechyd, a gyflwynwyd i’r Senedd y llynedd.

All these studies confirm that poverty makes you sick. Therefore, I welcome the debates that we have had so far on social exclusion and poverty. We have made progress on this.

My main point is that we must work together to form strong partnerships and look strategically at improving the health of people in Wales. If we are to achieve the aims and objectives set out in 'Better Health, Better Wales' and to realise the potential of the Health Act 1999 in Wales, we must stop short-term thinking and political squabbling and get back to the culture of inclusivity and partnership.

We are moving forward into a new millennium. The face of healthcare is changing under the Health Act 1999. It will give the NHS the direction needed to enter the next century with confidence, provided that we give a strategic lead from this Chamber when required.

I welcome the establishment of new structures in the health service as a result of this Act, such as local health groups. We can now forge strong partnerships between all relevant bodies to look strategically at prevention rather than cure. We can begin to address the inequalities in health from an all-round joined-up perspective rather than just in isolation. I welcome Ron Davies's comments about taking a more holistic approach to health.

I take issue with David Melding's amendment 1 regarding GP fundholding, because that has been over-bureaucratic and works against partnership working.

As Assembly Members, we can help to provide a focus in encouraging partnerships. We can also encourage a new culture for health promotion and awareness in Wales. That is part of our role. We need to take a keen interest in the work of local health groups. Their aims are close to the aims that we as an Assembly should espouse and that should act as a follow-up to the Health Act.

I welcome the fact that local health groups

Mae'r holl astudiaethau hyn yn cadarnhau bod tlodi'n eich gwneud yn sâl. Felly, croesawaf y dadleuon a gawsom hyd yn hyn ar ddieithrwch cymdeithasol a thlodi. Gwnaethom gynnydd yn hyn o beth.

Fy mhrif bwynt yw bod rhaid inni gydweithio i ffurfio partneriaethau cryf ac edrych yn strategol ar wella iechyd pobl yng Nghymru. Os ydym i gyflawni'r nodau a'r amcanion a osodir yn 'Gwell Iechyd, Gwell Cymru' a gwireddu potensial Deddf Iechyd 1999 yng Nghymru, rhaid inni roi'r gorau i feddwl dros dymor byr ac i ffraeo gwleidyddol a dod yn ôl at y diwylliant o gynwysoldeb a phartneriaeth.

Yr ydym yn symud ymlaen i fileniwm newydd. Mae gwedd gofal iechyd yn newid o dan Ddeddf Iechyd 1999. Bydd yn rhoi i'r NHS y cyfeiriad y mae arno'i angen i gamu'n hyderus i'r ganrif nesaf, ar yr amod y rhoddwn arweiniad strategol o'r Siambr hon pan fydd angen hynny.

Croesawaf sefydlu strwythurau newydd yn y gwasanaeth iechyd o ganlyniad i'r Ddeddf hon, fel y grwpiau iechyd lleol. Yn awr gallwn ffurfio partneriaethau cryf rhwng yr holl gyrff perthnasol er mwyn rhoi ystyriaeth strategol i ataliad yn hytrach na thriniaeth. Gallwn ddechrau rhoi sylw i'r anghydraddoldebau ym maes iechyd o safbwynt cydgysylltiol hollgynhwysol yn hytrach na'u hystyried ar wahân yn unig. Croesawaf sylwadau Ron Davies ynghylch ymagwedd fwy cyfannol at iechyd.

Anghytunaf â gwelliant 1 David Melding ynghylch y drefn cyllidebau meddygon teulu, oherwydd bu hynny'n orfiwrocataidd ac mae'n groes i weithio mewn partneriaeth.

Fel Aelodau o'r Cynulliad, gallwn helpu i ddarparu ffocws er mwyn hybu partneriaethau. Gallwn hefyd gefnogi diwylliant newydd ar gyfer hybu iechyd ac ymwybyddiaeth o iechyd yng Nghymru. Mae hynny'n rhan o'n rôl. Dylem ymddiddori'n frwd yng ngwaith y grwpiau iechyd lleol. Mae eu nodau'n debyg i'r nodau y dylem ni eu harddel fel Cynulliad a dylai hynny fod yn ddilyniant i'r Ddeddf Iechyd.

Croesawaf y ffaith fod y grwpiau iechyd lleol

are considering primary care development. They have been assisted in this task by the paper discussed by the Health and Social Services Committee a few weeks ago, 'Towards a Primary Care Strategy'.

They are also concerning themselves with clinical governance and quality, commissioning and service development, information management and technology and, perhaps most importantly of all, the role of public partnerships, ensuring that the public and users of the health service can be involved in planning services. This is crucial and as Assembly Members we must do as much as possible to support that.

The thrust of the Health Act, which focuses on partnerships, joint working and shared arrangements is the correct way forward in helping to reduce health inequalities in Wales.

I am sure that all of us have read the recent publication by Dr Stephen Monaghan, Jane Davidson and David Bainton *Freeing the dragon: new opportunities to improve the health of the Welsh people*, in which they argue,

'A fresh approach is therefore required, which addresses the root cause of local health problems.'

3:59 p.m.

All of us in Wales want that for the health service in the next century. While the mechanisms put in place by the Health Act 1999 will go some way towards achieving this, we must ensure that we keep the issues of health and inequalities at the top of the agenda in Cardiff and at Westminster.

Jane Hutt: This has been a valuable debate. It has demonstrated that the Health Act 1999 is only a part of a much bigger force for change in Wales. It offers opportunities to build on our strengths and to be different. It provides us with challenges of developing a strategic view of how the NHS should be organised. It also provides us with opportunities to develop local and Welsh

yn ystyried datblygiad gofal sylfaenol. Fe'u cynorthwywyd yn y dasg honno gan y papur a drafodwyd gan y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ychydig wythnosau'n ôl, 'Tuag at Strategaeth Gofal Sylfaenol'.

Maent yn ymwneud hefyd â rheolaeth glinigol ac ansawdd, comisiynu a datblygu gwasanaethau, rheoli a thechnoleg gwybodaeth ac, yn bwysicaf oll efallai, rôl yartneriaethau cyhoeddus, gan sicrhau bod y cyhoedd a defnyddwyr y gwasanaeth iechyd yn gallu bod yn gysylltiedig â chynllunio gwasanaethau. Mae hynny'n hanfodol ac fel Aelodau o'r Cynulliad mae'n rhaid inni wneud cymaint ag y gallwn i gefnogi hynny.

Pwyslais y Ddeddf Iechyd ar bartneriaethau, cydweithio a threfniadau ar y cyd yw'r ffordd iawn ymlaen er mwyn helpu i leihau anghydraddoldebau iechyd yng Nghymru.

Yr wyf yn sicr bod pawb ohonom wedi darllen y cyhoeddiad diweddar gan Dr Stephen Monaghan, Jane Davidson a David Bainton *Freeing the dragon: new opportunities to improve the health of the Welsh people*, lle maent yn dadlau,

'Mae angen dull newydd o weithredu felly, sydd yn ymdrin ag achos sylfaenol problemau iechyd lleol.'

Mae pawb yng Nghymru am weld hynny'n digwydd yn y gwasanaeth iechyd yn y ganrif nesaf. Er y bydd y mecanweithiau a sefydlwyd gan Ddeddf Iechyd 1999 yn cyflawni hynny i ryw raddau, mae'n rhaid inni sicrhau bod materion iechyd ac anghydraddoldeb ar ben yr agenda o hyd yng Nghaerdydd ac yn San Steffan.

Jane Hutt: Bu hon yn ddadl werthfawr. Dangosodd nad yw Deddf Iechyd 1999 ond yn rhan o ymgyrch lawer ehangach dros newid yng Nghymru. Mae'n cynnig cyfleoedd i ddatblygu ein cryfderau a bod yn wahanol. Mae'n rhoi her inni ddatblygu safbwynt strategol ar y modd y dylid trefnu'r NHS. Mae hefyd yn rhoi cyfleoedd inni ddatblygu atebion lleol a Chymreig i

solutions to Welsh problems.

Christine talked about the vital challenge of working in partnership and of breaking down the barriers that were erected and entrenched when the purchaser-provider split was brought in by the former Government. It is interesting that David Melding is nostalgic for those days. Along with many people in this Chamber, I am not nostalgic for the days of the marketplace. The health service should never have been driven and operated like a marketplace. General practitioner fundholding was illogical and inequitable. It only covered some patients in Wales. We have released £9.2 million by ending GP fundholding, which has gone out to the whole of Wales. That is a resource allocation based on health and social need, not on an ideological narrow focus.

David Melding: You are within your rights to argue that the GP fundholding created a two tier system. That was the main criticism that did my party damage. However, over 50 per cent of the people of Wales were covered by GP fundholding practices. Not just some. That is a large number of people.

Jane Hutt: It was inequitable in relation to the resource allocation. David Melding has said that he supports the new opportunities for local health groups. General practitioners are at the forefront of the new regime. They welcome the opportunity to operate in teams and to commission services and partnerships with their local authorities, other health professions, the voluntary sector and lay people. This is a new opportunity and, having talked to GPs up and down Wales and the two in this Chamber, I know that GPs who want the best future for the health service see this as a huge opportunity that will help them deal with the day-to-day crises and difficulties they face when there is bed blocking, lack of communication with social services and lack of integrated care. There is a lack of seamless service.

I refer, David Melding, back to the importance of the fact that we are now

broblemau Cymreig.

Soniodd Christine am yr her holl bwysig o weithio mewn partneriaeth a chwalu'r rhwystrau a godwyd ac a atgyfnerthwyd pan gyflwynwyd y rhaniad rhwng y prynwr a'r darparwr gan y Llywodraeth flaenorol. Mae'n ddiddorol bod David Melding yn hiraethu am y dyddiau hynny. Fel llawer yn y Siambr hon, nid wyf yn hiraethu am ddyddiau'r farchnad. Ni ddylasai'r gwasanaeth iechyd erioed fod wedi cael ei yrru a'i weithredu fel marchnad. Yr oedd y drefn cyllidebau meddygon teulu'n afresymegol ac yn annheg. Ni chynhwysai ond rhai cleifion yng Nghymru. Yr ydym wedi rhyddhau £9.2 miliwn drwy derfynu'r drefn cyllidebau meddygon teulu, ac fe'i dosbarthwyd ym mhob rhan o Gymru. Mae hynny'n ddyraniad adnoddau sydd yn seiliedig ar anghenion iechyd a chymdeithasol, nid ar ffocws ideolegol cul.

David Melding: Mae gennych bob hawl i ddadlau bod y drefn cyllidebau meddygon teulu'n creu system ddwy-lefel. Dyna oedd y brif feirniadaeth a wnaeth niwed i'm plaid. Fodd bynnag, yr oedd dros 50 y cant o bobl Cymru o dan bractisiau â chyllideb. Nid rhai'n unig. Mae hynny'n nifer fawr o bobl.

Jane Hutt: Yr oedd yn anghyfartal o ran dyrannu adnoddau. Dywedodd David Melding ei fod yn cefnogi'r cyfleodd newydd i grwpiau iechyd lleol. Mae meddygon teulu yn rheng flaen y gyfundrefn newydd. Maent yn croesawu'r cyfle i weithredu mewn timau ac i gomisiynu gwasanaethau a phartneriaethau gyda'u hawdurdodau lleol, gweithwyr iechyd proffesiynol eraill, y sector gwirfoddol a lleygwyr. Mae hyn yn gyfle newydd ac, ar ôl siarad gyda meddygon teulu ym mhob cwr o Gymru a chyda'r ddau sydd yn y Siambr hon, gwn fod y meddygon teulu sydd am sicrhau'r dyfodol gorau i'r gwasanaeth iechyd yn gweld hyn yn gyfle aruthrol a fydd yn eu helpu i ymdrin â'r argyfyngau a'r trafferthion a wynebant bob dydd pan fydd gwelyau wedi eu blocio, diffyg cyfathrebu gyda gwasanaethau cymdeithasol a diffyg gofal integredig. Mae diffyg gwasanaeth di-fwelch.

Cyfeiriai sylw David Melding yn ôl at y ffaith bwysig ein bod bellach yn mabwysiadu

embracing a seamless service. It is vital that we have both a strategy for commissioning and a seamless service so that people know that they will not have to go through a myriad of trusts, empires and institutions to get the health and social care that they need. We must recognise that GPs welcome the way forward and that the purchaser-provider split was divisive. It bred distrust, empire-building and a negative allocation in terms of health resources, putting hospital versus hospital.

Mental health lost out particularly badly in the marketplace and the internal market system. It is vital that we deal with those aspects of care where people are not as vocal. In mental health, people do not shout about the need to develop proper health improvement programmes that recognise the needs of people in the communities.

We now have long-term agreements that are much more effective than the bureaucracy of GP fundholding. We will always differ. However, you can put this into your history books. GP fundholding did not work, David Melding, and we now have real new opportunities.

I will refer to some of the other amendments. I support amendment 2 because it outlines where we are heading. David Melding touched on the membership of local health groups. We are looking at ways in which local health groups can develop. We do not want to talk about the status of executive groups. Local health groups are teams of people who help to develop, commission and deliver services. There should not be a perception of hierarchy within them.

Kirsty mentioned professions allied to medicine. I met members of those professions recently at a conference in Newport and we talked about this issue. I have made it clear to local health groups that they must bring the expertise of professions allied to medicine to every health improvement programme. That means more than talking to them. It means consulting the

gwasanaeth di-fwlch. Mae'n holl bwysig inni gael strategaeth ar gyfer comisiynu a gwasanaeth di-fwlch fel y gŵyr pobl na fydd yn rhaid iddynt fynd drwy ymddiriedolaethau, ymerodraethau a sefydliadau dirifedi i gael y gofal iechyd a chymdeithasol y mae arnynt ei angen. Rhaid inni gydnabod bod meddygon teulu'n croesawu'r ffordd ymlaen a bod y rhaniad rhwng y prynwr a'r darparwr yn peri cynnen. Magai ddrwgdybiaeth, awydd i ehangu terfynau a dyrannu negyddol ar adnoddau iechyd, gan roi ysbytai yn erbyn ei gilydd.

Yr oedd iechyd meddwl ar ei golled yn arbennig yn y farchnad ac yn y system farchnad fewnol. Mae'n holl bwysig inni ymdrin â'r agweddau hynny ar ofal lle na fydd pobl mor uchel eu cloch. Mewn iechyd meddwl, ni fydd pobl yn codi llais ynghylch yr angen i ddatblygu rhaglenni gwella iechyd priodol sydd yn cydnabod anghenion pobl yn y cymunedau.

Bellach mae gennym gytundebau tymor-hir sydd yn llawer mwy effeithiol na biwrocratiaeth y drefn cyllidebau meddygon teulu. Ni chytunwn fyth. Fodd bynnag, gellwch roi hyn yn eich llyfrau hanes. Nid oedd y drefn cyllidebau meddygon teulu'n gweithio, David Melding, ac yn awr mae gennym gyfleoedd newydd gwirioneddol.

Cyfeiriai at rai o'r gwelliannau eraill. Cefnogaf welliant 2 gan ei fod yn amlinellu'r hyn yr ydym yn anelu ato. Cyfeiriodd David Melding at aelodaeth y grwpiau iechyd lleol. Yr ydym yn ystyried cyfeiriadau posibl ar gyfer datblygu grwpiau iechyd lleol. Nid ydym am sôn am statws grwpiau gweithredol. Mae grwpiau iechyd lleol yn dimau o bobl sydd yn helpu i ddatblygu, comisiynu a darparu gwasanaethau. Ni ddylid eu gweld fel pe baent â hierarchiaeth oddi mewn iddynt.

Soniodd Kirsty am y proffesiynau sydd yn gysylltiedig â meddygaeth. Cyfarfûm ag aelodau o'r proffesiynau hynny'n ddiweddar mewn cynhadledd yng Nghasnewydd a thrafodasom y mater hwn. Rhoddais ar ddeall i'r grwpiau iechyd lleol y bydd yn rhaid iddynt gymhwyso arbenigedd y proffesiynau sydd yn gysylltiedig â meddygaeth at bob rhaglen gwella iechyd. Mae hynny'n golygu

advisory groups developed by the professions allied to medicine so that they influence the health improvement programme. Therefore, we should not get hung up on the detail, although I would accept the spirit of amendment 2 in that we are looking at how local health groups can be as inclusive as possible.

I refer to amendment 4. The Government is considering future arrangements for regulating private healthcare and that must go out to consultation. It is therefore premature for us to support the amendment. We are looking at the need to regulate private healthcare. People receiving private healthcare through the NHS will be covered by the Commission for Health Improvement.

Kirsty Williams: Do you think therefore that it is acceptable that certain patients in Wales who are treated in private facilities, as is their democratic right, are not subject to the same quality checks as NHS patients? Do you not think that it is our duty to protect all Welsh patients whether they are treated by the NHS or in a private setting?

Jane Hutt: That is the reason for the consultation. The Government is looking at arrangements for inspecting and regulating private care. That is firmly on the agenda. However, the Commission for Health Improvement was set up to look at NHS services. Quality measure is vital and that is what we should be addressing.

I thank all the contributors for their positive viewpoints on partnerships and the opportunities they provide. Helen Mary Jones talked about the need to bring in issues such as the National Carers Strategy, the needs of black and ethnic minorities and morality. Health improvement programmes drive the way in which we deliver our services. They must be tested against issues relating to the diverse needs in Wales, including carers and the voluntary sector. Carers already have a strong voice in the Assembly and the National Carers Strategy will be debated shortly in the Health and Social Services

mw y na siarad â hwy. Mae'n golygu ymgynghori â'r grwpiau ymgynghorol a ddatblygwyd gan y proffesiynau sydd yn gysylltiedig â meddygaeth fel y gallant ddylanwadu ar y rhaglen gwella iechyd. Felly, ni ddylem gael ein dal yn ôl gan y manylion, er y byddwn yn derbyn ysbryd gwelliant 2 i'r graddau ein bod yn ystyried sut y gall grwpiau iechyd lleol fod mor gynhwysol â phosibl.

Cyfeiriai at welliant 4. Mae'r Llywodraeth yn ystyried y trefniadau ar gyfer rheoleiddio gofal iechyd preifat yn y dyfodol a bydd yn rhaid ymgynghori ar hynny. Mae felly'n gynamserol inni gefnogi'r gwelliant. Yr ydym yn ystyried yr angen i reoleiddio gofal iechyd preifat. Bydd rhai sydd yn derbyn gofal iechyd preifat drwy'r NHS wedi eu cynnwys gan y Comisiwn Gwella Iechyd.

Kirsty Williams: A ydych yn credu, felly, ei bod yn dderbyniol nad yw rhai cleifion yng Nghymru a drinnir mewn cyfleusterau preifat, yn unol â'u hawl democrataidd, yn ddarostyngedig i'r un gwiriadau ansawdd â chleifion yr NHS? Oni chredwch ei bod yn ddyletswydd arnom i warchod yr holl gleifion yng Nghymru pa un a drinnir hwy gan yr NHS neu mewn lleoliad preifat?

Jane Hutt: Dyna'r rheswm dros yr ymgynghori. Mae'r Llywodraeth yn ystyried trefniadau ar gyfer archwilio a rheoleiddio gofal preifat. Mae lle pendant i hynny ar yr agenda. Fodd bynnag, fe sefydlwyd y Comisiwn Gwella Iechyd i edrych ar wasanaethau'r NHS. Mae mesur ansawdd yn holl bwysig a dyna'r hyn y dylem roi sylw iddo.

Diolchaf i'r holl gyfranwyr am eu safbwyntiau cadarnhaol ar bartneriaethau a'r cyfleoedd y maent yn eu darparu. Soniodd Helen Mary Jones am yr angen i gynnwys materion fel y Strategaeth Gofalwyr Genedlaethol, anghenion lleiafrifoedd du ac ethnig a moesoldeb. Y rhaglenni gwella iechyd sydd yn llywio'r modd y darparwn ein gwasanaethau. Rhaid eu profi yn ôl materion sydd yn berthnasol i'r anghenion amrywiol yng Nghymru, gan gynnwys gofalwyr a'r sector gwirfoddol. Mae gan ofalwyr lais cryf yn y Cynulliad eisoes ac fe drafodir y Strategaeth Gofalwyr Genedlaethol cyn hir

Committee.

yn y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

Thank you Brian Gibbons, Ron Davies, Christine Chapman and others for drawing attention to the bigger picture. The Health Act is one part of the wider solution. 'Better Health, Better Wales' brings us the opportunities to tackle ill-health and poverty. If we do not tackle them, we will not deal with waiting lists. I have been told from the first day I became Secretary for Health and Social Services, 'For goodness' sake, get on with the big job of improving the health of the people of Wales.'

Diolch i Brian Gibbons, Ron Davies, Christine Chapman ac eraill am dynnu sylw at y darlun ehangach. Mae'r Ddeddf Iechyd yn un rhan o ateb ehangach. Mae 'Gwell Iechyd, Gwell Cymru' yn rhoi'r cyfleoedd inni fynd i'r afael ag afiechyd a thlodi. Os na wnawn hynny, ni fyddwn yn ymdrin â'r rhestrau aros. Dywedwyd wrthyf ers fy niwrnod cyntaf yn Ysgrifennydd Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, 'Er mwyn popeth, ewch ymlaen â'r gwaith mawr o wella iechyd pobl Cymru.'

In the first quarter of this year, 3,500 more people were treated than during the same time last year. We must place the long-term health improvement agenda at the forefront. Local health alliances and partnerships with local government provide the opportunities and the stimulation for us to deal with those issues.

Yn chwarter cyntaf y flwyddyn hon, rhoddwyd triniaeth i 3,500 yn fwy o bobl nag yn yr un cyfnod y llynedd. Rhaid inni roi'r lle amlycaf i'r agenda gwella iechyd dymor hir. Mae cynghreiriau a phartneriaethau iechyd lleol gyda llywodraeth leol yn darparu'r cyfleoedd a'r symbyliad inni ddelio â'r materion hynny.

We have a distinctive agenda for Wales. Why be defensive about it? It is not party politics. We should be proud of our agenda.

Mae gennym agenda arbennig ar gyfer Cymru. Pam y dylem fod yn amddiffynnol am hynny? Nid gwleidyddiaeth bleidiol mohoni. Dylem fod yn falch o'n hagenda.

Christine Humphreys: Os ydym yn sôn am agenda ar gyfer Cymru, a fydddech yn cytuno bod yn rhaid inni gael cynlluniau ar gyfer gwasanaeth iechyd drwy gyfrwng y Gymraeg i'r rhai a ddymuna hynny? A ydych chi hefyd yn cytuno y dylem sicrhau bod y gwasanaeth iechyd yn buddsoddi llawer mwy o arian mewn pethau megis NHS Direct er mwyn sicrhau bod yna feddalwedd Cymraeg ar gael ar gyfer trin cleifion ac ar gyfer trafod gyda chleifion?

Christine Humphreys: If we are discussing an agenda for Wales, would you agree that we must have plans for a health service through the medium of Welsh for those who wish to have it? Do you also agree that we need to ensure that the health service invests a great deal more money in such things as NHS Direct to ensure that there is Welsh language software available for treating patients and for discussing issues with patients?

4:09 p.m.

Jane Hutt: That is part of a health improvement agenda that recognises the diversity of Wales and the need to ensure that patients can receive Welsh medium information from the people in the service who work with them. It is vital that we take note of that and it must be addressed in our health improvement programme. It is being addressed in our implementation of NHS Direct in a way which is distinctive to Wales. It will be a bilingual service. We need to

Jane Hutt: Mae hynny'n rhan o agenda gwella iechyd sydd yn cydnabod amrywiaeth Cymru a'r angen i sicrhau y gall cleifion dderbyn gwybodaeth drwy'r Gymraeg oddi wrth y rhai yn y gwasanaeth sydd yn gweithio gyda hwy. Mae'n holl bwysig inni gofio hynny a rhaid rhoi sylw i hynny yn ein rhaglen gwella iechyd. Mae'n derbyn sylw wrth inni weithredu NHS Direct mewn modd sydd yn arbennig i Gymru. Bydd yn wasanaeth dwyieithog. Bydd angen inni ei

discuss it further. We do not want to have devolution for the sake of devolution. We do not want to set up separate bodies. We want to try to reduce the number of public bodies and bureaucracies in Wales, not have more of them for the sake of party politics. People want solutions in their communities. They want health services and social services that will meet their needs. They want to know that the Assembly is looking after and developing their services. They want to know that local government is co-operating at a local level with people who work in the service and with the health authorities to deliver local strategies. Let us not play down the fact that we are distinctive in Wales. We are addressing issues such as cancer services. We have our own breast cancer targets that are stronger than the targets set in England. We have our national service framework on cervical cancer. We are developing our mental health strategies. We have our cancer service advisory group, which is making great progress.

We are taking great strides in the Health and Social Services Committee. We have our primary care strategy. We have discussed the fact that we are not moving down the road towards primary care trusts because we have local health groups and we want to give them a chance to develop in partnership. We should recognise that we are being distinctive in Wales, not just for the sake of it, but in order to have Welsh solutions for Welsh problems. Also, we have reduced the number of trusts so that the bureaucracies do not dominate the agenda. Trusts are driven by our agenda, by our local health improvement programmes and by the fact that we now have a legislative backing through the Health Act which will make us work in a much more strategic way in Wales and counteract our inheritance of a divisive, internal market which destroyed opportunities for people in Wales and made the health statistics worse. We must challenge that through this Assembly.

drafod ymhellach. Nid ydym am gael datganoli er mwyn datganoli. Nid ydym am sefydlu cyrff ar wahân. Yr ydym am geisio cwtogi ar nifer y cyrff cyhoeddus a biwrocratiaethau yng Nghymru, nid cael ychwaneg ohonynt er mwyn gwleidyddiaeth bleidiol. Mae pobl am gael atebion yn eu cymunedau. Maent am gael gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol sydd yn diwallu eu hanghenion. Maent am wybod bod y Cynulliad yn gofalu am eu gwasanaethau ac yn eu datblygu. Maent am wybod bod llywodraeth leol yn cydweithredu ar lefel leol gyda phobl sydd yn gweithio yn y gwasanaeth a chyda'r awdurdodau iechyd er mwyn gweithredu strategaethau lleol. Na foed inni fychanu'r ffaith ein bod yn wahanol yng Nghymru. Yr ydym yn ymdrin â materion fel gwasanaethau cancer. Mae gennym dargedau am ganer y fron sydd yn gryfach na'r rhai a osodwyd yn Lloegr. Mae gennym fframwaith gwasanaeth cenedlaethol ar gyfer cancer ceg y groth. Yr ydym yn datblygu ein strategaethau iechyd meddwl. Mae gennym grŵp ymgynghorol ar wasanaethau cancer, sydd yn gwneud cynnydd rhagorol.

Yr ydym yn cymryd camau breision yn y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae gennym strategaeth gofal sylfaenol. Yr ydym wedi trafod y ffaith nad ydym yn symud tuag at ymddiriedolaethau gofal sylfaenol gan fod gennym grwpiau iechyd lleol ac yr ydym am roi cyfle iddynt ddatblygu mewn partneriaeth. Dylem gydnabod ein bod yn gweithredu'n wahanol yng Nghymru, ac nid gweithredu er mwyn gweithredu, ond er mwyn cael atebion Cymreig i broblemau Cymreig. Yr ydym hefyd wedi cwtogi ar nifer yr ymddiriedolaethau fel na fydd y biwrocratiaethau'n flaenaf ar yr agenda. Fe lywir yr ymddiriedolaethau gan ein hagenda, gan ein rhaglenni gwella iechyd lleol a chan y ffaith fod cefnogaeth ddeddfwriaethol gennym drwy'r Ddeddf Iechyd a fydd yn peri inni weithio'n llawer mwy strategol yng Nghymru gan wrthweithio treftadaeth y farchnad fewnol gynhennus a ddinistriodd gyfleoedd i bobl yng Nghymru gan waethygu'r ystadegau iechyd. Rhaid inni herio hynny drwy'r Cynulliad hwn.

The Presiding Officer: We will now vote on **Y Llywydd:** Pleidleisiwn yn awr ar welliant

amendment 1.

*A vote was held by show of hands.
Amendment rejected.*

The Presiding Officer: We will now vote on amendment 2.

*A vote was held by show of hands.
Amendment adopted.*

Y Llywydd: Pleidleisiwn yn awr ar welliant 3.

*Cynhaliwyd pleidlais drwy ddangos dwylo.
Derbyniwyd y gwelliant.*

The Presiding Officer: We will now vote on amendment 4.

A vote was held by show of hands.

The Presiding Officer: I am in doubt as to the result. I therefore call for a confirmatory vote.

4:19 p.m.

*Pleidlais y Cynulliad oedd: O blaid 28, Ymatal 0, Yn erbyn 27.
The Assembly divided: For 28, Abstain 0, Against 27.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Bates, Mick
Black, Peter
Bourne, Nick
Cairns, Alun
Davies, David
Davies, Geraint
Davies, Glyn
Davies, Janet
Davies, Jocelyn
German, Michael
Graham, William
Hancock, Brian
Humphreys, Christine
Jarman, Pauline
Jones, Elin
Jones, Gareth
Jones, Helen Mary
Jones, Ieuan Wyn
Lloyd, David
Melding, David
Morgan, Jonathan
Randerson, Jenny
Rogers, Peter
Ryder, Janet
Thomas, Owen John
Thomas, Rhodri Glyn

1.

*Cynhaliwyd pleidlais drwy ddangos dwylo.
Gwrthodwyd y gwelliant.*

Y Llywydd: Pleidleisiwn yn awr ar welliant 2.

*Cynhaliwyd pleidlais drwy ddangos dwylo.
Derbyniwyd y gwelliant.*

The Presiding Officer: We will now vote on amendment 3.

*A vote was held by show of hands.
Amendment adopted.*

Y Llywydd: Pleidleisiwn yn awr ar welliant 4.

Cynhaliwyd pleidlais drwy ddangos dwylo.

Y Llywydd: Nid wyf yn sicr o'r canlyniad.
Galwaf felly am bleidlais gadarnhau.

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Barrett, Lorraine
Butler, Rosemary
Chapman, Christine
Davies, Andrew
Davies, Ron
Edwards, Richard
Essex, Sue
Feld, Val
Gibbons, Brian
Gregory, Janice
Griffiths, John
Gwyther, Christine
Halford, Alison
Hart, Edwina
Hutt, Jane
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Law, Peter
Lewis, Huw
Marek, John
Michael, Alun
Middlehurst, Tom
Morgan, Rhodri
Neagle, Lynne
Pugh, Alun
Sinclair, Karen

Williams, Kirsty
Williams, Phil

Thomas, Gwenda

Amendment adopted.

Derbyniwyd y gwelliant.

The Presiding Officer: We will now vote on the amended motion, that the Assembly

Y Llywydd: Pleidleisiwn yn awr ar y cynnig wedi'i ddiwygio, sef bod y Cynulliad

recognises the contribution made by the implementation of the Health Act 1999 in Wales in enabling the NHS and its partners to move positively into the new millennium;

yn cydnabod cyfraniad gweithredu'r Ddeddf Iechyd 1999 yng Nghymru wrth gynorthwyo'r NHS a'i bartneriaid i symud ymlaen mewn modd cadarnhaol i'r mileniwm newydd;

welcomes the significant contribution the Act makes to promoting genuine partnership between health authorities, NHS Trusts, local health groups and their members, local authorities and the voluntary sector. This will be in ways which best serve the people of Wales; by placing assessing and meeting the needs of patients, users and carers at the heart of their aims, irrespective of which services are needed;

yn croesawu cyfraniad arwyddocaol y Ddeddf at hyrwyddo partneriaethau gwirioneddol rhwng yr awdurdodau iechyd, Ymddiriedolaethau'r NHS, grwpiau iechyd lleol a'u haelodau, yr awdurdodau lleol a'r sector gwirfoddol. Gwneir hyn mewn ffordd sydd yn gwasanaethu pobl Cymru orau; sef sicrhau bod asesu a diwallu anghenion cleifion, defnyddwyr a gofalwyr wrth graidd eu hamcanion, beth bynnag fo'r gwasanaethau sydd eu hangen;

acknowledges that local health groups provide an opportunity for greater partnership between primary health and social care;

yn cydnabod bod grwpiau iechyd lleol yn creu cyfleoedd ar gyfer mwy o gydweithio rhwng gofal iechyd sylfaenol a gofal cymdeithasol;

examines the need to reserve a place for a nurse on the executive committees of local health groups;

yn ystyried yr angen i gadw lle ar gyfer nyrs ar bwyllgorau gweithredol grwpiau iechyd lleol;

accepts the need for a strategic approach within the Assembly to lead and support all stakeholders in delivering this challenging agenda, and to this end calls on the Government of Wales to develop those aspects of the Health Act 1999 which do not respond adequately to the needs of Wales; and

yn derbyn yr angen am strategaeth oddi mewn i'r Cynulliad i arwain a rhoi cymorth i'r holl gyfranddeiliaid yn y broses o gyflwyno'r agenda hon sydd yn llawn her, ac i'r diben hwn, yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddatblygu'r agweddau hynny ar y Ddeddf Iechyd 1999 nad ydynt yn ymateb yn ddigonol i anghenion Cymru; ac

further expresses its support for the extension of the remit of the proposed Commission for Health Improvement to encompass the private health sector in addition to the NHS.

yn mynegi ei gefnogaeth ymhellach i ymestyn cwrmpas gwaith y Comisiwn Gwella Iechyd arfaethedig er mwyn cwrmpasu'r sector iechyd preifat yn ogystal â'r NHS.

A vote was held by show of hands.

Cynhaliwyd pleidlais drwy ddangos dwylo.

The Presiding Officer: I think the amended motion is rejected.

Y Llywydd: Credaf fod y cynnig diwygiedig wedi ei wrthod.

Janet Davies: I ask for a confirmatory vote.

Janet Davies: Gofynnaf am bleidlais gadarnhau.

The Presiding Officer: There has been a request for a confirmatory vote.

Y Llywydd: Cafwyd cais am bleidlais gadarnhau.

*Pleidlais y Cynulliad oedd: O blaid 20, Ymatal 0, Yn erbyn 33.
The Assembly divided: For 20, Abstain 0, Against 33.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Bates, Mick
Black, Peter
Davies, Geraint
Davies, Janet
Davies, Jocelyn
German, Michael
Hancock, Brian
Humphreys, Christine
Jarman, Pauline
Jones, Elin
Jones, Gareth
Jones, Helen Mary
Jones, Ieuan Wyn
Lloyd, David
Randerson, Jenny
Ryder, Janet
Thomas, Owen John
Thomas, Rhodri Glyn
Williams, Kirsty
Williams, Phil

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Barrett, Lorraine
Bourne, Nick
Butler, Rosemary
Cairns, Alun
Chapman, Christine
Davies, Andrew
Davies, David
Davies, Glyn
Edwards, Richard
Feld, Val
Gibbons, Brian
Graham, William
Gregory, Janice
Griffiths, John
Gwyther, Christine
Halford, Alison
Hart, Edwina
Hutt, Jane
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Law, Peter
Lewis, Huw
Marek, John
Melding, David
Michael, Alun
Middlehurst, Tom
Morgan, Jonathan
Morgan, Rhodri
Neagle, Lynne
Pugh, Alun
Rogers, Peter
Sinclair, Karen
Thomas, Gwenda

Amended motion rejected.

Gwrthodwyd y cynnig wedi'i ddiwygio.

Diwygio Rheolau Sefydlog Revision to Standing Orders

The Presiding Officer: The next motion requires a two thirds majority of those voting in order to be adopted.

Y Llywydd: Mae angen mwyafrif o ddwy ran o dair o'r rhai sydd yn pleidleisio er mwyn derbyn y cynnig nesaf.

The Business Secretary (Andrew Davies): I propose

Y Trefnydd (Andrew Davies): Cynigïaf

that the Assembly, acting under section 46(6) of the Government of Wales Act 1998, and Standing Order No. 26:

fod y Cynulliad, gan weithredu dan adran 46(6) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, a Rheol Sefydlog Rhif 26:

i) *approves the following revisions to*

i) *yn cymeradwyo'r diwygiadau*

the Standing Orders;

- ii) *resolves that Revision 4 shall take effect in relation to any motion or amendment tabled on or after 2 December 1999;*
- iii) *resolves that all other revisions shall take effect immediately.*

Revision 1

Add new paragraph 5.4A after paragraph 5.4:

5.4A Where no objection by at least 10 Members has been made, the Presiding Officer shall allow one Member from each political group to comment briefly on the Assembly Business Secretary's statement and shall then allow the Assembly Business Secretary to reply.

Revision 2

In paragraph 6.3 (iii) delete 'motion' and substitute 'topic'.

Revision 3

In paragraph 6.12

- i) *delete '(rather than a motion)'*
- ii) *delete 'three working days' and substitute 'five working days'*

Revision 4

Add new paragraph 6.12A after paragraph 6.12:

6.12A A motion or amendment which refers to any document may not be tabled unless the document is available to all Members before or at the time of tabling. A document is available to all Members if Members have access to it by electronic means, or if a hard copy has been made available to Members or (where the size of the document means that it is not reasonably practicable to make it available by other means) if a copy has been deposited in the Library. A Member tabling a motion or amendment to which this paragraph relates shall be required to state whether and by what means any document referred to has been made available to Members. If it appears to the Presiding Officer that a motion or amendment has been

canlynol i'r Rheolau Sefydlog;

- ii) *yn penderfynu y bydd Diwygiad 4 yn gymwys mewn perthynas ag unrhyw gynnig neu welliant a gyflwynir ar 2 Rhagfyr 1999 neu wedi hynny;*
- iii) *yn penderfynu y daw pob diwygiad arall i rym ar unwaith.*

Diwygiad 1

Ychwaneger paragraff 5.4A newydd ar ôl paragraff 5.4:

5.4A Lle na chafwyd gwrthwynebiad gan o leiaf 10 Aelod, bydd y Llywydd yn caniatáu i un Aelod o bob grŵp gwleidyddol gyflwyno sylwadau cryno ar ddatganiad y Trefnydd a bydd wedyn yn caniatáu i'r Trefnydd ymateb.

Diwygiad 2

Ym mharagraff 6.3 (iii) dileer 'wneud cynnig' a dodder 'gynnig pwnc' yn ei le.

Diwygiad 3

Ym mharagraff 6.12

- i) *dileer '(yn hytrach na chynnig)'*
- ii) *dileer 'dri diwrnod gwaith' a dodder 'bum niwrnod gwaith' yn ei le*

Diwygiad 4

Ychwaneger paragraff 6.12A newydd ar ôl paragraff 6.12:

6.12A Ni chaniateir cyflwyno unrhyw gynnig neu welliant sydd yn cyfeirio at unrhyw ddogfen oni bai bod y ddogfen ar gael i bob Aelod pryd y cyflwynir y cynnig neu cyn hynny. Ystyrir bod dogfen ar gael i bob Aelod os bydd Aelodau yn medru cael mynediad ati drwy gyfrwng electronig, neu os trefnwyd bod copi caled ar gael i'r Aelodau neu (lle bo maint y ddogfen yn golygu nad yw hi'n rhesymol ymarferol i sicrhau ei bod ar gael trwy ddulliau eraill) os yw copi wedi'i adneuo yn y Llyfrgell. Bydd rhaid i Aelod sydd yn cyflwyno cynnig neu welliant y mae'r paragraff hwn yn berthnasol iddo ddatgan a sicrhawyd bod dogfen y cyfeirir ati ar gael i'r Aelodau a sut y gwnaethpwyd hynny. Os yw'n hysbys i'r Llywydd fod cynnig neu welliant

tabled in breach of the requirements of this paragraph, the Presiding Officer shall not permit it to be debated until the document has been made available to all Members and such further time has elapsed as the Presiding Officer considers appropriate.

Revision 5

In paragraph 6.13 delete 'two working days' and substitute 'three working days'.

Revision 6

Delete paragraphs 6.20 to 6.23 and substitute new paragraphs:

6.20 The Presiding Officer shall put a motion or an amendment to a vote by electronic means; or failing that, by roll call, in alphabetical order, of the membership.

6.21 Where at least three Members, before a vote is taken, so request, the bell shall be rung. If votes are to be taken immediately after one another, the bell need not be rung more than once. After an interval of five minutes the vote or votes shall be taken. The Presiding Officer shall declare the vote closed and announce the result. The names of Members voting, including those recording an abstention, shall be included in the reports of the Assembly's plenary proceedings. A report of the vote shall also be made available before the end of the session in which the vote took place.

6.22 A vote shall not be valid unless at least 10 Members participate. If fewer than 10 Members participate, that business shall be held over to the next plenary meeting and the Assembly shall proceed to the next item of business. In determining the number of Members participating in a vote the Presiding Officer and those recording an abstention shall be regarded as participating.

(Paragraph 6.23 is no longer needed.)

Revision 7

Insert after the words 'two questions' in paragraph 6.28:

'(or, in the case of the First Secretary, no more than one question)'

wedi ei gyflwyno yn groes i ofynion y paragraff hwn, ni fydd y Llywydd yn caniatáu iddo gael ei drafod nes bod y ddogfen wedi'i rhoi ar gael i bob Aelod a nes bydd amser pellach y mae'r Llywydd yn barnu ei fod yn briodol wedi mynd heibio.

Diwygiad 5

Ym mharagraff 6.13 dileer 'ddau ddiwrnod gwaith' a dodder 'dri diwrnod gwaith' yn ei le.

Diwygiad 6

Dileer paragraffau 6.20 i 6.23 a dodder yn eu lle baragraffau newydd:

6.20 Bydd y Llywydd yn cynnal pleidlais ar gynnig neu welliant trwy gyfrwng electronig; neu yn niffyg hynny alw cofrestr o'r Aelodau yn nhrefn yr wyddor.

6.21 Os bydd o leiaf tri Aelod, cyn i bleidlais gael ei chynnal, yn gofyn am hynny, cenir y gloch. Os bydd pleidleisiau yn cael eu cynnal un yn syth ar ôl y llall, ni fydd rhaid canu'r gloch mwy nag unwaith. Ar ôl ysbaid o bum munud, cymerir y bleidlais neu'r pleidleisiau. Bydd y Llywydd yn datgan bod y bleidlais wedi cau ac yn cyhoeddi'r canlyniad. Cynhwysir enwau'r Aelodau sydd yn pleidleisio, gan gynnwys y rhai sydd yn nodi eu bod yn ymatal, yn yr adroddiadau ar drafodion llawn y Cynulliad. Sicrheir hefyd y bydd adroddiad o'r bleidlais ar gael cyn diwedd y sesiwn y cymerwyd y bleidlais ynddi.

6.22 Ni fydd pleidlais yn ddilys oni fydd o leiaf 10 Aelod yn cymryd rhan. Os bydd llai na 10 Aelod yn cymryd rhan, cedwir y busnes hwnnw tan y cyfarfod llawn nesaf ac aiff y Cynulliad ymlaen i'r eitem nesaf o fusnes. Wrth ddyfarnu nifer yr Aelodau sydd yn cymryd rhan mewn pleidlais, cymerir bod y Llywydd a'r rhai sydd yn nodi eu bod yn ymatal yn cymryd rhan.

(Ni bydd angen paragraff 6.23 mwyach)

Diwygiad 7

Doder, ar ôl y geiriau 'dau gwestiwn' ym mharagraff 6.28:

'(neu, yn achos y Prif Ysgrifennydd, ddim mwy nag un cwestiwn)'

Revision 8

In paragraph 6.36 delete 'four working days' and substitute 'five working days'

(Also correction to Welsh version of 6.36—see Welsh text of Revisions.)

Diwygiad 8

Dileer paragraff 6.36 a dodder yn ei le:

6.36 Bydd yr Aelod y tynnwyd ei enw yn hysbysu'r Llywydd o'r pwnc o leiaf bum niwrnod gwaith cyn y ddadl yn ei gylch.

Revision 9

Delete paragraph 22.24 and substitute:

22.24

i) When a draft Order has been approved by resolution of the Assembly it shall be made by being signed.

ii) When the Assembly Cabinet has determined under paragraph 22.25 that the requirement that a draft Order be laid before the Assembly and approved by a resolution of the Assembly is to be disapplied, a draft Order shall be signed when it has successfully completed any procedures required by this part of this Standing Order which have not been disapplied under paragraph 22.25.

iii) The persons authorised to sign an Order made under this part of this Standing Order are the Presiding Officer, the Deputy Presiding Officer, the First Secretary and any other Assembly Secretary but a person other than the Presiding Officer may only sign an Order if the Presiding Officer is absent. In the absence of the Presiding Officer an Order shall be signed by the Deputy Presiding Officer. In the absence of both the Presiding Officer and the Deputy Presiding Officer an Order may be signed by the First Secretary or, in the absence of the First Secretary, by any other Assembly Secretary. The fact that an authorised person who signed an Order in the absence of the Presiding Officer was not the most appropriate person to do so under the provisions of this sub-paragraph shall not affect the validity of the making of the

Diwygiad 9

Dileer paragraff 22.24 a dodder yn ei le:

22.24

i) Pan fydd Gorchymyn drafft wedi ei gymeradwyo drwy benderfyniad gan y Cynulliad, caiff ei wneud drwy gael ei lofnodi.

ii) Pan fydd Cabinet y Cynulliad wedi penderfynu o dan baragraff 22.25 y dylid datgymhwyso'r gofyniad i Orchymyn drafft gael ei osod gerbron y Cynulliad a'i gymeradwyo drwy benderfyniad y Cynulliad, llofnodir Gorchymyn drafft pan fydd wedi cwblhau yn llwyddiannus unrhyw weithdrefnau sydd yn ofynnol o dan y rhan hon o'r Rheol Sefydlog hon sydd heb eu datgymhwyso o dan baragraff 22.25.

iii) Y rhai sydd ag awdurdod i lofnodi Gorchymyn a wneir o dan y rhan hon o'r Rheol Sefydlog hon yw'r Llywydd, y Dirprwy Llywydd, y Prif Ysgrifennydd ac unrhyw Ysgrifennydd Cynulliad arall ond ni chaiff neb ond y Llywydd lofnodi Gorchymyn oni bai fod y Llywydd yn absennol. Yn absenoldeb y Llywydd dylai Gorchymyn gael ei lofnodi gan y Dirprwy Lywydd. Yn absenoldeb y Llywydd a'r Dirprwy Lywydd caiff y Prif Ysgrifennydd neu, yn absenoldeb y Prif Ysgrifennydd unrhyw Ysgrifennydd Cynulliad arall, lofnodi Gorchymyn. Ni fyddai'n effeithio ar ddilysrwydd gwneud y Gorchymyn petasai'r sawl a lofnododd Gorchymyn yn absenoldeb y Llywydd heb fod yr un mwyaf priodol i wneud hynny yn unol â rheolau'r is-baragraff hwn.

Order.

Revision 10

In paragraph 22.59 (iii) delete 'two working days' and substitute 'five working days'.

The report from the Business Committee, which is on the Chamberweb, forms the background to this debate. All Committee Members have recommended the proposed changes to Standing Orders. All Members have had the opportunity to comment on a range of proposed changes to Standing Orders. These revisions form a first set of revisions to address some of the key concerns raised by Members and have all-party support. The Business Committee continues to consider further changes and we will come forward in future with those recommendations. These are likely to come before the Assembly in the new year. For those who may be watching this debate, I will briefly outline each of the proposed changes and the reasoning behind them.

First, revision 1, an addition after Standing Order No. 5.4. Members have on occasions felt frustrated that, in order to comment on my draft weekly statement, they have had to raise a formal objection supported by 10 Members. That provision will remain in the Standing Orders for occasions where there is genuine objection to the statement. The new proposed provision will allow one Member from each party to make a brief comment on the statement if they wish, without the need for a formal objection.

Revision 2 to Standing Order No. 6.3 is a consequential amendment relating to the Assembly's earlier decision to amend the provisions on the short debate.

Revision 3 to Standing Order No. 6.12 is one of the more substantial revisions. It changes the timing of the tabling of motions from three to five working days. That will give Members a better opportunity to prepare for debates. Revision 5 to Standing Order No. 6.13 amends the timing of tabling of amendments from two to three working days.

Diwygiad 10

Ym mharagraff 22.59 (iii) dileer 'dau ddiwrnod gwaith' a dodder 'pum niwrnod gwaith' yn ei le.

Yr adroddiad o'r Pwyllgor Busnes, a geir ar we'r Siambr, yw cefndir y ddadl hon. Mae holl Aelodau'r Pwyllgor wedi argymhell y newidiadau a gynigir i'r Rheolau Sefydlog. Cafodd yr holl Aelodau gyfle i roi sylwadau ar amryw o newidiadau a gynigiwyd i'r Rheolau Sefydlog. Y diwygiadau hyn sydd yn ffurfio'r set gyntaf o ddiwygiadau i ymdrin â rhai o'r prif bryderon a godwyd gan yr Aelodau ac mae'r holl bleidiau yn eu cefnogi. Mae'r Pwyllgor Busnes yn parhau i ystyried newidiadau pellach a deugn â'r argymhellion hynny ger eich bron yn y dyfodol. Mae'r rhain yn debygol o ddod gerbron y Cynulliad yn y flwyddyn newydd. Ar gyfer y rheini sydd yn gwyllo'r ddadl hon, rhoddaf amlinelliad byr o bob un o'r newidiadau a gynigiwyd a'r rhesymu sydd yn gefn iddynt.

Yn gyntaf, diwygiad 1, sef ychwanegiad ar ôl Rheol Sefydlog Rhif 5.4. Teimlai'r Aelodau'n rhwystredig ar brydiau eu bod yn gorfod codi gwrthwynebiad ffurfiol gyda chefnogaeth 10 Aelod er mwyn rhoi sylwadau ar y datganiad busnes drafft a gyflwynaf bob wythnos. Fe erys y ddarpariaeth honno yn y Rheolau Sefydlog ar gyfer achlysuron pan geir gwrthwynebiad gwirioneddol i'r datganiad. Bydd y ddarpariaeth newydd a gynigir yn caniatáu i un Aelod o bob plaid roi sylw byr ar y datganiad os dymunant, heb orfod codi gwrthwynebiad ffurfiol.

Mae diwygiad 2 i Reol Sefydlog Rhif 6.3 yn newid canlyniadol sydd yn ymwneud â phenderfyniad cynharach y Cynulliad i newid y darpariaethau ar gyfer y ddadl fer.

Diwygiad 3 i Reol Sefydlog 6.12 yw un o'r diwygiadau mwyaf sylweddol. Mae'n newid amseriad cyflwyno cynigion o dri i bum niwrnod gwaith. Bydd hynny yn rhoi gwell cyfle i'r Aelodau baratoi ar gyfer dadleuon. Mae diwygiad 5 i Reol Sefydlog 6.13 yn newid amseriad cyflwyno gwelliannau o ddau i dri diwrnod gwaith. Bydd hynny eto

That will again give Members an extra day to consider amendments to motions.

Revision 4, Standing Order No. 6.12A, is another substantial revision to address what has been a burning issue during the Assembly's early days—the availability of papers for debate. This prefigures the short debate later this afternoon on access to information. This revision will enable the Presiding Officer to rule out of order any motion which refers to a document that is not available at the time the motion is tabled. This, taken together with revision 3, will ensure that papers are available a week before debates. I propose that this revision should take effect on or after 2 December. The reason for this slight delay is due to the difficulty of having the budget papers ready a week before the budget is due to be debated. The timing and arrangements for this year's budget have already been agreed, which must be taken into account in this revision to Standing Orders. However, we shall aim to live within the spirit of the revision for all other papers until the revision comes into force.

Revision 6 to Standing Order No. 6.20 proposes a revision to our voting procedures to make every vote an electronic or roll-call vote rather than a show of hands. The bell will only be rung for five minutes before the vote is taken if three Members so request; what we now term a 'confirmatory vote'. Otherwise, the vote will be taken immediately. This is in response to Members' desires to have their names recorded against each vote. That allows our constituents to follow how we are voting and to hold us to account. The provision that there must be a quorum of 10 Members for a vote to be valid has been retained.

Revision 7 to Standing Order No. 6.28 brings into effect the current voluntary agreement between the parties that each Member should only table one question to the First Secretary.

Revision 8 to Standing Order No. 6.36 is consequential to revision 3, and brings the timing of the tabling of the short debate into line with that of general motions. This will

yn rhoi diwrnod ychwanegol i'r Aelodau ystyried gwelliannau i gynigion.

Mae diwygiad 4, sef Rheol Sefydlog Rhif 6.12A, yn newid sylweddol arall er mwyn ymdrin â'r hyn a fu'n bwnc llosg yn ystod dyddiau cynnar y Cynulliad—argaeledd papurau ar gyfer dadleuon. Mae hyn yn rhagddarlunio'r ddadl fer yn ddiweddarach brynhawn heddiw ar fynediad at wybodaeth. Drwy'r diwygiad hwn bydd modd i'r Llywydd ddatgan bod cynnig allan o drefn os yw'n cyfeirio at ddogfen nad yw ar gael pan gyflwynir y cynnig. Bydd hynny, ynghyd â diwygiad 3, yn sicrhau y bydd papurau ar gael wythnos cyn y dadleuon. Cynigïaf y bydd y diwygiad hwn yn dod i rym ar 2 Rhagfyr neu wedi hynny. Y rheswm am yr oedi byr hwn yw'r anhawster o gael papurau'r gyllideb yn barod wythnos cyn y ddadl ar y gyllideb. Mae'r amseriad a'r trefniadau ar gyfer cyllideb eleni eisoes wedi eu cytuno ac mae angen rhoi ystyriaeth i hynny yn y diwygiad hwn i'r Rheolau Sefydlog. Fodd bynnag, fe geisiwn weithredu'n gydnaws â'r diwygiad gyda'r holl bapurau eraill nes daw'r diwygiad i rym.

Mae diwygiad 6 i Reol Sefydlog 6.20 yn cynnig diwygio'n gweithdrefnau pleidleisio er mwyn gwneud pob pleidlais yn un drwy gyfrwng electronig neu drwy alw cofrestr yn hytrach na drwy ddangos dwylo. Ni chenir y gloch bum munud cyn cynnal y bleidlais oni bai fod tri Aelod yn gofyn am hynny; sef yr hyn a alwn bellach yn 'bleidlais gadarnhau'. Fel arall, cynhelir y bleidlais ar unwaith. Mae hyn mewn ymateb i ddymuniadau'r Aelodau i gael cofnodi eu henwau wrth bob pleidlais. Mae hynny'n caniatáu i'n hetholwyr ddilyn sut yr ydym yn pleidleisio a'n galw i gyfrif. Cadwyd y ddarpariaeth bod angen cworwm o 10 Aelod i gymryd rhan os yw pleidlais i fod yn ddilys.

Mae diwygiad 7 i Reol Sefydlog 6.28 yn gweithredu'r cytundeb gwirfoddol a geir rhwng y pleidiau ar hyn o bryd na ddylai pob Aelod gyflwyno ond un cwestiwn i'r Prif Ysgrifennydd.

Mae diwygiad 8 i Reol Sefydlog 6.36 yn ganlyniadol i ddiwygiad 3, ac mae'n cysoni amseriad cyflwyno'r ddadl fer â hynny ar gyfer cynigion cyffredinol. Bydd hyn yn

have an impact on the timing of the ballot for short debates and the Table Office will be in touch with Members if the revisions are adopted.

While revision 9 to Standing Order No. 22.24 looks complicated, it is merely a clarification of the existing Standing Order to ensure that there is no doubt as to whom should sign Assembly Orders.

Revision 10 to Standing Order No. 22.59 is again a consequential revision on the timing of tabling motions.

It is proposed that all these revisions, with the exception of revision 4, should take effect immediately. I speak for all Members of the Business Committee in recommending these changes to the Assembly. We believe that they will enhance the working of the Assembly and make it more accountable, open and transparent.

William Graham: I endorse what the Business Secretary has said. The Conservative group welcomes these changes. They are made in the light of the experience we have all had during the past months and we hope that they will make the Assembly more accountable.

The Presiding Officer: We will now vote on the motion.

*A vote was held by show of hands.
Motion adopted.*

4:29 p.m.

The Presiding Officer: I record with sadness the passing of the vote by show of hands.

effeithio ar amseriad y bleidlais ar gyfer dadleuon byr a bydd y Swyddfa Gyflwyno'n cysylltu â'r Aelodau os derbynnir y diwygiadau.

Er bod diwygiad 9 i Reol Sefydlog 22.24 yn ymddangos yn gymhleth, nid yw ond yn eglurhad o'r Rheol Sefydlog bresennol er mwyn sicrhau nad oes amheuaeth ynghylch pwy a ddylai arwyddo Gorchmynion y Cynulliad.

Mae diwygiad 10 i Reol Sefydlog Rhif 22.59 yn ddiwygiad canlyniadol eto ar amseriad cyflwyno cynigion.

Cynigir y bydd yr holl ddiwygiadau hyn, heblaw am ddiwygiad 4, yn dod i rym ar unwaith. Siaradaf ar ran holl aelodau'r Pwyllgor Busnes wrth argymhell y newidiadau hyn i'r Cynulliad. Credwn y byddant yn gwella gwaith y Cynulliad ac yn ei wneud yn fwy atebol, agored a thryloyw.

William Graham: Ategaf yr hyn a ddywedodd y Trefnydd. Mae'r grŵp Ceidwadol yn croesawu'r newidiadau hyn. Fe'u gwnaethpwyd yng ngoleuni'r profiad a gawsom oll yn ystod y misoedd diwethaf a gobeithiwn y byddant yn gwneud y Cynulliad yn fwy atebol.

Y Llywydd: Fe bleidleisiwn yn awr ar y cynnig.

*Cynhaliwyd pleidlais drwy ddangos dwylo.
Derbyniwyd y cynnig.*

Dadl Fer Short Debate

Mynediad at Wybodaeth yn y Cynulliad a Llywodraeth Leol Access to Information in the Assembly and Local Government

John Marek: We are moving into an information society and soon we will talk about information-rich and information-poor people and societies. Before this becomes common place, we must put our house in

John Marek: Yr ydym ar ddechrau oes y gymdeithas wybodaeth a byddwn yn sôn maes o law am bobl a chymdeithasau tlawd a chyfoethog o ran gwybodaeth. Cyn i hynny ddod yn beth cyffredin, rhaid inni roi trefn ar

order. I do not want to criticise anybody because we are a new Assembly and have only been set up for about six months. However, we have some way to go before we put our house in order. I would like the Government to listen and then try to take on board as many of the points as I can make in the time allotted. I hope that the other three speakers from the other parties will then have a few minutes to speak.

Why are we having this debate? It is apposite, first of all, because the Westminster Government is to introduce a Freedom of Information Bill and a Local Government (Organisation and Standards) Bill. These Bills will affect information, its availability and its timeliness. The Freedom of Information Bill will affect the Assembly. We have just changed our Standing Orders. Papers must now be available and I am sure that everybody agrees with that. We have five days for tabling motions instead of three and have just put an end to motions being tabled at 4.55 p.m. on a Friday afternoon when we have all gone away for the weekend, meaning that we do not get them until the Monday. Importantly, information must be not only available but timely. If it is not timely, it can be of no use.

The Legislation Committee is trying to organise an ordered list of legislation. What is legislation? Some things clearly are not legislation. Circulars, planning policy guidance notes and other guidance are legislation. It is the guidance that matters, not necessarily the statutory instrument. Assembly Members should have access to all these. Various directions by Secretaries must also be known to the Assembly so that we know when they have been made and, where possible, when they are likely to be made so that we can comment if we so wish.

The media still complain that they do not have access to the intranet, but that is not the source of the complaint. The problem is that they have access to the internet and information appears on the internet much

ein pethau. Nid wyf am feirniadu neb oherwydd yr ydym yn Gynulliad newydd nad yw wedi ei sefydlu ond ers tua chwe mis. Fodd bynnag, mae gennym ryw faint o waith i'w wneud cyn y byddwn wedi rhoi trefn ar bethau. Fe hoffwn i'r Llywodraeth wrando ac wedyn rhoi ystyriaeth i gynifer o bwyntiau ag y gallaf eu nodi yn yr amser a neilltuwyd. Gobeithiaf y bydd y tri siaradwr arall o'r pleidiau eraill yn cael ychydig funudau i siarad wedyn.

Pam yr ydym yn cael y ddadl hon? Yn gyntaf oll, mae'n amserol, oherwydd disgwylir y bydd Llywodraeth San Steffan yn cyflwyno Mesur Rhyddid Gwybodaeth a Mesur Llywodaeth Leol (Trefniadaeth a Safonau). Bydd y Mesurau hyn yn effeithio ar wybodaeth, ei hargaeledd a'i hamseroldeb. Bydd y Mesur Rhyddid Gwybodaeth yn effeithio ar y Cynulliad. Yr ydym newydd newid ein Rheolau Sefydlog. Bellach bydd yn rhaid i bapurau fod ar gael ac yr wyf yn sicr bod pawb yn cytuno â hynny. Mae gennym bum niwrnod ar gyfer cyflwyno cynigion yn lle tri ac yr ydym newydd roi terfyn ar gyflwyno cynigion am 4.55 p.m. ar brynhawn Gwener pan fydd pawb ohonom wedi gadael am y penwythnos, oedd yn golygu nad oeddem yn eu cael hyd y dydd Llun. Mae'n bwysig bod gwybodaeth ar gael a'i bod yn amserol hefyd. Os nad yw'n amserol, ni all fod o ddefnydd.

Mae'r Pwyllgor Deddfau'n ceisio llunio rhestr drefnus o ddeddfwriaeth. Beth yw deddfwriaeth? Ceir rhai pethau y mae'n amlwg nad deddfwriaeth mohonynt. Deddfwriaeth yw cylchlythyrau, nodiadau ar ganllawiau polisi cynllunio a chanllawiau eraill. Y canllawiau sydd yn bwysig, nid o reidrwydd yr offeryn statudol. Dylai Aelodau'r Cynulliad gael mynediad at bob un o'r rhain. Rhaid i'r gwahanol gyfarwyddiadau gan Ysgrifenyddion fod yn hysbys i'r Cynulliad fel y gwyddom pryd y byddant wedi eu gwneud a, lle y bo modd, pryd y maent yn debygol o gael eu gwneud fel y gallwn roi sylwadau os dymunwn.

Mae'r cyfryngau'n dal i gwyno nad oes ganddynt fynediad at y fewnrwyd, ond nid hynny yw gwraidd y gŵyn. Y broblem yw bod ganddynt fynediad at y rhyngrwyd ac mae'r wybodaeth yn ymddangos ar y

later than on the intranet. Good, timely information for the media is absolutely right. The draft budget last Thursday is a case in point. The people who raised the point of order—and I will not mention any names—made the points well. Information must be available. I did not know that the draft budget was to be produced until after the event. As a Member, I would have liked to have had it flagged up to me on Monday or Tuesday so that I could stay here on Thursday to see this important statement. I do not want to accuse anybody; I just want to talk of principles. However, that is the criticism of the sequence of events last week. We must get that right in future. I understand the Executive's wish to issue press statements on Thursdays and Fridays when we have all gone home. Which executive in a legislature does not do that? However, we must get this right because the legislature is wise to these matters and a good executive will work in harmony with the legislature as opposed to being at cross-purposes with it.

I had a number of telephone calls, for example from the voluntary sector centre in Cardiff, which has great difficulty in obtaining information from the Assembly. We must also consider our Standing Orders. Standing Order No. 17.2 says that information likely to cause harm to commercial or economic interests could be kept secret by the Executive. That is a catch-all phrase. We need to consider that carefully and try and define it properly so that only information which would cause harm—whether we define 'harm' as substantial harm or just harm—is kept secret. We need to define harm properly. We do not need to include economic interests because that provides the catch-all element.

David Clarke, a Government Minister in Tony Blair's Government in 1997 was sacked for insisting that the word 'substantial' be included. Jack Straw produced a weak draft in the spring of this year. He has tightened it up but it is still not good enough. Above all, the Freedom of Information Bill will provide

rhyngrwyd yn hwyrach o lawer nag ar y fewnwyd. Mae gwybodaeth dda, amserol ar gyfer y cyfryngau'n gwbl briodol. Mae'r gyllideb ddrafft ddydd Iau diwethaf yn enghraifft o hyn. Yr oedd y rhai a gododd y pwynt o drefn—ac nid enwaf neb—wedi gwneud y pwyntiau'n dda. Rhaid i wybodaeth fod ar gael. Ni wyddwn fod y gyllideb ddrafft i'w chyflwyno tan ar ôl i hynny ddigwydd. Fel Aelod, buasai'n dda gennyf pe bai hynny wedi ei dynnu i'm sylw ddydd Llun neu ddydd Mawrth fel y gallaswn aros yma ddydd Iau i weld y datganiad pwysig hwn. Nid wyf am gyhuddo neb; sôn am egwyddorion yr ydwyf. Fodd bynnag, dyna'r feirniadaeth ar y gyfres o ddigwyddiadau wythnos diwethaf. Rhaid inni gael hynny'n iawn yn y dyfodol. Deallaf ddyddmuniad yr Adran Weithredol i gyhoeddi datganiadau i'r wasg ar ddydd Iau a dydd Gwener wedi inni fynd adref. Pa adran weithredol mewn corff deddfwriaethol nad yw'n gwneud hynny? Fodd bynnag, rhaid inni wneud hyn yn iawn oherwydd mae'r corff deddfwriaethol yn ymwybodol o'r materion hyn a bydd adran weithredol dda yn gweithio'n gytûn â'r corff deddfwriaethol yn hytrach na mynd yn groes iddo.

Derbyniais sawl galwad ffôn, oddi wrth ganolfan y sector gwirfoddol yng Nghaerdydd er enghraifft, sydd yn profi anhawster mawr wrth gael gwybodaeth o'r Cynulliad. Rhaid inni hefyd ystyried ein Rheolau Sefydlog. Dywed Rheol Sefydlog Rhif 17.2 y gall yr Adran Weithredol beidio â datgelu gwybodaeth sydd yn debygol o wneud drwg i fuddiannau masnachol neu economaidd. Mae hynny'n air i ddal popeth. Dylem ystyried hynny'n ofalus a cheisio'i ddiffinio'n iawn fel mai dim ond gwybodaeth a fyddai'n gwneud drwg—pa un a ddiffiniwn 'drwg' yn ddrwg sylweddol neu'n ddrwg yn unig—a gedwir yn gyfrinachol. Dylem ddiffinio 'drwg' yn iawn. Nid oes rhaid inni gynnwys buddiannau economaidd oherwydd hynny sydd yn rhoi'r elfen dal popeth.

Diswyddwyd David Clarke, a oedd yn Weinidog yn Llywodraeth Tony Blair yn 1997, am fynnu cynnwys y gair 'substantial'. Cyflwynodd Jack Straw ddrafft gwan yn y gwanwyn eleni. Mae wedi ei dynhau ond nid yw'n ddigon da eto. Yn bwysicach na dim, bydd y Mesur Rhyddid Gwybodaeth yn

for an information commissioner. No doubt that information commissioner will have influence and powers in Wales. However, we need our own information commissioner because our situation is different and we have our own form of Government.

My main suggestion is that we should have our own commissioner to supervise the National Assembly for Wales and local government. He or she should have powers to force disclosure and to demand that reasons be given where disclosure is not allowed. We also need that information commissioner to supervise local authorities. The Local Government Act 1972 states that if information may be given which is likely to lead to a disclosure of exempt information or confidential information then a local authority can go into secret session. I am told that that does not happen often in south Wales but it happens often in north Wales. We need to do something about that.

I have an example from my hometown. It is not my intention to comment about Wrexham or about crisis closure of lavatories or playgrounds and so on, but the *Wrexham Evening Leader* states that,

'Members of the council's executive board are set to discuss the draft budget plans at a special meeting behind closed doors at the Guildhall on Thursday.'

Why should they discuss something as vital as a draft budget behind closed doors? Clearly all is not well in north Wales as far as the Local Government Act 1972 is concerned. Monitoring officers are employees of the council concerned. I have written once or twice to them, as I am sure have other Members. However, I have yet to find a case where a monitoring officer who is an employee of the council, has said something at variance to the decision of that council with regard to secrecy.

An information commissioner could put this right. An independent person would have the standing and ability to enquire and provide an

darparu ar gyfer comisiynydd gwybodaeth. Mae'n sicr y bydd gan y comisiynydd gwybodaeth hwnnw ddylanwad a phwerau yng Nghymru. Fodd bynnag, mae arnom angen ein comisiynydd gwybodaeth ein hunain oherwydd yr ydym mewn sefyllfa wahanol ac mae gennym ffurf Lywodraeth ein hunain.

Y prif awgrym sydd gennyf yw y dylem gael ein comisiynydd ein hunain i oruchwylio Cynulliad Cenedlaethol Cymru a llywodraeth leol. Dylai ef neu hi feddu ar bwerau i orfodi datgeliad a mynnu y rhoddir rhesymau pan na chaniateir datgeliad. Mae arnom angen hefyd i'r comisiynydd gwybodaeth hwnnw oruchwylio awdurdodau lleol. Mae'r Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 yn datgan y gall awdurdod lleol ddechrau ar sesiwn caeedig os rhoddir gwybodaeth sydd yn debygol o arwain at ddatgelu gwybodaeth eithriedig neu wybodaeth gyfrinachol. Dywedir wrthyf nad yw hynny'n digwydd yn aml yn ne Cymru ond fe ddigwydd yn aml yng ngogledd Cymru. Dylem wneud rhywbeth ynghylch hynny.

Mae gennyf enghraifft o'm tref enedigol. Nid yw'n fwiad gennyf wneud sylwadau am Wrecsam nac am yr argyfwng ynghylch cau toiledau neu leoedd chwarae ac yn y blaen, ond fe ddywed y *Wrexham Evening Leader*,

'Mae aelodau bwrdd gweithredol y cyngor yn mynd i drafod cynlluniau'r gyllideb ddrafft mewn cyfarfod arbennig y tu ôl i ddrysau caeedig yn y Guildhall ddydd Iau.'

Pam y dylent drafod rhywbeth mor hanfodol â chyllideb ddrafft y tu ôl i ddrysau caeedig? Mae'n amlwg nad yw popeth fel y dylai fod o dan y Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r swyddogion monitro'n weithwyr cyflog i'r cyngor dan sylw. Ysgrifennais atynt unwaith neu ddwy, fel y gwnaeth Aelodau eraill, yr wyf yn siŵr. Fodd bynnag, nid wyf eto wedi gweld achos lle y mae swyddog monitro sydd yn weithiwr i'r cyngor, wedi dweud rhywbeth sydd yn wahanol i benderfyniad y cyngor hwnnw gyda golwg ar gyfrinacholdeb.

Fe allai comisiynydd gwybodaeth gywiro hynny. Byddai gan rywun annibynnol y statws a'r gallu i holi a darparu

effective and cheap remedy for any citizens who are peeved by any secretive action by local government.

Access to information is far from being a right. There is no right of access to information about matters that have gone to committee for decision or matters that have been delegated to an officer. Full councils will meet in public but, and this is the important point, under the new Local Government (Organisation and Standards) Bill, many councils will not operate within the committee system but within the cabinet or executive system, in which case the 1972 Act will not apply and there will be no statutory need for disclosure. The full council will still meet in public, as may the scrutiny committees, but many of the authorities' decisions may now be taken either by an elected mayor or executive councillors or an executive council. Since these structures propose executive councillors and executive decisions they will not fall under the 1972 Act and it will not be necessary for these decisions to be made public. A Government White Paper exists, which proposes that authorities should provide records of decisions. That will not be the case, as far as I understand, in the Local Government Act. We can make a difference by insisting that that is the case in Wales. The Local Government Ombudsman for Wales has said he thinks that in so far as papers for meetings of the executive will not be available in advance that will be a diminution of the current rules of openness.

There is an agenda that the Assembly should address. What are the solutions? This has been considered by at least one Select Committee in the House of Commons. Agendas and background papers of local government meetings of new executive decision-making structures should be published in advance. Every step in the decision-making process should be documented and made public. Reasons for decisions, together with factual and analytical material, should be published as should

meddyginiaeth rad ac effeithiol ar gyfer unrhyw ddinesydd sydd yn anfonlon ynghylch unrhyw weithred gyfrinachgar gan lywodraeth leol.

Mae mynediad at wybodaeth ymhell o fod yn hawl. Nid oes hawl i gael mynediad at wybodaeth ynghylch materion a aeth i bwyllgor i'w penderfynu neu faterion a ddirprwywyd i swyddog. Bydd cynghorau llawn yn cyfarfod yn gyhoeddus ond, a dyma'r pwynt pwysig, o dan y Mesur Llywodraeth Leol (Trefniadaeth a Safonau) newydd, ni fydd llawer o gynghorau'n gweithio oddi mewn i'r system pwyllgorau ond oddi mewn i'r system cabinet neu adran weithredol, ac os digwydd hynny ni fydd Deddf 1972 yn gymwys ac ni fydd angen statudol i ddatgelu. Bydd y cyngor llawn yn parhau i gyfarfod yn gyhoeddus, fel y gall y pwyllgorau archwilio, ond gall llawer o benderfyniadau'r awdurdodau gael eu gwneud un ai gan faer etholedig neu gan gynghorwyr gweithredol neu gan gyngor gweithredol. Gan fod y strwythurau hyn yn cynnig cynghorwyr gweithredol a phenderfyniadau gweithredol ni fyddant o fewn cwmplas Deddf 1972 ac ni fydd angen rhoi gwybod i'r cyhoedd am y penderfyniadau hyn. Fe gyhoeddwyd Papur Gwyn gan y Llywodraeth, sydd yn cynnig y dylai awdurdodau ddarparu cofnodion o benderfyniadau. Ni fydd hynny'n digwydd, hyd y deallaf fi, yn y Ddeddf Llywodraeth Leol. Fe allwn wneud gwahaniaeth drwy fynnu y bydd hynny'n digwydd yng Nghymru. Dywedodd Ombwdsmon Llywodraeth Leol Cymru ei fod yn credu y bydd y rheolau cyfredol ynghylch bod yn agored yn cael eu gwanhau i'r graddau na fydd papurau ar gyfer cyfarfodydd yr adran weithredol ar gael ymlaen llaw.

Mae honno'n agenda y dylai'r Cynulliad ymdrin â hi. Beth yw'r atebion? Fe ystyriwyd hyn gan o leiaf un Pwyllgor Dethol yn Nhŷ'r Cyffredin. Dylai agendâu a phapurau cefndir cyfarfodydd llywodraeth leol o fewn y strwythurau penderfynu gweithredol newydd gael eu cyhoeddi ymlaen llaw. Dylid cofnodi pob cam yn y broses penderfynu a chyhoeddi hynny. Dylid cyhoeddi rhesymau dros benderfyniadau, ynghyd â deunydd ffeithiol neu ddadansoddol, yn yr un modd â chynghor swyddogion i'r maer neu'r cynghorwyr

officers' advice to the mayor or executive councillors. There is a distinction between that and civil servants' advice to the Secretaries in the National Assembly for Wales.

4:39 p.m.

However, it is important for councillors to know whether a decision taken by a council executive is based upon or contrary to officers' advice. All background papers need to be supplied, not just those upon which the officers relied in making their judgement and advice. Finally, everything should be put on a website so that there is access to it. Why cannot local government do that? We are trying to do so, although we have not got it right yet. Local authorities should do it also.

In conclusion, I urge that we have an information commissioner for the National Assembly for Wales. That commissioner should have powers to curb any unwarranted secrecy here or in local government. That should be done cheaply and efficiently, aiding the citizen to get redress. There is a strong agenda in what I have said and I urge the Government of Wales to grasp it in the interests of Welsh people, of Assembly efficiency and, in the long run, of the Executive itself. Time will tell whether they do this.

Jocelyn Davies: In selecting this topic for debate, John Marek has demonstrated again his interest in the principles of good government. I share that interest. John does not take a partisan view although he could easily do so. He wants to see a right of access to government information, even if that Government is a Labour Government. That is an important point, and I am not making a joke here, because it is easy to demand openness and transparency and access to information when you sit on the opposition benches, but John sees the need for good government regardless of party affiliation.

I have also heard his strong views on holding

gweithredol. Mae gwahaniaeth rhwng hynny a chyngor gweision sifil i Ysgrifenyddion yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru.

Fodd bynnag, mae'n bwysig i gynghorwyr wybod a yw penderfyniad a wnaethpwyd gan adran weithredol y cyngor yn seiliedig ar gyngor y swyddogion neu'n groes iddo. Mae angen darparu'r holl bapurau cefndir, nid yn unig y rhai y dibynnodd y swyddogion arnynt wrth ddyfarnu a chynghori. Yn olaf, dylid rhoi popeth ar wefan fel bod modd cael mynediad ato. Pam nad oes modd i lywodraeth leol wneud hynny? Yr ydym ni'n ceisio gwneud hynny, er nad ydym wedi cael hynny'n iawn eto. Dylai'r awdurdodau lleol wneud hynny hefyd.

I derfynu, pwysaf am gael comisiynydd gwybodaeth i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Dylai'r comisiynydd hwnnw feddu ar bwerau i gyfyngu ar unrhyw gyfrinacholdeb direswm yma neu mewn llywodraeth leol. Dylid gwneud hynny'n rhad ac yn effeithlon, gan helpu'r dinesydd i gael iawn. Mae agenda gref yn yr hyn a ddywedais a phwysaf ar Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael â hi er budd pobl Cymru, er budd effeithlondeb y Cynulliad ac, yn y tymor hir, yr Adran Weithredol ei hun. Amser a ddengys a fyddant yn gwneud hynny.

Jocelyn Davies: Wrth ddewis y pwnc hwn i'w drafod, mae John Marek unwaith eto wedi amlygu ei ddiddordeb yn egwyddorion llywodraeth dda. Rhannaf y diddordeb hwnnw. Nid yw John yn ymgymryd â safbwynt pleidiol er y byddai'n ddigon rhwydd iddo wneud hynny. Mae am weld hawl i gael mynediad at wybodaeth y llywodraeth, hyd yn oed os yw'r Llywodraeth honno yn un Lafur. Mae hynny'n bwynt pwysig, ac nid cellwair yr ydwyf yn y fan hyn, oherwydd hawdd yw mynnu agwedd agored a thryloywder a mynediad at wybodaeth a chithau'n eistedd ar feinciau'r wrthblaid, ond fe wêl John yr angen am lywodraeth dda beth bynnag am ymlyniadau pleidiol.

Clywais hefyd ei farn gref am ddal yr Adran

the Executive accountable, which is another principle of good government. This Executive is somewhat ungrateful for his efforts in that direction. However, I wish to concentrate on the access to information aspect in the Assembly because the Assembly is a corporate body—we are all equal here—and it represents the new politics that we all said we wanted before the elections. Our Standing Orders reflect that new politics and I congratulate Ron Davies for that although he is not present to hear it. The Standing Orders include an unprecedented access of information to Assembly documents, at least in theory.

Standing Order No. 17.4 gives all Assembly Members the right to inspect virtually any document in the possession or under the control of the Assembly, that contains material relating to any Assembly proceedings. Documents can be withheld but only in prescribed situations. The First Secretary mentioned that Standing Order today. That Standing Order is derived from section 71(2) of the Government of Wales Act 1998 so it gives life to a statutory provision. There is no question that that right is in the gift of anybody to give or deny. That is the theory. We have not tested that out yet but having rights and getting access may not be the same thing.

That depends on several matters. First, you need to know that the document exists and people have to admit that they have the information you want. For example, if I am told that the Assembly has no documentation relating to the third Transfer of Functions Order, I have little choice but to accept that. I might not believe it but I have to accept it. Then there is the issue of the interpretation of the Standing Order. At this point, Presiding Officer, I turn to you because nobody has yet interpreted this Standing Order. I ask you that, in the spirit and the vision of the Assembly, the right of access to information be interpreted as widely as possible and the instances of denying that access be strictly controlled. That will move us some way towards open government. That would be to

Weithredol yn gyfrifol, sydd yn egwyddor arall mewn llywodraeth dda. Mae'r Adran Weithredol hon braidd yn anniolchgar am ei ymdrechion yn y cyfeiriad hwnnw. Fodd bynnag, dymunaf ganolbwyntio ar yr agwedd o fynediad at wybodaeth yn y Cynulliad oherwydd mae'r Cynulliad yn gorff corfforaethol—yr ydym oll yn gyfartal yma—ac yn cynrychioli'r wleidyddiaeth newydd yr oedd pawb ohonom yn dweud ein bod am ei chael cyn yr etholiadau. Mae ein Rheolau Sefydlog yn adlewyrchu'r wleidyddiaeth newydd honno a llongyfarchaf Ron Davies ar hynny er nad yw'n bresennol i glywed hynny. Mae'r Rheolau Sefydlog yn cynnwys hawl mynediad na fu ei fath o'r blaen at ddogfennau'r Cynulliad, yn ddamcaniaethol o leiaf.

Mae Rheol Sefydlog Rhif 17.4 yn rhoi hawl i holl Aelodau'r Cynulliad archwilio bron bob dogfen sydd ym meddiant neu dan reolaeth y Cynulliad, sydd yn cynnwys deunydd sydd yn ymwneud ag unrhyw un o drafodion y Cynulliad. Fe ellir dal dogfennau'n ôl ond dim ond mewn sefyllfaoedd a ragnodwyd. Soniodd y Prif Ysgrifennydd am y Rheol Sefydlog honno heddiw. Mae'r Rheol Sefydlog honno'n deillio o adran 71(2) yn Neddf Llywodraeth Cymru 1998 felly mae'n ymgorffori darpariaeth statudol. Nid oes amheuaeth bod yr hawl hwnnw yn llaw rhywun i'w roi neu'i wrthod. Dyna'r ddamcaniaeth. Nid ydym wedi rhoi prawf ar hynny eto ond mae'n bosibl nad yr un peth yw meddu ar hawliau a chael mynediad.

Mae hynny'n dibynnu ar sawl mater. Yn gyntaf, rhaid ichi wybod bod y ddogfen yn bodoli a rhaid i rywun gyfaddef bod y wybodaeth yr ydych am ei chael ganddo. Er enghraifft, os dywedir wrthyf nad oes gan y Cynulliad ddogfennau sydd yn ymwneud â'r trydydd Gorchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau, nid oes gennyf ddewis ond derbyn hynny. Efallai na chredaf hynny ond rhaid imi ei dderbyn. Wedyn dyna fater dehongli'r Rheol Sefydlog. Yn y fan hon, Lywydd, fe drof atoch chi oherwydd nid oes neb wedi dehongli'r Rheol Sefydlog hon eto. Yn unol ag ysbryd a gweledigaeth y Cynulliad, gofynnaf ichi sicrhau y ceir dehongliad mor eang â phosibl ar yr hawl i fynediad at wybodaeth ac y rheolir enghreifftiau o wrthod y mynediad hwnnw yn

everyone's advantage because, following the next election, the present Executive may have good reason to thank John Marek for his efforts because they cannot guarantee that they will not be sitting on the opposition benches. None of us know what the future holds on that. Access to information would improve our standing with the press. They work here and they could find information instead of having to guess or even make things up. In turn that would improve our standing with the public. It is a win-win situation for us and there is little to fear. I commend John's suggestions and thank him for allowing me time to speak.

David Davies: I welcome the debate on access to information initiated by John Marek. The Conservatives would fully support his call for an information commissioner. I second Jocelyn Davies's comments and assure her that when we are sitting on the front bench after the next election we will ensure that Plaid Cymru and Labour have access to information.

I was keen to speak on this issue because I have had difficulty in accessing information which I have been promised in this Chamber and in writing. In particular, I refer to the information campaign before the Assembly elections. Many of us had grave concerns about the company used. I will not go into detail but there were close links between leading members of that company and the Labour Party. I felt that it was fair that we had access to that information.

I tabled questions and was informed that an evaluation was taking place of the efforts of that company, Bell Pottinger Good Relations. In a letter to the First Secretary, I asked whether he would publish details of the evaluation research set up. In a reply a month or so later he stated that a report would be made available. On 14 September the First Secretary once again promised in the Record that information was being collated and that the report 'will need to be shared'.

llym. Byddai hynny'n mynd â ni rywfaint yn nes at lywodraeth agored. Byddai hynny er mantais i bawb oherwydd, ar ôl yr etholiad nesaf, mae'n bosibl y bydd gan yr Adran Weithredol bresennol le i ddiolch i John Marek am ei ymdrechion oherwydd ni allant warantu na fyddant yn eistedd ar feinciau'r wrthblaid. Ni ŵyr neb ohonom beth a ddaw yn hynny o beth. Byddai mynediad at wybodaeth yn ennyn mwy o barch tuag atom ymysg y wasg. Maent yn gweithio yma a gallent ddod o hyd i wybodaeth yn lle gorfod dyfalu neu ddyfeisio hyd yn oed. Byddai hynny yn ei dro yn ennyn mwy o barch tuag atom ymysg y cyhoedd. Yr ydym yn sicr o fod ar ein hennill ac nid oes dim i'w ofni. Cefnogaf awgrymiadau John a diolchaf iddo am ganiatáu amser imi siarad.

David Davies: Croesawaf y ddadl ar fynediad at wybodaeth a gychwynnwyd gan John Marek. Mae'r Ceidwadwyr yn llwyr gefnogi ei alwad am gomisiynydd gwybodaeth. Eiliaf sylwadau Jocelyn Davies ac fe'i sicrhaf pan fyddwn yn eistedd ar y fainc flaen ar ôl yr etholiad nesaf y byddwn yn sicrhau y caiff Plaid Cymru a Llafur fynediad at wybodaeth.

Yr oeddwn yn awyddus i siarad ar y pwnc hwn am fy mod wedi profi anhawster wrth gael mynediad at wybodaeth a addawyd i mi yn y Siambr hon ac mewn ysgrifen. Cyfeiriai yn benodol at yr ymgyrch wybodaeth cyn etholiadau'r Cynulliad. Yr oedd llawer ohonom yn pryderu'n ddybryd ynghylch y cwmni a ddefnyddiwyd. Nid af i fanylu ond yr oedd cysylltiadau agos rhwng aelodau blaenllaw o'r cwmni hwnnw a'r Blaid Lafur. Teimlais mai teg fyddai inni gael mynediad at y wybodaeth honno.

Cyflwynais gwestiynau a rhoddwyd gwybod imi fod gwerthusiad yn digwydd ar ymdrechion y cwmni hwnnw, Bell Pottinger Good Relations. Mewn llythyr at y Prif Ysgrifennydd, gofynnais a oedd yn fodlon cyhoeddi manylion am yr ymchwil werthuso a ddechreuwyd. Mewn ateb ryw fis wedi hynny fe ddywedodd y byddai adroddiad ar gael. Ar 14 Medi fe addawodd y Prif Ysgrifennydd eto yn y Cofnod fod gwybodaeth yn cael ei chasglu ac 'y bydd angen rhannu' yr adroddiad.

I was therefore amazed when on 2 November, in reply to yet another question about the report on Bell Pottinger Good Relations and the Assembly information campaign, I was told that the agency appraisal is considered commercially sensitive and not normally available publicly. In other words, on at least two occasions and I believe on several others, I have been promised access to information about Bell Pottinger Good Relations both orally in the Chamber and in replies to written questions. I have now been told that I will almost certainly be denied that information. That is a worrying example of the lack of openness in the Assembly. I fully commend Mr Marek's decision to raise this subject and I hope that we will see progress in securing openness within the Assembly.

Michael German: I thank John Marek for bringing this matter to the short debate. It is typical of John to be a powerful advocate of freedom and access to information. He has done this in an elegant way and it may not have done him any good in his political career in terms of progress up the ladder. However, it has made him a champion of freedom and access, and I think this Chamber will be proud to recognise that.

I have five quick points. The important issue is that the Assembly is bedding down. However, we have had a catalogue of difficulties with Members unable to access information. That may or may not have been put right, but it is important that we have the goal of ensuring that access to information is as wide and as open as possible.

It should not be possible for anyone to stand here and say,

'I could not provide an amendment to that motion because I could not find it on the intranet or because it was not given to me in time or because I did not have appropriate notice.'

John was right to say that information should be available so that we have sufficient time to deal with it. The Legislation Committee is

Syndod i mi felly, pan dderbyniais ateb ar 2 Tachwedd i gwestiwn arall eto am yr adroddiad ar Bell Pottinger Good Relations ac ymgyrch wybodaeth y Cynulliad, oedd cael gwybod bod y gwerthusiad ar yr asiantaeth yn cael ei ystyried yn fasnachol sensitif ac na fyddai ar gael fel arfer i'r cyhoedd. Mewn geiriau eraill, ar o leiaf ddau achlysur ac ar sawl achlysur arall yr wyf yn credu, cefais addewid o fynediad at wybodaeth am Bell Pottinger Good Relations ar lafar ac yn y Siambr ac mewn atebion i gwestiynau ysgrifenedig. Dywedir wrthyf bellach fod y wybodaeth honno bron yn sicr o gael ei gwrthod i mi. Mae'r enghraifft hynny o ddiffyg ymagwedd agored yn y Cynulliad yn peri gofid. Yr wyf yn llwyr gefnogi penderfyniad Mr Marek i godi'r pwnc hwn a gobeithiaf y gwelwn gynnydd at sicrhau bod gwaith y Cynulliad yn agored.

Michael German: Diolchaf i John Marek am godi'r mater hwn yn y ddadl fer. Mae'n nodweddiadol o John ei fod yn ddadleuwr cryf dros ryddid a mynediad at wybodaeth. Fe wnaeth hyn mewn modd syber ac mae'n bosibl na wnaeth hynny unrhyw les iddo yn ei yrfa wleidyddol o ran dringo'r ysgol. Fodd bynnag, mae hyn wedi ei wneud yn lladmerydd dros ryddid a hawl mynediad, a chredaf y bydd y Siambr hon yn falch o gydnabod hynny.

Mae gennyf bum pwynt i'w gwneud yn gyflym. Y mater pwysig yw bod y Cynulliad yn ymsefydlogi. Fodd bynnag, cawsom restr faith o anawsterau lle'r oedd Aelodau'n methu â chael mynediad at wybodaeth. Mae'n bosibl bod hynny wedi ei unioni, ond mae'n bwysig inni osod y nod o sicrhau bod y mynediad at wybodaeth mor eang ac agored ag y bo modd.

Ni ddylai fod yn bosibl i neb sefyll yma a dweud,

'Ni allwn gyflwyno gwelliant i'r cynnig hwnnw am nad oeddwn yn gallu dod o hyd iddo ar y fewnwyd neu am na roddwyd ef imi mewn pryd neu am na chefais ddigon o rybudd.'

Yr oedd John yn iawn wrth ddweud y dylai gwybodaeth fod ar gael fel y cawn ddigon o amser i ymdrin â hi. Mae'r Pwyllgor Deddfau

looking at some of the matters which are not coming before the Assembly but which affect the lives of people in Wales. We need progress on that.

My second point is that we should judge the Assembly by the way we treat the press and the media. At the moment they do not have access to the intranet or to the corridors where Assembly Members' Offices are located. Some of us feel that it would be more appropriate to give people an opportunity to have a dialogue with us. If Members have access to information, we must also ensure that access to information is fully available to the media. They express what we do in more ways than we could possibly do ourselves.

4:49 p.m.

My third point is that we are still lacking an Assembly information centre. If you arrive at the door of the Assembly you can have a piece of paper that tells you what is going on. Would it not be possible to have an electronic access point in the milling area for the public to have access to everything that is available to Assembly Members? The Assembly needs to be more user-friendly for the public. We await anxiously the proposals on the new education centre that will allow people to develop their relationship with us.

My fourth point is that we have vested a huge amount of power in the First Secretary and the Cabinet. We have vested the power, for example, to recall the Assembly during recess. We have vested the power that the Assembly as a whole will not be able to amend the budget. The powers that we have handed over are powerful ones. We may need to think again, as we suggested at the beginning of the Assembly, about whether or not that is the most appropriate use of our powers.

My final point is about local government. Local government is being reformed, and in terms of access to information and openness it is going in one direction while the Assembly is going in the opposite direction. One of the great shames of the proposals that are before Westminster at the moment is that

yn edrych ar rai o'r materion nad ydynt yn dod gerbron y Cynulliad ond a fydd yn effeithio ar fywydau pobl yng Nghymru. Mae arnom angen cynnydd ar hynny.

Yr ail bwynt sydd gennyf yw y dylem farnu'r Cynulliad yn ôl y modd y byddwn yn trin y wasg a'r cyfryngau. Ar hyn o bryd nid oes ganddynt fynediad at y fewnwyd nac i'r coridorau lle y mae Swyddfeydd Aelodau'r Cynulliad. Mae rhai ohonom yn teimlo y byddai'n fwy priodol rhoi cyfle i bobl gael deialog â ni. Os oes gan yr Aelodau fynediad at wybodaeth, rhaid inni sicrhau hefyd fod mynediad at wybodaeth ar gael yn llawn hefyd i'r cyfryngau. Maent hwy'n cyfleu'r hyn a wnawn drwy lawer mwy o ffyrdd nag y gallem ni ein hunain.

Y trydydd pwynt sydd gennyf yw bod diffyg canolfan wybodaeth yn y Cynulliad o hyd. Os deuwch i ddrws y Cynulliad fe ellwch dderbyn darn o bapur sydd yn dweud wrthyb beth sydd yn mynd ymlaen. Oni fyddai'n bosibl cael pwynt mynediad electronig yn y neuadd i'r cyhoedd gael mynediad at bopeth sydd ar gael i Aelodau'r Cynulliad? Mae angen i'r Cynulliad fod yn fwy hwylus i'r cyhoedd. Yr ydym yn disgwyl yn bryderus am y cynigion ar y ganolfan addysg newydd a fydd yn caniatáu i bobl ddatblygu eu perthynas â ni.

Y pedwerydd pwynt yw ein bod wedi ymddiried pŵer aruthrol i'r Prif Ysgrifennydd a'r Cabinet. Yr ydym wedi ymddiried y pŵer, er enghraifft, i ailalw'r Cynulliad yn ystod y toriad. Yr ydym wedi ymddiried pŵer i'r graddau na fydd y Cynulliad fel cyfangorff yn gallu newid y gyllideb. Mae'r pwerau a drosglwyddwyd gennym yn rhai pwerus. Efallai y bydd yn rhaid inni ailystyried, fel yr awgrymwyd ar ddechrau'r Cynulliad, ai hynny yw'r modd mwyaf priodol inni arfer ein pwerau.

Mae'r pwynt olaf sydd gennyf yn ymwneud â llywodraeth leol. Mae llywodraeth leol yn cael ei diwygio, ac o ran mynediad at wybodaeth a bod yn agored mae'n mynd i gyfeiriad sydd yn groes i'r Cynulliad. Un o'r pethau gwarthus ynghylch y cynigion sydd gerbron senedd San Steffan ar hyn o bryd yw

the National Assembly for Wales cannot be adopted as a model by the local authorities in Wales. This is not because we could not put it into the eventual Act, but because of the way in which legislation is likely to be shaped so that there is a complete distinction between scrutiny and policy formation.

That is the difference between us. I spoke yesterday to a Labour councillor in a former Labour authority who decried the fact that he no longer has access to information to which he was formerly entitled. That is because the local authority, like many others in Wales, has adopted a structure that makes a firm distinction between policy formation and scrutiny.

As John rightly says, this is about information that is no longer made available, including background information provided by officials. People feel cut out in local government. The presumption must be in favour of openness. I welcome John's suggestion that we could consider someone to act as the guardian of openness and transparency in Wales for the people of Wales.

The Presiding Officer: I must point out that I am not setting a dangerous precedent by letting this short debate go on longer. As we finished the earlier debates slightly earlier than usual, there was no need to protect the time of the short debate in the same way. We are slightly beyond our 30 minutes. I call Andrew Davies, and shall take the same latitude towards the Executive as I took towards other Assembly Members.

Andrew Davies: It may sound ironic that I as Chief Whip of the Labour group am thanking John for raising this issue, but I do so genuinely. It is an important issue, and one that is close to my heart as a long-standing member of Liberty, formerly the National Council for Civil Liberties. I believe in freedom of information and am committed, as a member of the Executive, to providing that. I accept that there have been failures and weaknesses in some of our practices; however, they are acts of omission rather than commission. Although we have some

na all awdurdodau lleol yng Nghymru fabwysiadu Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn batrwm. Nid yw hynny oherwydd na allwn roi hynny yn y Ddeddf derfynol, ond oherwydd y modd yr oedd y ddeddfwriaeth yn debygol o gael ei siapio fel bod gwahaniad llwyr rhwng archwilio a llunio polisiau.

Dyna'r gwahaniaeth rhyngom. Bûm yn siarad ddoe â chynghorydd Llafur mewn awdurdod a fu'n un Llafur a oedd yn gresynu at y ffaith nad oedd ganddo fynediad bellach at wybodaeth yr oedd ganddo hawl i'w gweld cynt. Mae hynny am fod yr awdurdod lleol, fel llawer o rai eraill yng Nghymru, wedi mabwysiadu strwythur sydd yn gwahaniaethu'n bendant rhwng llunio polisiau ac archwilio.

Fel y dywedodd John yn gywir, mae hyn yn ymwneud â gwybodaeth nad yw ar gael bellach, gan gynnwys gwybodaeth gefndirol a ddarperir gan swyddogion. Mae pobl yn teimlo eu bod wedi eu torri allan o lywodraeth leol. Rhaid i'r rhagdybiaeth fod o blaid bod yn agored. Croesawaf awgrym John y gallem ystyried cael rhywun i weithredu fel gwarcheidwad ar lywodraeth agored a thryloyw yng Nghymru ar ran pobl Cymru.

Y Llywydd: Rhaid imi nodi nad wyf yn gosod cynsail beryglus drwy ganiatáu i'r ddadl fer fynd ymlaen yn hwy. Gan ein bod wedi gorffen y dadleuon blaenorol ychydig yn gynt na'r arfer, nid oedd angen diogelu amser y ddadl fer yn yr un modd. Aethom ychydig ymhellach na'r 30 munud. Galwaf ar Andrew Davies, a rhoddaf yr un rhyddid i'r Adran Weithredol ag a roddais i Aelodau eraill y Cynulliad.

Andrew Davies: Efallai ei bod yn swnio'n eironig fy mod i fel Prif Chwip y grŵp Llafur yn diolch i John am godi'r mater hwn, ond gwnaf hynny'n ddidwyll. Mae'n fater pwysig, ac yn un sydd yn agos i'm calon fel un sydd yn aelod ers amser maith o Liberty, Cyngor Cenedlaethol Hawliau Sifil cynt. Credaf mewn rhyddid gwybodaeth ac yr wyf wedi ymrwymo, fel aelod o'r Adran Weithredol, i ddarparu hynny. Derbyniaf fod methiannau a gwendidau yn rhai o'n harferion; fodd bynnag, anwaith yn hytrach na chamwaith yw'r rhain. Er bod cryn ffordd

way to go, the Assembly and the way it works has a good story to tell. We need to be more positive and upbeat about our practices rather than having a subtext of constantly belittling what we have already achieved. In many ways we are way in advance of other legislatures, not only in this country but throughout the world.

As the First Secretary made clear this afternoon in response to the oral question from Alison Halford, access to information is a fundamental principle which has underpinned the business of the National Assembly from the outset. As a democratically elected body accountable to the electorate, one of the Assembly's first achievements was to adopt the Code of Practice on Public Access to Information. This code goes further than the Code of Practice on Access to Government Information, and places the Assembly at the forefront of open government. I stress that the first principle of our Code of Practice states that there is a presumption of openness,

'The Assembly will make information available unless there are good reasons why it cannot. If it withholds information it will have to explain why.'

Members will be aware of the planned Freedom of Information Bill which was published in draft in May of this year. The requirements of the Bill, once enacted, will apply to the National Assembly for Wales and to its sponsored bodies. The Assembly's Code of Practice on Public Access to Information will provide a ready-made foundation for the Assembly 'scheme', which will have to be prepared under the proposed legislation.

The Freedom of Information Bill will require that a commissioner be established. That commissioner will be the Data Protection Registrar who will combine both roles. The Assembly will have to produce a scheme for approval under those proposals. Whether there is to be a Welsh commissioner is a matter for primary legislation and is not therefore under our direct jurisdiction. Assembly sponsored public bodies have been

o'n blaen eto, gall y Cynulliad ymfalchïo ynddo'i hun ac yn ei ddull o weithio. Dylem fod yn fwy cadarnhaol a chalonnog ynghylch ein harferion yn hytrach na chael isdestun o fychanu parhaus ar yr hyn a gyflawnwyd gennym eisoes. Mewn llawer o ffyrdd yr ydym ymhell ar y blaen i gyrff deddfwriaethol eraill, nid yn unig yn y wlad hon ond drwy'r byd.

Fel y rhoddodd y Prif Ysgrifennydd ar ddeall y prynhawn yma mewn ymateb i'r cwestiwn llafar gan Alison Halford, mae mynediad at wybodaeth yn egwyddor sylfaenol sydd yn ategu busnes y Cynulliad Cenedlaethol ers y dechrau. Fel corff a etholwyd yn ddemocrataidd sydd yn atebol i'r etholwyr, un o gyflawniadau cyntaf y Cynulliad oedd mabwysiadu'r Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Mae'r cod hwn yn mynd ymhellach na'r Cod Ymarfer ar Fynediad i Wybodaeth y Llywodraeth, ac yn rhoi'r Cynulliad ar y blaen o ran llywodraeth agored. Pwysleisiaf fod egwyddor gyntaf ein Cod Ymarfer yn datgan bod rhagdybiaeth o blaid bod yn agored,

'Bydd y Cynulliad yn sicrhau argaeledd gwybodaeth oni bai bod rhesymau da pam na all wneud hynny. Os ydyw yn cadw gwybodaeth iddo'i hunan bydd yn rhaid iddo egluro pam.'

Bydd yr Aelodau'n ymwybodol o'r Mesur Rhyddid Gwybodaeth arfaethedig y cyhoeddwyd drafft ohono ym Mai eleni. Bydd gofynion y Mesur, ar ôl ei weithredu, yn berthnasol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a'r cyrff a noddir ganddo. Bydd Cod Ymarfer y Cynulliad ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth yn sylfaen barod ar gyfer 'cynllun' y Cynulliad, y bydd yn rhaid ei baratoi o dan y ddeddfwriaeth arfaethedig.

Bydd y Mesur Rhyddid Gwybodaeth yn ei gwneud yn ofynnol i sefydlu comisiynydd. Y comisiynydd hwnnw fydd y Comisiynydd Diogelu Data a fydd yn cyfuno'r ddwy rôl. Bydd yn rhaid i'r Cynulliad gyflwyno cynllun i'w gymeradwyo o dan y cynigion hynny. Mae'r cwestiwn ynghylch comisiynydd i Gymru yn fater i'r deddfwriaeth sylfaenol ac nid yw felly o dan ein hawdurdod yn uniongyrchol.

invited to adopt the Assembly's Code and those who accept this invitation will also be well-placed to comply with the requirements of the Freedom of Information Act once passed. A major feature of the Assembly's Code of Practice on Public Access to Information is that it promotes a proactive approach to making information available rather than making it available only when asked.

The Assembly's Code of Practice on Public Access to Information is a major factor in meeting the requirements of section 70 of the Government of Wales Act 1998 and Standing Orders Nos. 8 and 17. To promote the public's awareness of their rights under the Code, it is about to be published on the Internet and we will be publishing a public information leaflet explaining the provisions of the Code in the new year.

We ought to celebrate our other measures which advance and promote our commitment to openness and access to information. Those include the fact that our Committees meet in public and, that we use the internet to disseminate information about the papers and proceedings of the Assembly. The latter is becoming an increasingly useful tool and one that is increasingly manageable and accessible.

In light of tomorrow's debate, I will make a practical illustration of our commitment to open government and access to information. The publication of the draft or green budget of Edwina Hart, the Finance Secretary, has allowed meaningful discussion to take place prior to the Plenary debate and thereafter in the Subject Committees. There was some dispute over the notice of that but we must recognise how new this process is and how far in advance of other budget-making processes in other legislatures. This is a new, open and transparent decision-making system and the Executive, as well as the Assembly, are committed to making it work. For example, any Assembly Member can access information on the intranet anywhere, whether in their office here, in their constituency, at home or via their laptop in a hotel or wherever.

Gwahoddwyd cyrff a noddir gan y Cynulliad i fabwysiadu Cod y Cynulliad a bydd y rhai sydd yn derbyn y gwahoddiad hwnnw mewn sefyllfa dda i gydymffurfio â gofynion y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth ar ôl ei phasio. Un nodwedd bwysig ar God Ymarfer y Cynulliad ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth yw ei fod yn hybu ymagwedd ragweithiol wrth ddarparu gwybodaeth yn hytrach na'i darparu ar ôl derbyn cais yn unig.

Mae Cod y Cynulliad ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth yn ffactor o bwys wrth gyflawni gofynion adran 70 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 a Rheolau Sefydlog Rhifau 8 a 17. Er mwyn hybu ymwybyddiaeth y cyhoedd o'u hawlau o dan y Cod, mae ar fin cael ei gyhoeddi ar y rhyngwryd a byddwn yn cyhoeddi taflen wybodaeth i'r cyhoedd sydd yn egluro darpariaethau'r Cod yn y flwyddyn newydd.

Dylem ganmol y mesurau eraill sydd gennym sydd yn datblygu ac yn hybu ein hymrwymiad i fod yn agored ac i roi mynediad at wybodaeth. Ymhlith y rhain y mae'r ffaith fod ein Pwyllgorau'n cyfarfod yn gyhoeddus a'n bod yn defnyddio'r rhyngwryd i ledaenu gwybodaeth am bapurau a thrafodion y Cynulliad. Mae'r mesur olaf hwn yn fwyfwy defnyddiol fel arf ac yn un sydd yn dod yn fwy hylaw a hygyrch o hyd.

Yng ngoleuni'r ddadl yfory, rhoddaf enghraifft ymarferol o'n hymrwymiad i lywodraeth agored a mynediad at wybodaeth. Drwy gyhoeddi cyllideb ddrafft neu werdd Edwina Hart, yr Ysgrifennydd Cyllid, bu modd cynnal trafodaeth ystyrlon cyn y ddadl yn y Cyfarfod Llawn ac wedi hynny yn y Pwyllgorau Pwnc. Yr oedd rhywfaint o anghytuno ynghylch y rhybudd am hynny ond rhaid inni gydnabod bod y broses hon yn newydd iawn a'i bod ymhell ar y blaen i brosesau llunio cyllidebau mewn cyrff deddfwriaethol eraill. Mae hon yn system penderfynu newydd, agored a thryloyw ac mae'r Adran Weithredol, yn ogystal â'r Cynulliad, wedi ymrwymo i sicrhau ei bod yn gweithio. Er enghraifft, caiff unrhyw Aelod Cynulliad fynediad at wybodaeth ar y fewnwyd ym mha le bynnag y mae, yn ei swyddfa yma, yn ei etholaeth, gartref neu drwy gyfrwng ei gyfrifiadur arffed mewn

gwesty neu ym mha le bynnag.

We must note the observations that Members have made about some of the weaknesses and drawbacks of our system but I emphasise again that this is being done the first time. We are taking brave new steps in the provision of open access to information and we should commend what has been achieved so far. The change in the Standing Orders this afternoon may ensure that we take that on board. The Government proposed the change on tabling of motions because we felt that was important in order to make the business manageable. Other Members, as well as the Government, should have the wherewithal to have an informed debate.

We publish the register of Members' interests on the internet. That is another first. We consult bodies representing disabled people and minority communities to identify the format and languages in which information should be made available in our documents and proceedings. We broadcast the Assembly's proceedings. The role of the Welsh Administration Ombudsman is important in investigating any unresolved complaints about a failure to release information under the Assembly's Code of Practice on Public Access to Information. The existence in the Assembly of the Public Information and Education Service of the Library is another major step forward.

I take note of Mike German's points about the weaknesses in the way we present ourselves to the world. The Government and the Office of the Presiding Officer are also taking note of that issue. I hope we can greatly improve our service in the future.

4:59 p.m.

I am aware of the lack of time. The only reference that I will make to local government organisation and standards is that that may well be included in the Queen's Speech. When we debate the Government's forward legislative programme I am sure that John Marek and others here today will be able to make their points about what they see are the priorities to the Secretary of State for

Rhaid inni nodi'r sylwadau a wnaethpwyd gan yr Aelodau am rai o'r gwendidau a'r anfanteision yn ein system ond pwysleisiaf eto fod hyn yn cael ei wneud am y tro cyntaf. Yr ydym yn camu ymlaen yn eofn wrth ddarparu mynediad agored at wybodaeth a dylem ganmol yr hyn a gyflawnwyd hyd yn hyn. Efallai y bydd y newid yn y Rheolau Sefydlog y prynhawn yma yn sicrhau ein bod yn rhoi ystyriaeth i hynny. Yr oedd y Llywodraeth wedi cynnig y newid ynghylch cyflwyno cynigion am ein bod yn teimlo bod hynny'n bwysig er mwyn hwyluso'r busnes. Dylai'r Aelodau eraill, yn ogystal â'r Llywodraeth, gael y modd i gynnal dadl gytbwys.

Yr ydym yn cyhoeddi cofrestr o fuddiannau'r Aelodau ar y rhyngwrdd. Dyna'r tro cyntaf i hynny ddigwydd hefyd. Byddwn yn ymgynghori â chyrff sydd yn cynrychioli pobl anabl a chymunedau lleiafrifol er mwyn dynodi'r fformat a'r ieithoedd y dylid eu defnyddio i ddarparu gwybodaeth yn ein dogfennau a'n trafodion. Yr ydym yn darlledu trafodion y Cynulliad. Mae rôl Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru yn bwysig wrth ymchwilio i unrhyw gwynion sydd heb eu datrys am fethiant i ryddhau gwybodaeth o dan God Ymarfer y Cynulliad ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Mae presenoldeb y Gwasanaeth Gwybodaeth ac Addysg Cyhoeddus yn Llyfrgell y Cynulliad yn gam mawr arall ymlaen.

Nodaf bwyntiau Mike German ynghylch y gwendidau yn y modd y cyflwynwn ein hunain i'r byd. Mae'r Llywodraeth a Swyddfa'r Llywydd hefyd yn rhoi sylw i'r mater hwnnw. Gobeithiaf y gallwn wella'n gwasanaeth yn sylweddol yn y dyfodol.

Gwn fod amser yn brin. Yr unig beth a ddywedaf wrth gyfeirio at drefniadaeth a safonau llywodraeth leol yw ei bod yn bosibl iawn y caiff hynny ei gynnwys yn Araith y Frenhines. Pan drafodwn raglen ddeddfu'r Llywodraeth ar gyfer y dyfodol yr wyf yn sicr y bydd John Marek ac eraill sydd yma heddiw yn gallu cyflwyno eu pwyntiau ynghylch yr hyn a welant yn flaenoriaethau i

Wales.

In conclusion, while we have had problems with access to information, that has mainly been due to the mechanisms and is not a failure of our intent or principles. There is a presumption for openness and accessibility of information. We should celebrate that we have come a long way but realise that there is some way to go.

Y Llywydd: Daw hynny â digwyddiadau heddiw i ben a diolchaf i'r Aelodau. Hoffwn eich atgoffa bod digwyddiad pwysig oddi allan y Siambr yn y chwarter awr nesaf, sef derbyn gwaith celfyddyd a gyflwynwyd i'r Cynulliad gan Swyddfa'r Post yn dilyn dyluniad y stampiau diffiniol ar gyfer Cymru. Tanlinellaf wahoddiad y Prif Ysgrifennydd a minnau ichi fod yn bresennol yn y digwyddiad hwnnw.

Ysgrifennydd Gwladol Cymru.

I derfynu, er inni brofi problemau gyda mynediad at wybodaeth, bu hynny o ganlyniad i'r mecanweithiau yn bennaf ac nid yw'n fethiant o ran ein bwriad neu'n hegwyddorion. Ceir rhagdybiaeth o blaid bod yn agored a sicrhau mynediad at wybodaeth. Dylem ddathlu ein bod wedi gwneud cynnydd mawr ond gan sylweddoli hefyd fod cryn ffordd i fynd eto.

The Presiding Officer: That brings today's proceedings to a close and I thank Members. I would like to remind you of the important event taking place outside the Chamber within the next quarter of an hour, namely to receive the artwork presented to the Assembly by the Post Office following the designing of the definitive stamps for Wales. I emphasise the First Secretary's and my invitation for you to be present at that event.

*Daeth y cyfarfod i ben am 5.01 p.m.
The session ended at 5.01 p.m.*